Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Troseddau yn erbyn, a cham-drin, pobl hŷn yng Nghymru

Cael cymorth a chyfiawnder: cydweithio

Sarah Wydall
Rebecca Zerk
Jeremy Newman

Ionawr 2015

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru. Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio ynddo, nid i rai pobl yn unig ond i bawb.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 08442 640 670

E-bost: gofyn@olderpeoplewales.com
Gwefan: www.olderpeoplewales.com

Trydar: @comisiwnphcymru

Fformatau Hygyrch

Os hoffech dderbyn y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni. Mae pob un o'n cyhoeddiadau hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'u harchebu mewn nifer o fformatau gwahanol oddi ar ein gwefan.

Cynnwys

Rhagair 3

Crynodeb Gweithredol 4

Cyflwyniad 14

Y cyd-destun polisi 14

Pobl hŷn a cham-drin domestig 15

Prosiect peilot 'Mynediad i Gyfiawnder' 2011 16

1. Yr ymchwil 19

Amcanion a Methodoleg yr Ymchwil 19

2. Canfyddiadau'r Ymchwil 21

Effeithiolrwydd Systemau Rheoli Data 21

Rhannu gwybodaeth 22

Adnabod a Chofnodi Cam-drin Domestig 24

Problemau gyda data cyfun a monitro trais domestig 26

Y gwahanol fathau o gam-drin a natur y cam-drin 29

3. Y Broses Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (AOAN) 31

Atgyfeiriadau amddiffyn oedolion 2012-13 31

Gorthrech, cydsynio ac ymyrryd 39

Pŵer i ymyrryd 43

Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (CAAR) 46

Rhannu gwybodaeth a diystyru'r broses gydsynio 48

Ymagwedd gyfannol 51

Swyddogaeth Gwasanaethau Tai 52

Tynnu'n ôl 54

Ymateb ymarferwyr pan ddatgelir cam-drin 57

4. Cyfiawnder troseddol a throseddau casineb 60

5. Arferion Da 69

6. Argymhellion 74

7. Llyfryddiaeth 83

8. Atodiadau **86**

Atodiad A 86

Atodiad B 90

Atodiad C 96

Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'r nifer fawr o bobl a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon ac a oedd yn fodlon treulio'u hamser gwerthfawr yn ein helpu. Roeddem yn gwerthfawrogi cymorth yr asiantaethau statudol a rhai'r trydydd sector. Er mwyn sicrhau cyfrinachedd, nid yw'n briodol inni grybwyll enwau'r bobl a gymerodd ran yn yr ymchwil.

Geirfa

PAAO	Adroddiad Pwyllgor Ardal Amddiffyn Oedolion
ABPAO	Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Amddiffyn Oedolion
MiG	Mynediad at Gyfiawnder
SCT	System Cyfiawnder Troseddol
SRhD	Systemau Rheoli Data
EATD	Eiriolwr Annibynnol Trais Domestig
EAGM	Eiriolwr Annibynnol Galluedd Meddyliol
CAAR	Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
AOAN	Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed

Y tîm ymchwil

Diolch i Jeremy Newman, ein rheolwr prosiect, a diolch i Rebecca Zerk a wnaeth y rhan fwyaf o'r gwaith maes, y gwaith dadansoddi ac ysgrifennu'r adroddiad. Hoffem ddiolch hefyd i'r Athro Alan Clarke ac i'r Athro John Williams am eu cefnogaeth a'u harweiniad yn y prosiect. Diolch yn arbennig i Sarah Rochira, Anna Buchanan a Martyn Jones.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am amddiffyn oedolion, cam-drin domestig a throseddau casineb. Archwiliad annibynnol ydyw i'r systemau rheoli gwybodaeth ac fe'i darperir er gwybodaeth gyffredinol yn unig. Ni fwriedir iddo fod yn ffynhonnell cyngor cyfreithiol sy'n berthnasol i unrhyw amgylchiadau penodol. Er bod Prifysgol Aberystwyth, y sawl a gyflogir ganddi a'i myfyrwyr wedi cymryd pob gofal rhesymol i sicrhau bod y data sydd yn yr adroddiad yn gywir adeg ei argraffu, data trydydd partïon sy'n cael eu defnyddio ac ni all y Brifysgol dderbyn atebolrwydd na chyfrifoldeb am eu cywirdeb, eu digonolrwydd na'u cyflawnder ac nid yw'n gwneud hynny. Ni roddir ac ni awgrymir ychwaith bod unrhyw warant yng nghyswllt yr adroddiad hwn.

Rhagair

Ym mis Mehefin 2013, cyhoeddais fy Fframwaith Gweithredu sy'n rhestru fy mlaenoriaethau ac yn dweud sut y byddaf, yn ystod fy nghyfnod yn y swydd, yn cyflawni fy swyddogaeth statudol, fel y'i diffinnir yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Un o'm prif flaenoriaethau yw gweithio gyda'r system cyfiawnder troseddol ehangach, asiantaethau diogelu, cydweithwyr yng ngwasanaethau'r heddlu ac eraill i gryfhau'r ymwybyddiaeth o natur y cam-drin a wynebir gan bobl hŷn ac i sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar gymorth a cyfiawnder. Rwy'n dymuno sicrhau, pan fydd y diffiniad cyfreithiol yn berthnasol iddynt, fod pobl hŷn yn cael eu cydnabod yn ddioddefwyr cam-drin domestig a'u bod yn gallu cael gafael ar yr holl gymorth sydd ar gael iddynt o dan ddeddfwriaeth cam-drin domestig a gwasanaethau cymorth cam-drin domestig, a bod cam-drin pobl hŷn yn cael ei gydnabod a'i drin fel gweithred droseddol.

Er bod rhywfaint o arferion da i'w gweld ledled Cymru, nid yw'r rheini'n cael eu rhoi ar waith yn gyson ym mhob man. Mae angen mynd ati gyda mwy o ymroddiad ac mewn ffordd fwy cydlynol i ddiogelu llawer o bobl hŷn sy'n cael eu cam-drin.

Yn gefn i'm gwaith, comisiynais Brifysgol Aberystwyth i edrych ar sut y byddwn yn canfod, ac yn cofnodi data ac achosion a sut y bydd y rhain yn cael eu trosglwyddo rhwng asiantaethau. Gofynnais i'r ymchwilwyr awgrymu sut y gallwn wneud hyn yn well yng Nghymru. Mae amddiffyn oedolion ar fin cael ei roi ar sail statudol drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ac felly, mae'n adeg briodol inni ystyried sut y gall asiantaethau gydweithio'n well er mwyn atal pobl hŷn rhag disgyn drwy'r 'bylchau' rhwng gwasanaethau.

Yn wahanol i'r rhan fwyaf o'm hadroddiadau, sydd wedi'u bwriadu'n benodol ar gyfer pobl hŷn, mae'r adroddiad hwn wedi'i dargedu at weithwyr proffesiynol sydd â swyddogaeth i ddiogelu ac amddiffyn oedolion ac ym maes gwasanaethau cam-drin domestig. Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, fy mwriad fydd dwyn ynghyd weithgor a fydd yn edrych ar argymhellion yr adroddiad ac yn mapio ffordd ymlaen i fynd i'r afael â'r materion a godir ynddo.

Ar 9 Rhagfyr 2013, cynhaliais seminar lle y bûm yn rhannu canfyddiadau cychwynnol yr adroddiad â llawer o arweinwyr pwysig yng Nghymru, megis Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, arbenigwyr ym maes diogelu oedolion a'r rheini sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen ym maes cam-drin domestig. Roedd yr adborth a gefais yn gadarnhaol a'r ymchwil yn ategu eu profiadau mewn sawl ffordd; rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'r bobl hyn ac â phobl eraill i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael gafael ar y cymorth a'r cyfiawnder y mae ganddynt yr hawl i'w cael er mwyn i Gymru fod yn lle diogel i heneiddio ynddo, nid dim ond i rai ond i bawb.

Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Ionawr 2015

Crynodeb Gweithredol

Rheoli data'n effeithiol

Wrth ddadansoddi'r cyfweliadau ag ymarferwyr sy'n ymwneud â rheoli achosion, roedd y ffordd yr oeddent yn deall cam-drin domestig yng nghyswllt pobl hŷn yn amrywio'n sylweddol. Serch hynny, wrth gyfweld ag ymarferwyr mewn awdurdodau a oedd wedi buddsoddi'n sylweddol mewn hyfforddi staff, gwelwyd bod eu dealltwriaeth hwy o gam-drin pobl hŷn yn fwy soffistigedig a threiddgar; mewn awdurdodau eraill, roedd yn amlwg bod angen rhagor o hyfforddiant yn y maes hwn.

1. Setiau o ddata cyfun

Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o'r achosion o gam-drin domestig yn cael eu dosbarthu'n gategorïau ar wahân sy'n cofnodi'r gwahanol fathau o gam-drin. Felly mae cam-drin domestig yn cael eu lyncu i ganol mathau eraill o gam-drin a allai fod yn ddigwyddiadau unigol lle na fydd gan y camdriniwr gysylltiad â'r dioddefwr. Felly, mae'n bosibl bod yr elfennau cam-drin domestig yn mynd ar goll.

2. Y gwahanol fathau o gam-drin a natur y cam-drin

Dywedodd ymarferwyr nad oeddent yn sicr pa fathau o wybodaeth na pha lefel o wybodaeth y gallent eu cofnodi. Roedd nifer o ymarferwyr o dan gamargraff na ellid casglu gwybodaeth fanwl am gamdriniwr honedig onid oedd y camdriniwr wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd. Roedd rhywfaint o ymwybyddiaeth ymhlith rhai awdurdodau lleol ei bod yn rhaid i ymarferwyr AOAN, er mwyn atal y cam-drin, sylweddoli beth yw anghenion y camdriniwr a'r dioddefwr ill dau, a mynd i'r afael â'r anghenion hynny.

3. Cam-drin ariannol

Nid oedd cam-drin ariannol bob tro'n cael ei weld yn arwydd posibl o fathau eraill o gam-drin, ac nid oedd cam-drin ariannol gan berthynas i'r dioddefwr yn cael ei gofnodi'n gam-drin domestig gan asiantaethau mewn rhai achosion. Oherwydd nad yw rhai ymarferwyr efallai'n gweld achos o gam-drin ariannol yn gam-drin domestig fe all hyn arwain at gamasesu risg sefyllfa ac felly ymateb amhriodol.

4. Cysylltiad â'r camdriniwr

Bydd unrhyw adeg pan na fydd y camdriniwr honedig gyda'r dioddefwr yn cynnig cyfle i'r dioddefwr ddatgelu rhagor a chyfle hefyd i'r ymarferwyr fireinio'u cynlluniau diogelwch.

5. Adnabod a chofnodi cam-drin domestig

Mae'n ymddangos bod bwlch rhwng gwybodaeth ymarferwyr am sut y diffinnir cam-drin domestig ac i ba raddau yr oedd eu gwybodaeth am y diffiniad yn sail i'w hymarfer go iawn.

6. Lleoliad y Cam-drin Domestig

Roedd ymarferwyr o dan gamargraff fod yn rhaid i gamdriniwr fod yn byw ar yr un aelwyd â'r dioddefwr er mwyn i ddigwyddiad gael ei ystyried yn gam-drin domestig. Y berthynas sy'n diffinio cam-drin domestig, nid y lleoliad o reidrwydd.

Y broses Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (AOAN)

1. Penderfyniadau ynghylch y trothwy a'u rhoi ar waith

Wrth holi'r un awdurdod lleol ar hugain (o blith dau ar hugain) a gymerodd ran yn yr ymchwil, gwelwyd bod rhywfaint o wahaniaeth yn y ffordd yr oeddent yn dehongli 'niwed sylweddol' ac yn rhoi'r diffiniad hwnnw ar waith. Er ei bod yn hawdd deall mân amrywiadau, teimlai ymarferwyr fod yr arferion presennol wedi arwain at amrywiadau helaeth wrth wneud penderfyniadau ynghylch y trothwy. Roedd ansicrwydd ynglŷn â sut y dylid mynd i'r afael â'r amrywiadau hyn wrth ddefnyddio'r prawf trothwy. Teimlid bod gwybodaeth wrth benderfynu ynghylch y trothwy'n dibynnu ar effeithiolrwydd rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau a sut yr oedd systemau rheoli data'n cael eu defnyddio.

2. Rhannu Gwybodaeth

Teimlai ymarferwyr, ar brydiau, nad oedd data perthnasol iawn yn cael eu trosglwyddo ar adegau i asiantaethau allweddol, a bod hynny'n golygu nad oedd digon o gymorth yn cael ei ddarparu ar gyfer dioddefwyr hŷn ar adegau hollbwysig. Dywedodd rhai asiantaethau nad oedd cyrff eraill yn defnyddio Deddf Diogelu Data 1998 a phrotocolau rhannu gwybodaeth i'w heithaf a bod hyn yn dylanwadu ar ansawdd y prosesau asesu risg a rheoli diogelwch.

Gwelwyd tystiolaeth o 'weithio ynysig' mewn ambell achos, ac roedd rhai'n poeni nad oedd y trefniadau rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau ar hyn o bryd mor effeithiol ag y gallent fod. At hynny, roedd asiantaethau allanol naill ai'n treulio gormod o amser yn ymateb neu nid oedd rhai asiantaethau'n ymateb o gwbl i geisiadau am wybodaeth, er mwyn gallu llunio asesiad cywir.

3. Gwybodaeth am y broses AOAN

Roedd gwybodaeth yr heddlu am broses a throthwy AOAN yn amrywio o fewn lluoedd a rhyngddynt. Teimlai gweithwyr proffesiynol fod angen i hyfforddiant AOAN fod yn orfodol oherwydd, ar hyn o bryd, nid oedd gwybodaeth rhai asiantaethau am y broses a'r prawf trothwy'n ddigonol.

> 'Asiantaethau lle mae angen rhagor o hyfforddiant a gwybodaeth am y trothwy fyddai'r heddlu. Bydd asiantaethau eraill yn ein ffonio ni ac yn trafod y digwyddiad cyn atgyfeirio'r achos ond bydd yr heddlu'n ei gyfeirio aton ni'n syth.'
>
> (Cydlynydd AOAN: 2)

4. Gwybodaeth staff gwasanaethau iechyd a lefel eu hyfforddiant

Roedd rhai'n meddwl hefyd bod gwybodaeth staff gwasanaethau iechyd am drothwy AOAN yn dibynnu'n fawr ar rôl y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Roedd ymarferwyr yn credu bod gan Feddygon Teulu, ac ystyried i ba raddau y byddant yn dod i gysylltiad â phobl hŷn, gyfle delfrydol i sylwi ar gam-drin ac i ddiogelu'r unigolion; serch hynny, roedd yn destun pryder bod y cyfleoedd hyn yn cael eu colli. Dywedodd ymarferwyr AOAN fod gwir angen i feddygon teulu gynnal sgwrs fwy ystyrlon â phobl hŷn, naill ai er mwyn cael rhagor o gyngor neu i nodi'n benodol pa gamau a gymerwyd ganddynt i ddiogelu'r unigolyn. Teimlid bod sicrhau mwy o gyfraniad gan feddygon teulu'n hollbwysig, yn enwedig yn ystod y cyfnod rhwng atgyfeirio achos a chynnal y Cyfarfod Strategaeth cychwynnol (er mwyn penderfynu sut i ymdrin â'r atgyfeiriad).

Dywedwyd bod angen i feddygon teulu gael hyfforddiant gorfodol er mwyn iddynt wybod mwy am drothwy AOAN a'i ddeall yn well. Pan fyddai asiantaethau iechyd yn gwneud cyfraniad o'r fath, roedd hynny'n amhrisiadwy i feddygon teulu a chofio'u bod yn dod i gysylltiad yn rheolaidd â dioddefwyr hŷn.

5. Ansawdd yr atgyfeirio

Soniai ymarferwyr AOAN yn aml na fydd gweithwyr y rheng flaen yn rhoi digon o fanylion ar y ffurflen atgyfeirio. Roeddent yn teimlo bod gorfod ceisio rhagor o eglurhad a gofyn am ragor o wybodaeth yn dasg a oedd yn draul ar amser ymarferwyr AOAN.

6. Gweithwyr y rheng flaen, cydsynio a chyfleoedd i atgyfeirio achosion

Er bod ambell enghraifft ragorol o rymuso cleientiaid a'u cynnwys yn y broses benderfynu, yn enwedig yn yr ardaloedd lle yr oedd arferion da i'w gweld, pan na ofynnir am gydsyniad defnyddwyr gwasanaethau, fe all hyn fod yn rhwystr rhag datblygu ymateb sydd wedi'i deilwra ar gyfer yr unigolyn:

> 'Byddwn i'n dweud mai yn y fan hon y mae'r gwendid cyntaf pan fydd achos wedi'i gyfeirio ata'i, sef eu bod nhw [gweithiwr rheng flaen] heb gynnwys yr unigolyn. Mae bron fel petai'r hyn sydd flaenaf ar eu meddwl yw bod angen iddyn nhw riportio'r peth. Mater o gamu yn ôl yw hi a dweud, beth y mae angen imi ei wneud? Pwy y mae angen imi ei gynnwys? Beth mae angen imi ei sicrhau?'
>
> (Cydlynydd AOAN: 8)

Teimlid bod mynd ati o'r brig i lawr, yn hytrach gadael i'r cleient arwain y broses yn wrthgynhyrchiol, o ran sicrhau llai o risg i ddefnyddiwr y gwasanaeth a hefyd o ran ei bod yn fwy tebygol bod y cynlluniau gweithredu a oedd yn cael eu datblygu yn afrealistig ac yn anymarferol.

Gorthrech, cydsynio ac ymyrryd

Mae gwaith ymchwil gan Hoyle a Sanders (2000) yn dangos nad yw dioddefwyr cam-drin domestig yn aml mewn sefyllfa i gydsynio oherwydd eu bod dan bwysau

gan y camdriniwr sy'n eu rhwystro rhag cael gafael ar gymorth allanol.

1. Sylwi ar orthrech

Roedd yr heddlu ac asiantaethau gofal cymdeithasol yn sylweddoli bod cysylltiad wyneb-yn-wyneb yn fwy effeithiol na sgwrs dros y ffôn er mwyn gweld ai pwysau gan y camdriniwr a oedd yn gyfrifol am y ffaith bod dioddefwr yn gwrthod cydsynio. Byddai ymweld â'r cartref hefyd yn rhoi'r cyfle i ymarferwyr asesu'r berthynas rhwng y dioddefwr a'r camdriniwr a sicrhau a oedd y dioddefwr yn dylanwadu ar y dioddefwr drwy roi pwysau arno. Serch hynny, awgrymodd rhai ymarferwyr ar y rheng flaen nad oedd bob tro'n bosibl ymweld yn bersonol ac roeddent yn poeni bod yr adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd yn aml yn golygu bod achosion yn cael eu rheoli dros y ffôn.

Roedd nifer o ymarferwyr yn dweud eu bod yn rhwystredig i ryw raddau nad oedd cydweithwyr ac ymarferwyr allanol eraill bob tro'n sylweddoli dan faint o bwysau emosiynol, rheolaeth a gorthrech y gallai'r dioddefwr fod o du'r camdriniwr. Pwysleisiodd ymarferwyr bwysigrwydd defnyddio'r hyn yr oeddent yn ei alw'n 'ddeallusrwydd emosiynol' er mwyn helpu i benderfynu a oedd dioddefwr dan bwysau neu beidio o ran cydsynio.

2. Galluedd Meddyliol

Wrth asesu galluedd meddyliol, rhaid ystyried gallu rhywun i wneud penderfyniadau penodol yn hytrach nag ystyried cyflwr penodol. Felly, wrth asesu galluedd, dylai ymarferwyr asesu a yw rhywun yn gallu penderfynu yn unol â'r egwyddorion sydd yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005. Teimlid bod ymarferwyr yn dangos diffyg ymwybyddiaeth benodol o sut i weithredu mewn achosion lle'r oedd galluedd meddyliol yn mynd a dod. Mae hyn yn rhywbeth y mae angen rhoi sylw iddo ar frys er mwyn amddiffyn hawliau dynol yr unigolyn dan sylw ac osgoi ymagwedd dadol ddiangen.

3. Pŵer i ymyrryd

> 'Rwy'n dweud ymyrryd...byddai'n well o lawer gen i petaen ni'n holi ac yn gofyn yn fwy manwl ac yna'n ymyrryd. Byddwn i'n hapusach i bobl ofyn imi pam rwy'n busnesa nag y byddwn i'n gorfod dweud mewn cwest Crwner pam na wnes i ddim. Mae hynny'n hanfodol.'
>
> (Ditectif Arolygydd: 1)

Roedd ymarferwyr a oedd yn deall sut yr oedd camdrinwyr yn defnyddio pŵer, rheolaeth a gorthrech dros eu dioddefwyr o blaid datblygu ymagweddau mwy ymyrrol o lawer er mwyn lleihau'r risg o gam-drin domestig i ddioddefwyr. Disgwylir y bydd Deddf newydd Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) [nad yw mewn grym eto] yn annog ymagwedd fwy ymyrrol mewn ambell achos, ond nid oes sicrwydd eto a fydd y Gorchmynion Goruchwylio newydd i Amddiffyn Oedolion y cyfeirir atynt yn y Ddeddf yn effeithiol o ran rhoi mwy o le i asiantaethau ymyrryd.

4. Grymuso

Roedd enghreifftiau ardderchog mewn rhai ardaloedd o gleientiaid yn cael eu cynnwys ym mhob cam o'r broses, hyd yn oed mewn cyfarfodydd strategaeth, a'r adborth oedd bod hyn o fudd o ran hwyluso ymgysylltu a'i fod hefyd yn golygu bod llai o ailatgyfeirio a bod adnoddau staff yn cael eu teilwra'n well ac yn cael eu defnyddio'n fwy effeithlon (gweler yr adran am Arferion Da).

5. Presenoldeb

Roedd presenoldeb gweithwyr proffesiynol mewn cyfarfodydd AOAN yn amrywio o awdurdod i awdurdod. Serch hynny, y farn gyffredinol oedd bod angen i wasanaethau iechyd ymgysylltu'n well â'r broses. Teimlai ymarferwyr AOAN y dylai fod yn ofyniad statudol i bobl fod yn bresennol mewn cyfarfodydd strategaeth.

6. "Teigr heb ddannedd"

Roedd rhai ymarferwyr yn gweld AOAN yn 'deigr heb ddannedd' o ran bod y broses yn arwain at argymhellion i helpu unigolion ond nad oes deddfwriaeth i hwyluso trefn lle bydd gofyn i'r ymarferydd gydymffurfio â'r argymhelliad; y teimlad oedd bod y diffyg deddfwriaeth hwn yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddai pobl yn cael eu hailatgyfeirio ac y byddai'r cam-drin o bosibl yn parhau:

> 'Rwy'n teimlo bod AOAN yn ymarfer dibwynt...rwy'n teimlo petai rhyw fath o ddeddfwriaeth y byddai gan AOAN ychydig mwy o rym i wneud rhywbeth mewn gwirionedd.'
>
> (Gweithiwr Cymdeithasol: 1)

Roedd ymarferwyr AOAN a phobl eraill y cyfwelwyd â hwy yn aml yn cymharu'r ddeddfwriaeth a oedd wedi cael ei datblygu ar gyfer y broses amddiffyn plant a'r bylchau gwrthgyferbyniol yn y broses amddiffyn oedolion.

Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (CAAR)

1. Defnyddio Rhestr Wirio Dangosyddion Risg Cam-drin Domestig, Stelcian ac Aflonyddu (y Rhestr Wirio) mewn achosion sy'n cynnwys dioddefwyr hŷn.

Yn yr ardaloedd lle y gwelwyd 'arferion da', ystyrid y rhestr wirio hon yn hollbwysig oherwydd ei bod wedi'i chynllunio'n benodol i asesu risg mewn achosion trais domestig. Mae canfyddiadau'r astudiaeth bresennol yn cryfhau canfyddiadau'r gwerthusiad o Mynediad i Gyfiawnder (Clarke et al 2012: 24)[1] gyda golwg ar wasanaethau i oedolion, lle'r oedd yn ymddangos naill ai bod y wybodaeth yn gyfyngedig ac felly bod y rhestr wirio'n cael ei rhoi ar waith mewn ffordd annigonol, neu amharodrwydd i ddefnyddio'r rhestr honno i asesu pobl hŷn sy'n dioddef cam-drin domestig.

Roedd sawl un o'r rheini y cyfwelwyd â hwy yn meddwl y gallai peidio â defnyddio'r rhestr wirio olygu bod rhywun yn methu cyfle i ganfod cam-drin domestig ac asesu lefel y risg.

1 http://wales.gov.uk/statistics-and-research/evaluation-access-to-justice-pilot/?skip=1&lang=cy

2. Gwybodaeth am broses CAAR

Roedd nifer y bobl hŷn a oedd wedi dioddef cam-drin domestig ac wedi'u cyfeirio at CAAR yn syndod o isel. Credid bod nifer y rheini sy'n drigain oed ac yn hŷn ac wedi'u hatgyfeirio'n isel oherwydd bod diffyg ymwybyddiaeth o gam-drin domestig ymhlith grwpiau oedran hŷn a bod y diffyg gwybodaeth hwn yn arwain at gyndynrwydd asiantaethau i ymwneud â phroses CAAR/EATD.

Effeithiolrwydd a chyfyngiadau tybiedig integreiddio AOAN a CAAR

Mae'n bosibl defnyddio proses AOAN a phroses CAAR ill dwy gydag unigolyn. Teimlai gweithwyr proffesiynol AOAN fod proses AOAN yn ddull mwy trwyadl na phroses CAAR wrth ymdrin â'r unigolyn oherwydd bod mwy o amser gan bobl i drafod yr achos. Mae'r canfyddiadau yma'n atgyfnerthu eto rhai o ganfyddiadau'r gwerthusiad o'r astudiaeth *Mynediad i Gyfiawnder* sef bod gofyn trafod rhagor ar lefelau strategol a gweithredol rolau a llwybrau'r AOAN a'r CAAR er mwyn penderfynu ym mha achosion y mae angen i un broses gyfrannu mwy na'r llall ac ar ba bwynt y gallai achos elwa o integreiddio'r dulliau.

1. Hyfforddiant gorfodol

Cafwyd awgrym cryf bod angen hyfforddiant gorfodol ar gyfer proses CAAR/EATD er mwyn mynd ati mewn ffordd fwy treiddgar ar sail anghenion penodol y dioddefwr hŷn unigol yn hytrach nag ymateb mewn ffordd fwy cyffredinol i grŵp amrywiol o bobl hŷn. Mae ymateb cyffredinol fel hyn yn annhebygol iawn o arwain at ganlyniadau cadarnhaol sydd wedi'u teilwra ar gyfer anghenion unigolion. Er bod sawl ymarferydd yn meddwl mai mynd ati fesul achos oedd y ffordd orau, roedd sawl un heb ddeall y gallai ymateb sydd wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer pobl hŷn sy'n dioddef cam-drin domestig arwain at fudd go iawn.

2. Cyfathrebu

Teimlid ei bod yn hanfodol cael cyfathrebu clir rhwng proses CAAR a phroses AOAN er mwyn osgoi dyblygu ymarfer, gan fonitro pa ymarferydd sy'n gyfrifol am gamau penodol. Ar hyn o bryd, nid yw'r ddwy broses wedi'u hintegreiddio hanner mor effeithiol ag y gallent fod.

Swyddogaeth Tai

I denantiaid lleol a oedd wedi cael eu cam-drin, gallai awdurdodau tai a chymdeithasau tai lleol weithio gydag asiantaethau eraill i sicrhau canlyniadau cadarnhaol mwy diogel, ond ar gyfer tai perchen-feddianwyr, roedd symud y camdriniwr oddi yno'n dasg hwy a mwy cymhleth.

1. Cefnogi diogelu

Mewn rhai ardaloedd, roedd awdurdodau tai lleol yn ymwneud yn frwd â gwaith diogelu, er enghraifft, byddai tenantiaid a oedd yn cam-drin pobl eraill yn cael eu tynnu oddi ar y cytundeb tenantiaeth, a chaniatâd yn cael ei roi i newid cloeon y

drysau. Roedd asiantaethau eraill yn sylweddoli bod cynnwys gwasanaethau tai'n gallu bod o fudd a gwelwyd enghreifftiau o gydweithio da rhwng asiantaethau. Roedd asiantaethau'n gweld potensial cryfhau swyddogaeth gwasanaethau tai mewn achosion lle byddai pobl hŷn yn wynebu cam-drin domestig, a chofio bod asiantaethau tai o bosibl yn fan cyswllt rheolaidd, yn enwedig mewn achosion lle bydd gan unigolyn anabledd a'i fod o bosibl yn gaeth i'r tŷ.

2. Ailgartrefu camdrinwyr

Mewn ardaloedd lle'r oedd gwasanaethau tai'n rhan o'r broses, teimlid bod y camau diogelu y gellid eu rhoi ar waith yn effeithiol iawn. Roedd gweithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol yn cydnabod yn gyffredinol bod prinder tai priodol ar gyfer y dioddefwr a bod angen ailgartrefu'r camdriniwr er mwyn osgoi rhagor o niwed.

Tynnu'n ôl

1. Y cleient yn troi ei gefn ar y broses

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr fod cleientiaid yn fwy tebygol o droi cefn ar y broses yn ystod y camau cychwynnol, a hynny'n aml yn digwydd adeg y cyswllt cyntaf â'r asiantaeth gychwynnol. Roedd y tebygolrwydd bod y dioddefwr yn fodlon ymgysylltu â'r ymarferwyr yn dibynnu ar ddau ffactor:

- pwy sydd wedi datgelu'r cam-drin; a
- sut mae'r sawl y datgelwyd y wybodaeth hon iddo wedi ymateb.

Dywedodd gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol mai prif gymhelliant pobl hŷn sy'n dioddef cam-drin domestig dros alw'r asiantaethau oedd nid i geisio help iddynt hwy eu hunain, ond i ofyn am help i'r camdriniwr.

Dyma rai o'r rhesymau dros gyndynrwydd i ymwneud â phrosesau cyfiawnder:

- ofn canlyniadau o du'r camdriniwr;
- ofn y canlyniadau negyddol i'r teulu, yn enwedig mwy o ynysu, a rhagor o ddial;
- dioddefwyr yn teimlo y byddai'n well ganddynt fyw gyda'r cam-drin na cholli aelod o'r teulu, yn enwedig os y camdriniwr yw'r unig un y mae gan y dioddefwr gysylltiad ag ef;
- dioddefwyr yn teimlo eu bod rhywsut yn gyfrifol - yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol - am y cam-drin, yn enwedig os ydynt yn rhiant neu'n nain/taid i'r camdriniwr.

Roedd beio'u hunain ac ymdeimlad o gyfrifoldeb yn aml yn cael effaith negyddol ar y broses benderfynu wrth geisio help.

Teimlid hefyd fod ffactorau cysylltiedig ag oedran yn dylanwadu ar benderfyniadau dioddefwyr hŷn ynglŷn ag a ddylent ymgysylltu â gofal cymdeithasol /gwasanaethau cyfiawnder neu beidio. Yn ôl ymarferwyr y rheng flaen, byddai dioddefwyr yn dweud nad oeddent am fod ar eu pen eu hunain tua diwedd eu hoes, hyd yn oed petai hynny'n golygu derbyn rhywfaint o gam-drin. Dywedodd ymarferwyr, ar ôl i'r camdriniwr gael ei symud o'r cartref a bod strategaethau'n cael eu rhoi ar waith i

wneud i'r dioddefwr deimlo'n ddiogel, byddai llawer o bobl hŷn yn barod wedyn i ymgysylltu â'r gwasanaethau. Roedd rhai'n meddwl bod angen datblygu rhagor o strategaethau i helpu dioddefwyr i deimlo'n ddiogel er mwyn iddynt fod mewn sefyllfa i ddatgelu gwybodaeth am eu cam-drin.

2. Diffyg gwybodaeth am y gwasanaethau sy'n cael eu darparu

Dywedodd ymarferwyr nad oedd pobl hŷn yn ymwybodol o brosesau diogelu a bod y diffyg gwybodaeth hwn am y gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n eu hatal rhag ymgysylltu. Felly, rhaid archwilio'n fwy brwd ddulliau o'u gwneud yn ymwybodol o'r gwasanaethau hyn.

3. I gleientiaid nad oeddent yn cyrraedd trothwy AOAN

Os nad oedd achos yn cyrraedd y trothwy AOAN, teimlid yn aml bod rhywfaint o ddryswch ynglŷn â pha asiantaeth statudol oedd yn gyfrifol am reoli'r achos. Serch hynny, roedd rhai'n meddwl pan nad oedd achosion yn cyrraedd y trothwy, nad oedd atgyfeiriadau dioddefwyr yn cael eu trin yn briodol, a bod llawer o achosion yn cael eu gadael 'rhwng asiantaethau heb gymorth clir'. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr fod gormod o achosion ar hyn o bryd yn 'disgyn drwy'r rhwyd' ac nad oedd hyn yn dderbyniol.

Achosion cyfiawnder troseddol

I bob golwg, roedd gwahaniaethau mawr rhwng awdurdodau lleol o ran ar ba bwynt y byddai'r gwasanaethau cymdeithasol yn cynnwys yr heddlu mewn achos. Teimlid ei bod yn bwysig i bob ymarferydd esbonio i ddioddefwyr beth yw natur rôl yr heddlu ac i drafod yr holl opsiynau sydd ar gael. Ni ddylid llunio dim tybiaethau ar sail rhagfarn oed pan fydd pobl yn penderfynu mynd ar drywydd canlyniad drwy'r drefn cyfiawnder.

Nododd swyddogion yr heddlu a gweithwyr proffesiynol Gwasanaeth Erlyn y Goron dri cham a oedd yn effeithio ar achosion cyfiawnder troseddol, sef: casglu tystiolaeth, tynnu datganiadau tystion yn ôl, ac achos yn y llys.

1. Casglu tystiolaeth

Teimlai asiantaethau Cyfiawnder Troseddol nad oedd y broses casglu tystiolaeth mor drylwyr ag y dylai fod yn enwedig lle'r oedd gofyn cael tystiolaeth feddygol yn gefn i honiadau. Roedd amseru'n hollbwysig oherwydd bod ansawdd y dystiolaeth yn dibynnu'n drwm ar amser.

2. Datganiadau tystion

Dywedodd swyddogion yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron fod dioddefwyr weithiau'n dewis troi cefn ar y broses oherwydd nad oeddent yn ei deall. Roedd rhai'n poeni hefyd bod toriadau cynyddol yn nifer y staff yn niweidiol.

Roedd dioddefwyr hŷn yn aml yn teimlo'n arbennig o ynysig rhwng yr adeg pan fyddai rhywun yn cael mechnïaeth a phan fyddai'r achos yn cael ei gynnal yn y llys. Roedd hwn yn gyfnod allweddol pan fyddai ymarferwyr yn sylwi ar gyfraddau

uchel o dynnu'n ôl[2]. Nodwyd bod eiriolwr o'r trydydd sector yn aml yn hollbwysig er mwyn annog pobl i barhau i ymgysylltu â'r broses cyfiawnder troseddol. Roedd swyddogion yr heddlu'n cydnabod, i bobl hŷn, bod diffyg cyfathrebu rheolaidd yn gallu achosi mwy o boen meddwl i bobl a'u harwain at droi cefn ar y broses.

3. Achosion llys

Dywedodd Gwasanaeth Erlyn y Goron a swyddogion yr heddlu fod pobl hŷn yn llai tebygol o holi am weithdrefn y llys ac mae'n bosibl bod ffurfioldeb proses y llys yn eu dychryn fwy nag y bydd yn dychryn pobl ar adegau eraill yn ystod eu hoes. Teimlid bod y broses wrthwynebus a'r dulliau holi trylwyr yn cael effaith negyddol ar bobl hŷn. Dywedodd swyddogion yr heddlu hefyd y gallai prosesau hir y llys arwain at gyfraddau troi cefn uwch gan ddioddefwyr hŷn oherwydd eu bod yn amharu ar iechyd a lles emosiynol y dioddefwr. Nid yw'n glir ar ba dystiolaeth y seiliwyd hyn.

Roedd rhai'n poeni nad oedd Camau Arbennig[3] yn cael eu dilyn pan oedd modd gwneud hynny a chredai swyddogion yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron fod angen llawer mwy o gefnogaeth ar ddioddefwyr hŷn nag yr oeddent yn ei gael ar hyn o bryd cyn, yn ystod ac ar ôl bod yn y llys, er mwyn ei gwneud yn fwy tebygol bod y broses erlyn a'r canlyniad yn llwyddiannus.

Troseddau Casineb

Roedd rhai gweithwyr proffesiynol ym maes troseddau casineb yn meddwl bod troseddau casineb yn erbyn pobl hŷn gan amlaf yn seiliedig ar faterion sy'n gysylltiedig ag oedran neu anabledd yn hytrach nag ar faterion eraill megis hil neu grefydd.

Roedd swyddogion arbenigol ym maes troseddau casineb yn dweud bod swyddogion yr heddlu'n gyffredinol o bosibl wedi ymateb i achos trosedd casineb heb iddynt o reidrwydd sylweddoli mai dyna ydyw, felly mae'n bosibl bod llawer o achosion yn cael eu cofnodi yn ddigwyddiadau o fath arall. Gyda golwg ar bobl hŷn, roedd tangofnodi troseddau casineb yn debyg iawn i dangofnodi cam-drin domestig.

Roedd swyddogion amddiffyn oedolion yn yr heddlu'n ymwybodol y byddai hyfforddiant ychwanegol o fudd i'w sefydliad. Roedd hi'n amlwg bod gwybodaeth sylfaenol ymarferwyr gofal cymdeithasol am droseddau casineb a sut y gallai hynny lunio'r ddarpariaeth gwasanaethau yn dal yn ei babandod.

1. Oedran fel ffactor adrodd

Roedd data cyfweliadau'n tynnu sylw at y ffaith fod gan Wasanaeth Erlyn y Goron 'oedran' yn gategori adrodd ar gyfer troseddau casineb ond nad yw'r heddlu'n cofnodi ystadegau ar gyfer troseddau casineb sy'n gysylltiedig ag oedran. Roedd rhai'n meddwl bod rhywfaint o ansicrwydd o fewn asiantaethau a rhyngddynt ynglŷn ag a ddylai 'oedran' fod yn gategori adrodd ar ben ei hun. Roedd rhai o'r ymarferwyr a gredai y dylai 'oedran' fod yn gategori adrodd ar ei ben ei hun yn teimlo bod camdrinwyr yn graff iawn yn targedu pobl i'w cam-drin.

2 Gostyngiad yn nifer yr achosion sy'n mynd rhagddynt
3 http://www.cps.gov.uk/legal/s_to_u/special_measures/

2. Delio â Throseddau Casineb

Y farn gyffredinol oedd bod tai cymdeithasol yn rhagweithiol wrth fynd i'r afael ag achosion troseddau casineb yn erbyn pobl hŷn:

> 'Darparwyr Tai Cymdeithasol...maen nhw'n ardderchog... Mi fydda i'n eu defnyddio nhw a'u Swyddogion Tai a'u Tîm Diogelwch Cymunedol i roi pwysau ar y camdriniwr, drwy fygwth eu tenantiaeth, israddio'u tenantiaeth, bygwth eu troi allan...Mae eu dealltwriaeth o Droseddau Casineb a'r ffordd sydd ganddynt o ddelio â'r peth yn eithriadol o gadarn.'
>
> (Swyddog Troseddau Casineb: 2)

Mae canfyddiadau ymchwil blaenorol am y maes hwn gan Clarke et al. (2011), yn awgrymu bod angen i gymdeithasau tai cymdeithasol a chymdeithasau tai eraill gryfhau ymwybyddiaeth tenantiaid o droseddau casineb a dweud wrthynt sut i roi gwybod i swyddogion tai am ddigwyddiadau mewn ffordd ddiogel. Dylai'r wybodaeth hon i gryfhau ymwybyddiaeth bwysleisio bod swyddogion tai, wrth iddynt ymateb, yn gorfod bod yn gyfrinachol ac yn sensitif er mwyn sicrhau na fydd dim canlyniadau annymunol pellach.

Cyflwyniad

'Dylai cyfiawnder a grymuso, ynghyd ag amddiffyn oedolion fod wrth galon unrhyw wasanaeth diogelu cynhwysfawr'

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (2010)

Nid dim ond hawl dynol yw gallu cael gafael ar gyfiawnder. Mewn ambell achos, efallai mai dyma'r unig ffordd effeithiol o amddiffyn y rhai sy'n cael eu cam-drin. Gall defnyddio prosesau cyfiawnder a darparu cymorth lles ategu ei gilydd cyn belled â bod cydbwysedd priodol rhwng y ddau sy'n cydnabod ac yn ymateb yn effeithiol i ddymuniadau'r unigolyn. Fel rhan o'r broses, mae'n hanfodol bod darparwyr gwasanaethau'n mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth drafod yr opsiynau troseddol, sifil a lles sydd ar gael.

Mae'r adolygiad 'Mewn Dwylo Diogel: Canllaw i Roi Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion ar waith yng Nghymru' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2000) yn pwysleisio bod angen i wasanaeth yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron ymwneud â'r broses yn gynharach os oes trosedd o bosibl fod wedi'i gyflawni. Mae dogfen bolisi Gwasanaeth Erlyn y Goron am droseddau yn erbyn pobl hŷn yn dweud y gall ymateb llesyddol i gam-drin oedolion agored i niwed arwain at dybiaeth bod peidio ag erlyn 'er budd y cyhoedd' am ei fod yn osgoi gadael dioddefwyr yn agored i'r system cyfiawnder troseddol, ac mae'n esgus dros ymyrryd gan y gwasanaeth lles.

Ar hyn o bryd yng Nghymru, nid oes gennym gyfraith debyg i'r Ddeddf sydd yn yr Alban, sef the Scottish Adult Support and Protecion (Scotland) Act 2007. Serch hynny, mae corff o gyfraith ar gael ar hyn o bryd sy'n berthnasol i ddiogelu ac amddiffyn pobl hŷn rhag cael eu cam-drin; mae hyn yn cael ei bwysleisio yn y canllawiau sydd wedi'u cyhoeddi gan y Comisiynydd Pobl Hŷn, 'Amddiffyn Pobl Hŷn yng Nghymru: Canllaw i'r gyfraith' (2014).

Y cyd-destun polisi

Bydd nifer sylweddol o bobl hŷn yn dioddef cam-drin domestig. Yn 2008, cynhaliwyd adolygiad o gam-drin domestig yng Nghymru gan Bwyllgor Cymunedau a Diwylliant Llywodraeth y Cynulliad. Ymhlith llawer o ganfyddiadau, gwelwyd nad oedd lefel y gwasanaethau a ddarperid i bobl hŷn a oedd yn dioddef cam-drin domestig yn ddigonol ac nad oedd y bobl hyn mewn rhai achosion yn cael eu hystyried yn 'ddioddefwyr' yn ôl diffiniad 'Mewn Dwylo Diogel: Canllaw i Roi Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion ar waith yng Nghymru' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2000). Nid dim ond problem gymdeithasol a phroblem droseddol yw cam-drin pobl hŷn. Mae hefyd yn broblem hawliau dynol.

Er bod cam-drin domestig ymhlith pobl hŷn yn aml yn cynnwys ymddygiad sy'n droseddol o ran ei natur (Williams 2010), peth prin yw ymchwiliadau troseddol, ac erlyniadau maes o law. Yng Nghymru, dros gyfnod o ddeuddeg mis (2011-2012), dim ond 2.4% o'r achosion a atgyfeiriwyd a gafodd eu herlyn yn y pen draw, ac fe arweiniodd 1.2% at rybudd (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cymru, 2013: 21). Yn yr un modd, mae'r ffigurau ar gyfer Lloegr yn isel, gydag 1% o'r holl achosion a atgyfeiriwyd ac a gwblhawyd yn arwain at erlyniad neu rybudd gan yr heddlu ar gyfer pob un o'r grwpiau oed 65-74, 75-84 ac 85 a hŷn (Canolfan Wybodaeth y GIG 2013: 47).

Nod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2013, yw sicrhau bod oedolion sydd mewn perygl yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn yn well drwy osod hyn am y tro cyntaf ar sail statudol. Un o brif darpariaethau'r Ddeddf yw ei bod yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ymchwilio os oes achos rhesymol dros amau bod rhywun yn oedolyn sydd mewn perygl. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys pwerau cyfyngedig i fynd i mewn i eiddo i gyfweld ag oedolion y credir eu bod mewn perygl. Bydd y newidiadau i'r Ddeddf yn gwella gallu awdurdodau lleol a phartneriaid statudol eraill i ymwneud â gwaith ataliol, ond hefyd i ymyrryd pan fydd angen. Gyda gwell fframwaith statudol, mae'r potensial i gynyddu cyfraddau atgyfeirio a phwerau ymyrryd cyfyngedig, bydd gofyn i awdurdodau lleol ymateb i gam-drin ac esgeulustod mewn gwahanol ffyrdd (Williams: 2013).

Mae'r llenyddiaeth ymchwil yn dangos, mewn achosion cam-drin domestig, y gall dioddefwyr ddioddef 'erlyn eilaidd' gan rai gweithwyr proffesiynol, sydd efallai heb gael yr hyfforddiant a'r profiad angenrheidiol i ymateb yn briodol i ddioddefwyr, yn enwedig pan fydd eu hanghenion yn gymhleth (Hoyle a Sanders: 2000).

Yn y Trosolwg Cymru Gyfan o Amddiffyn Oedolion gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (2010) sylweddolwyd y dylai grymuso ac ystyriaethau ynglŷn â chyfiawnder fod wrth galon unrhyw wasanaeth diogelu cynhwysfawr. I bobl sy'n dioddef cam-drin domestig, mae ceisio cyfiawnder drwy lwybrau troseddol a/neu sifil yn creu nifer o heriau sy'n aml yn rhai nad oes modd eu goresgyn, yn enwedig a chofio'r ddeinameg gymhleth sy'n bodoli'n aml rhwng y dioddefwr a'r camdriniwr (Clarke et al., 2012; Wydall a Clarke, 2011; Clarke a Wydall, 2010). Nod yr ymchwil hwn yw gweld pa gamau yn y broses atgyfeirio a allai wneud i ddioddefwyr hŷn droi cefn ar asiantaethau troseddol/sifil a lles.

Pobl hŷn a cham-drin domestig

Pobl hŷn a cham-drin domestig

Dyma ddiffiniad o gam-drin domestig:

Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau lle bydd yr ymddygiad yn rheoli, yn orthrechol neu'n bygwth, trais neu gam-drin rhwng y rheini sy'n 16 oed neu'n hŷn sydd neu sydd wedi bod yn bartneriaid clos neu'n aelodau o'r teulu, ni waeth beth yw eu rhyw na'u rhywioldeb. Gall hyn gwmpasu'r mathau canlynol o gam-drin: ond nid dim ond y rhain:

- seicolegol
- corfforol
- rhywiol
- ariannol

- emosiynol

Ymddygiad rheoli yw: ystod o weithredoedd sydd wedi'i chynllunio i wneud rhywun yn israddol a/neu ddibynnol drwy eu hynysu oddi wrth ffynonellau cymorth, gan gamfanteisio ar eu hadnoddau a'u galluoedd i sicrhau enillion personol, gan eu hamddifadu o'r modd sydd ei angen arnynt i fod yn annibynnol, i wrthwynebu ac i ddianc a rheoleiddio'u hymddygiad bob dydd.

> Ymddygiad gorthrechol yw: gweithred neu batrwm o weithredoedd o ymosod, bygwth, bychanu a dychrynu neu gam-drin arall sy'n cael ei ddefnyddio i niweidio, cosbi, neu godi ofn ar y dioddefwr
> (Y Swyddfa Gartref, 2012)

Ar hyn o bryd, nid yw'r ystadegau swyddogol yn cofnodi trais domestig yn rheolaidd fel 'trosedd ar wahân'; ac fe all trais domestig gael ei lyncu i nifer o gategorïau gwahanol, er enghraifft, ymosodiad cyffredin, niwed corfforol gwirioneddol, niwed corfforol difrifol, troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus.

Cyfateb i'r diffiniad a'r goblygiadau ar gyfer ymarfer

Er nad yw'r diffiniad o gam-drin pobl hŷn yn wahanol i'r diffiniad ar gyfer pobl eraill sy'n dioddef cam-drin domestig, mae gwahanol astudiaethau'n awgrymu y gall fod rhai gwahaniaethau, nid dim ond o ran natur y berthynas rhwng y dioddefwr a'r camdriniwr a pha fath o berthynas yw hi ond hefyd o ran y ffordd y bydd ymarferwyr yn ymateb i bobl hŷn sy'n cael eu cam-drin. Mae canfyddiadau nifer o astudiaethau yn y Deyrnas Unedig yn dangos nad yw ymarferwyr yn aml yn cofnodi profiad camdriniol pobl hŷn fel trais domestig er ei fod yn cyfateb i'r diffiniad. Yn hytrach, bydd achosion o drais domestig i'r rheini sydd dros eu trigain oed o bosibl yn cael eu categoreiddio drwy ddefnyddio disgrifyddion gwahanol megis dwyn neu esgeulustod.

Hefyd, efallai y bydd gan dioddefwyr hŷn wahanol flaenoriaethau, sy'n arwain wedyn at yr angen i ddatblygu ymarfer i ddarparu gwasanaeth priodol i adlewyrchu amrywiol anghenion dioddefwyr unigol.

Prosiect peilot 'Mynediad i Gyfiawnder' 2011

Canfyddiadau'r Gwerthusiad o Brosiect Peilot 'Mynediad i Gyfiawnder'

Yn 2012, cynhaliwyd gwerthusiad gan Clarke, Williams, Wydall a Boaler o'r Peilot Mynediad i Gyfiawnder, a ddatblygwyd ar sail strategaeth cam-drin domestig integredig chwe blynedd Llywodraeth Cymru 'Hawl i fod yn Ddiogel'. Cynlluniwyd y cynllun peilot i fynd i'r afael ag anghenion pobl hŷn, agored i niwed a oedd yn dioddef cam-drin domestig, ac i hwyluso'u mynediad at opsiynau cyfiawnder troseddol a sifil. Yn fwy cyffredinol, roedd y prosiect peilot yn ceisio adlewyrchu Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, er mwyn mynd i'r afael

â gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn lle bynnag y bydd hynny'n digwydd, hybu delweddau cadarnhaol o bobl sy'n heneiddio a rhoi llais cryfach i bobl hŷn yn y gymdeithas. (Mynediad i Gyfiawnder, 2011: 3). Yn y gwerthusiad o 131 o astudiaethau achos manwl, tynnwyd sylw at nifer o fylchau yn y ddarpariaeth gyfiawnder bresennol i bobl hŷn, er enghraifft:

a) nid oedd dwy ran o dair o'r sampl o ddioddefwyr yn ymwneud â'r broses benderfynu pan oedd eu hopsiynau cyfiawnder yn cael eu hystyried;

b) roedd pobl hŷn a oedd yn cymryd rhan yn yr ymchwil yn teimlo bod dioddefwyr cam-drin yn fwy tebygol o ymgysylltu â darparwr cyfiawnder petaent yn cael amser ychwanegol gydag un gweithiwr i feithrin perthynas, sefydlu ymddiriedaeth a datblygu cyd-ddealltwriaeth. Teimlai'r rhai a gymerodd ran fod model yr eiriolwyr yn fwy tebygol o rymuso'r person hŷn na'r model 'rheoli achosion' presennol. Roedd y dull hwn o ddefnyddio eiriolwyr yn cael ei argymell er mwyn ei gwneud hi'n fwy tebygol bod pobl hŷn yn teimlo eu bod yng nghanol y broses benderfynu;

c) roedd cyfran sylweddol o weithwyr y rheng flaen heb gael digon o hyfforddiant i allu archwilio dulliau cyflawnder sifil o ddatrys pethau gyda dioddefwyr hŷn;

d) ychydig iawn o achosion o gam-drin a oedd yn arwain at euogfarn droseddol, gan awgrymu patrwm tynnu'n ôl y mae gofyn ymchwilio rhagor iddo (Clarke, et al., 2012).

Roedd yr astudiaeth yn werthfawr oherwydd ei bod yn golygu bod modd dadansoddi data ar lefel unigolion yn fanwl. Roedd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar faterion ansoddol er mwyn cynnig dealltwriaeth gyfoethog a manwl o ganfyddiadau asiantaethau o gam-drin pobl hŷn fel cam-drin domestig. Roedd yr ymchwil yn tynnu sylw at gyd-destun penodol y cam-drin mewn lleoliadau domestig. Roedd yr ymchwil yn arbennig o ddefnyddiol o ran adolygu ymatebion rhyng-asiantaethol i ddioddefwyr unigol, lle y gall data cyfun guddio amrywiadau yn y data.

Asesu risg

Roedd y patrymau atgyfeirio'n awgrymu nad oedd y prosesau asesu risg bob tro'n gywir ac mewn llawer o achosion nad oeddent yn cael eu dynodi'n gam-drin domestig. At hynny, nid oedd achosion yn cael eu hatgyfeirio i'r grŵp/gwasanaeth amlasiantaeth priodol pan oedd yn briodol gwneud hynny. Roedd canfyddiadau gwerthusiad Mynediad i Gyfiawnder yn awgrymu bod achosion a gyflwynid i'r Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (CAAR) yn cael gwell cymorth a gwell canlyniadau. Un farn gyffredin ymhlith ymarferwyr a phobl hŷn oedd bod gwasanaethau'n adweithiol yn hytrach nag yn rhagweithiol a bod angen gwneud gwasanaethau'n haws cael gafael arnynt, yn haws eu defnyddio a bod angen iddynt ganolbwyntio ar yr unigolyn.

Cydweithio - Gweithio'n ynysig o'i gymharu â'r model amlasiantaeth

Roedd ymgyrchwyr ffeministaidd wedi sylweddoli pa mor bwysig oedd datblygu ymateb amlasiantaeth er mwyn sicrhau camau effeithiol i ddioddefwyr cam-drin

domestig gyn belled yn ôl ag yn yr 1970au (Harwin et al., 1999). O safbwynt polisi swyddogol, mae cydweithio rhwng asiantaethau a gwaith partneriaeth amlasiantaeth wedi cael eu hybu fwyfwy a'u hannog ers yr 1990au yng Nghymru a Lloegr (Swyddfa Gartref, 1995; Swyddfa Gartref 2003; Grŵp Gorchwyl a Gorffen 2012). Serch hynny, ni welir y dull amlasiantaeth hwn yn cael ei ddefnyddio yng nghyswllt ddioddefwyr **nad ydynt** yn cael eu hystyried yn rhai risg-uchel.

Mae'r bwlch hwn yn y ddarpariaeth i ddioddefwyr risg isel - neu y tybir eu bod yn rhai risg is - yn golygu hyd yn oed os ydynt mewn sefyllfa i ddefnyddio gwasanaeth, mai ymateb gan un asiantaeth sy'n debygol, yn hytrach nag ymateb cydlynol gan y gymuned. Mae Shepard et al., (2002) yn dweud bod canlyniadau rhaglen yn debygol o fod yn fwy cadarnhaol pan fydd ymateb cydlynol gan y gymuned sy'n cynnwys asiantaethau cyfiawnder, cyrff statudol eraill a mudiadau'r sector gwirfoddol yn cydweithio. Bydd hynny'n sicrhau mwy o ddiogelwch i ddioddefwyr ac yn rhoi mwy o ymdeimlad iddynt eu bod yn cael eu grymuso, gan fynd i'r afael ar yr un pryd ag anghenion y drwgweithredwr. Er bod yr ymchwil i ddeinameg cam-drin domestig ymhlith pobl hŷn yn dal yn ei fabandod, mae'n ymddangos bod rhai gwahaniaethau o ran natur ac o ran y mathau o ymddygiad a welir gan gamdrinwyr mewn rhai achosion (Clarke et al., 2012). Efallai y bydd gofyn mireinio gwasanaethau cymorth i bobl hŷn eto yn sgil yr amrywiadau yn yr achosion: darpariaeth arbenigol ym maes gwasanaethau cymorth a darparu gwasanaethau generig.

Systemau Rheoli Data

Mae'r ymchwil yn awgrymu y bydd cofnodion asiantaethau yn y rhan fwyaf o leoliadau proffesiynol wedi'u rhoi ar gyfrifiadur ar ryw ffurf. Er y bydd rhai ardaloedd o bosibl wedi datblygu systemau sydd wedi'u teilwra ar eu cyfer hwy eu hunain; mewn ardaloedd eraill bydd partneriaid unigol yn cadw cronfeydd data ar wahân. Mae'r ymchwil hefyd yn cynnig tystiolaeth bod rhai darparwyr gwasanaethau nad ydynt yn cadw cofnodion cyfrifiadurol ond copïau caled o ddogfennau a hynny mewn cypyrddau ffeilio neu bydd ymarferwyr yn dibynnu ar wybodaeth bersonol. Serch hynny, mae'r diffyg cysondeb yn y trefniadau casglu data rhwng asiantaethau, weithiau'n gallu arwain at ddyblygu achosion, hepgor achosion, bylchau yn y cymorth a dulliau aneffeithiol o reoli achosion. Er mwyn hwyluso dealltwriaeth, mae'n hollbwysig bod gwybodaeth gywir yn cael ei chasglu, ei chofnodi a'i dadansoddi er mwy i wasanaethau gael eu teilwra i ddiwallu'n well anghenion pobl hŷn sy'n dioddef cam-drin domestig. Elfen hanfodol o'r astudiaeth hon oedd gweld i ba raddau y mae'r systemau rheoli data presennol yn hwyluso arferion effeithiol ac yn monitro'r gwasanaethau a ddarperir o fewn asiantaethau a rhyngddynt.

1. Yr ymchwil

Amcanion a Methodoleg yr Ymchwil

Cwmpas yr Astudiaeth

Dechreuodd yr ymchwil ganol Medi 2013 ac fe barhaodd am gyfnod o ddeg wythnos. Cysylltwyd â phob un o'r 22 Awdurdod Lleol; pedwar gwasanaeth yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron Cymru. Anfonwyd ffurflenni i fwydo data meintiol cynradd a thaenlenni casglu data at bob awdurdod lleol a heddlu. Cynlluniwyd dwy set o gyfweliadau generig; un yn canolbwyntio ar systemau rheoli data ac un yn archwilio canfyddiadau ynghylch defnyddwyr gwasanaethau'n troi cefn/tynnu'n ôl (gweler templed yn Atodiad B).

Roedd yr ymchwil yn canolbwyntio ar ddau faes:

- Ymarfer cwmpasu, i adolygu pa mor effeithiol yr oedd systemau rheoli data asiantaethau allweddol. Roedd yr astudiaeth yn dadansoddi ansawdd casglu data o fewn asiantaethau a rhyngddynt, cadw cofnodion a phrosesau trosglwyddo data gan asiantaethau statudol allweddol. Roedd yr astudiaeth hefyd yn archwilio gwybodaeth ymarferwyr am brotocol rhannu gwybodaeth a chanllawiau diogelu data.
- Yn ystod yr ail gam, archwiliwyd canfyddiadau asiantaethau proffesiynol o wahanol gamau'r broses atgyfeirio, o'r pwynt cyswllt cyntaf nes cu'r achos, er mwyn cael gwybod pam ac ar ba bwynt y bydd cleientiaid/defnyddwyr gwasanaethau o bosibl yn troi cefn ar y gwasanaethau. Pwrpas y cam hwn oedd dysgu am fylchau posibl yn y broses, ac archwilio atebion a fyddai'n helpu i leihau cyfraddau tynnu'n ôl gan ddefnyddwyr gwasanaethau lles a gwasanaethau cyfiawnder.

Casglu Data

Wrth archwilio canfyddiadau ymarferwyr am y gwasanaethau a ddarperir a systemau rheoli data, dewiswyd cynllun ymchwil aml-ddull, gan ddefnyddio dulliau casglu data meintiol ac ansoddol. Cafwyd gwybodaeth o ddwy brif ffynhonnell yn bennaf. Gwasanaethau Gofal Oedolion a Gwasanaethau'r Heddlu.

Data Ansoddol

Data cynradd o gyfweliadau lled-ffurfiol a gwybodaeth ddogfennol:

Cynhaliwyd 50 o gyfweliadau ansoddol lled ffurfiol gydag ymarferwyr a rheolwyr mewn:

- 19 o blith 22 Awdurdod Lleol
- 4 Gwasanaeth Rhanbarthol yr Heddlu
- 2 Wasanaeth Erlyn y Goron Cymru

Tynnwyd gwybodaeth ddogfennol i'w dadansoddi o 13 o adroddiadau blynyddol Pwyllgorau Ardal Amddiffyn Oedolion (2012-13).

Data Meintiol

Tynnwyd ystadegau disgrifiadol o:

- 22 o ddatganiadau data Llywodraeth Cymru (PVA2)*
- 21 o ffurflenni mewnbynnu data Systemau Rheoli Data
- 14 o daenlenni casglu data a gwblhawyd
- 13 o adroddiadau Diogelu Pwyllgorau Ardal Amddiffyn Oedolion 2012-13

Dadansoddi Data

Lefelau Dadansoddi

Defnyddiwyd tri math o ddadansoddi, sef:

- Cynnwys
- Thematig
- Meintiol

Ystyriaethau ynghylch Hygyrchedd

Cynhaliodd y tîm ymchwil astudiaeth ledled Cymru dros gyfnod o dri mis, ac er bod asiantaethau'n gefnogol iawn i'r broses ymchwil, oherwydd bod yr amser mor brin, cafodd hynny ddylanwad ar ein gallu i gael gafael ar y data ymchwil. Roedd y broses casglu data ansoddol yn ffrwythlon iawn, ond roedd yn anos casglu data meintiol. Er enghraifft, prin oedd y data a oedd ar gael yn rhwydd gan bedwar gwasanaeth rhanbarthol yr heddlu, er eu bod yn gallu darparu data am achosion lle'r oedd y dioddefwr / y camdriniwr honedig yn 60 oed neu'n hŷn. Ac ystyried yr amserlen dynn, nid oedd gan wasanaethau'r heddlu yr adnoddau i gael gafael ar lefel y manylion yr oedd yr ymchwilwyr yn gofyn amdani.

2. Canfyddiadau'r Ymchwil

Effeithiolrwydd Systemau Rheoli Data

Rheoli data'n effeithiol

Wrth ddadansoddi'r data ansoddol a meintiol, nodwyd pedair prif thema sy'n berthnasol i reoli data. Dyma'r themâu hynny:

- Casglu manylion am y cleient
- Cofnodi gwybodaeth fanwl am y camdrinwyr honedig
- Rhannu gwybodaeth o fewn asiantaethau a rhyngddynt
- Amrywiadau ymhlith asiantaethau o ran eu gwybodaeth am ddiogelu data a storio data.

Manylion cleientiaid

Drwy'r awdurdodau lleol, gwelwyd amrywiadau yn yr hyn a ddogfennwyd ynghylch manylion cleientiaid unigol. Gwelwyd gwahaniaethau wrth adolygu data demograffig a gwybodaeth arall a fyddai'n berthnasol i reoli achosion yn effeithiol. Wrth ddefnyddio Systemau Rheoli Data i adolygu hanes cleient, roedd ymarferwyr yn dweud yn aml nad oedd cam-drin domestig yn hawdd ei adnabod. Byddai'n rhaid i'r ymarferydd unigol chwilio'n ofalus drwy'r holl nodiadau achos er mwyn cael gwybod ai cam-drin domestig oedd y cam-drin.

At hynny, nid oedd gwybodaeth ynglŷn ag a oedd y dioddefwr honedig wedi cael ei 'ddatgyfeillio' bob tro'n cael ei nodi ar y System. Pe na fyddai ymarferwyr yn gwybod am amgylchiadau'r unigolyn, gallai hyn atal y cleient rhag cael gafael ar adnoddau (e.e. gwasanaeth eiriolaeth). Er enghraifft, mae'r Eiriolwr Annibynnol Galluedd Meddyliol (EAGM) yn darparu gwasanaeth i unigolion sydd â diffyg galluedd ac mae ar gael hefyd petai unigolyn yn cael ei 'ddatgyfeillio'. Dywedodd ymarferwyr y byddai dogfennu gwybodaeth am gysylltiadau cymdeithasol cleientiaid o fudd i'r trefniadau rheoli achosion, yn gwneud yr asesiad risg yn fwy cywir ac unrhyw gynlluniau gweithredu wedyn yn fwy effeithiol.

Roedd cyfweliadau ag ymarferwyr yn dangos bod prinder adnoddau staff a rhwystrau rhag cael gafael ar wybodaeth am gleientiaid yn rhwydd ar ffurf electronig yn dylanwadu ar a fyddai ymarferwyr yn archwilio nodiadau achos i benderfynu ai cam-drin domestig oedd y cam-drin ac a oedd y dioddefwyr wedi dioddef cam-drin domestig cyn hynny:

Cyfwelydd:

> 'Fel rhan o'ch trefn cadw cofnodion ar y System Rheoli Data, pan fyddwch yn disgrifio digwyddiad, a oes ffordd o greu dull cyson o ddefnyddio categorïau ar y system er mwyn gallu monitro unrhyw gam-drin sy'n ailddigwydd dros gyfnod?'

Cyfwelai:

> ‘Nac oes, heblaw eich bod chi’n mynd yn ôl dros nodiadau’r achos.O ran Iechyd Meddwl, mae pawb ar ein system yn cael ei nodi o dan Iechyd Meddwl. Gyda cham-drin domestig, does ‘na ddim categori yno, felly bydd yn dod o dan Wasanaethau Iechyd Meddwl a byddai’n rhaid ichi fynd drwy’r nodiadau achos i weld a oedd unrhyw gam-drin domestig wedi’i gofnodi o’r blaen. Ar gyfer achosion sy’n dal ar agor, fe all hyn fod yn hunllef - ceisio cael yr holl wybodaeth at ei gilydd. Byddai’n dda cael ffordd hawdd o weld cam-drin domestig.’
>
> (Ymarferydd ar y Rheng Flaen ym maes Iechyd Meddwl Oedolion: 1)

Er bod rhai awdurdodau lleol yn defnyddio baneri i dynnu sylw at amheuaeth o gam-drin domestig mewn pobl hŷn ar eu Systemau Rheoli Data, mae’n ymddangos nad oedd y systemau hyn ar waith gan eraill.

Cofnodi gwybodaeth fanwl am gamdrinwyr honedig

Mewn llawer achos, teimlid nad oedd digon o wybodaeth ar y System Rheoli Data yn nodi manylion deinameg y berthynas rhwng y dioddefwr a’r camdriniwr honedig. Mewn achosion lle’r oedd rhywfaint o ryngddibyniaeth rhwng dioddefwr a chamdriniwr, teimlid, er mwyn gwella’r broses benderfynu, y gallai asiantaethau fod yn dymuno dogfennu’r ffactorau a ganlyn:

- Y gwahanol fathau o gam-drin a natur y cam-drin;
- Nodi a yw’r camdriniwr honedig yn rhagweithiol ynteu’n adweithiol* a monitro unrhyw amgylchiadau a allai arwain at gynyddu’r risg;
- Camddefnyddio sylweddau / anghenion iechyd meddwl gan y camdriniwr;
- Lefel y cysylltiad rhwng y camdriniwr honedig a’r dioddefwr;
- Lefel y cysylltiad, ffurfiol ac anffurfiol rhwng y dioddefwr a phobl eraill a natur y berthynas hon;
- Sefydlu a yw’r camdriniwr honedig yn oedolyn agored i niwed ac, os felly, sut mae’r data’n cael eu rhannu ar draws ffeiliau achos y dioddefwr a’r camdriniwr honedig.

Rhannu gwybodaeth

Ar y cyfan, roedd asiantaethau’n teimlo bod gwaith amlasiantaeth wedi gwella, yn rhannol oherwydd gwell cydweithio â gwasanaethau iechyd ac yn rhannol o ganlyniad i symud at well integreiddio rhwng proses CAAR ac Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (AOAN), Roedd y data’n awgrymu bod ymarferwyr weithiau’n ansicr ynghylch protocolau ffurfiol ar gyfer rhannu data ac y gallai hyn fod yn rhwystr rhag darparu cymorth effeithiol i bobl hŷn agored i niwed. Teimlai ymarferwyr nad oedd data perthnasol iawn yn cael eu trosglwyddo ar adegau i asiantaethau allweddol, a bod hynny’n golygu nad oedd digon o gymorth yn cael ei ddarparu ar gyfer dioddefwyr hŷn ar adegau hollbwysig. Dan rai amgylchiadau, roedd angen meithrin ymddiriedaeth a ffurfioli partneriaethau gwaith, gan gynnwys rhannu gwybodaeth

yn fwy effeithiol, yn enwedig rhwng asiantaethau statudol ac asiantaethau'r trydydd sector.

Roedd yn ymddangos bod cryn amrywiaeth rhwng natur a maint y data a oedd yn cael eu rhannu rhwng gwasanaethau gofal cymdeithasol ac asiantaethau partner. Roedd prinder amser a llwythi trwm o achosion yn cael eu gweld yn bethau a oedd yn dylanwadu ar y gallu i ddiweddaru ffeiliau achos. Yn yr un modd, roedd Systemau Rheoli Data weithiau'n cael eu diweddaru gan ymarferwyr cyn gynted ag y byddent yn derbyn nodiadau achos newydd, ond roedd ymarferwyr eraill yn dweud eu bod yn diweddaru'r wybodaeth fesul bloc bob wythnos.

> 'Rwy'n meddwl mai'r anhawster yw ei bod yn rhaid ichi lanlwytho'r wybodaeth fel dogfen gyflawn oherwydd ar ôl ei llwytho i'r system, mae'n cael ei storio, a does dim modd ei newid. Felly, wrth ichi weithio ar ddogfennau, rhaid ichi eu cadw oddi ar y system. Felly, mae'n bosib y bydd oedi cyn ei lanlwytho. Rwy'n meddwl bod hynny'n rhwystredig oherwydd rydych chi'n ceisio sicrhau bod eich cydweithwyr yn ymwybodol eich bod o bosibl yn lanlwytho gwybodaeth. Ond pwysau gwaith sy'n gyfrifol am hyn ar hyn o bryd.'
>
> (Swyddog Amddiffyn Oedolion: 3)

Dywedodd rhai asiantaethau nad oedd cyrff eraill yn defnyddio Deddf Diogelu Data 1998 a phrotocolau rhannu gwybodaeth i'w heithaf a bod hyn yn dylanwadu ar ansawdd y prosesau asesu risg a rheoli diogelwch. Mewn rhai rhanbarthau, teimlid bod awdurdodau iechyd, yn enwedig ym maes gofal sylfaenol, yn gyndyn o rannu gwybodaeth ac y gallai hyn rwystro arferion gweithio effeithiol rhwng asiantaethau.

Polisi storio data ar systemau rheoli data

Roedd data personol yn cael eu storio ar Systemau Rheoli Data am gyfnodau gwahanol iawn i'w gilydd gan wahanol awdurdodau lleol. Roedd ymarferwyr a oedd yn uniongyrchol gyfrifol am reoli data'n ansicr ynglŷn ag am ba hyd y dylid storio data er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau Diogelu Data. Roedd ystod yr ymatebion a gafwyd pan holwyd am faint y dylid cadw data ar ffeil ar ôl cau achos yn amrywio, o bump i saith mlynedd i gyfnod amhenodol.

Mae'r canfyddiad hwn yn atgyfnerthu eto'r tebygolrwydd bod angen hyfforddiant ar brotocol rhannu data, diogelu data a chofnodi data mewn rhai awdurdodau lleol.

Mae data ansoddol o gyfweliadau gydag ymarferwyr a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â bwydo data i systemau yn datgelu dwy thema; yn gyntaf, roedd y rhan fwyaf o'r systemau rheoli data'n annigonol fel cyfrwng i gefnogi datblygu darpariaeth gwasanaeth wedi'i theilwra i ddiwallu anghenion dioddefwyr hŷn cam-drin domestig ac, yn ail, roedd y casglu data'n cael ei sbarduno'n bennaf gan ofynion paratoi datganiadau blynyddol Llywodraeth Cymru.



Adnabod a Chofnodi Cam-drin Domestig

Diffyg manyldeb diffiniadau a'r goblygiadau ar gyfer ymarfer

- Mathau o gam-drin domestig
- Camdrinwyr
- Sylweddoli bod cam-drin ariannol yn gam-drin domestig

Fel y gellid ei ddisgwyl, roedd gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr generig ac ymarferwyr cam-drin domestig arbenigol yn amrywio ynghylch amlder a nifer yr achosion trais domestig ymhlith pobl hŷn ac ynghylch deinameg y berthynas. Serch hynny, ar brydiau, nid oedd ymarferwyr a oedd yn cyflawni rôl benodol ym maes cam-drin domestig yn ymwybodol o ddeinameg y berthynas rhwng pobl hŷn. Roedd hyn destun pryder.

Mae'n ymddangos bod bwlch rhwng gwybodaeth ymarferwyr am sut y diffinnir cam-drin domestig ac i ba raddau yr oedd eu gwybodaeth am y diffiniad yn sail i'w hymarfer go iawn. Er enghraifft, roedd rhai unigolion yn sylweddoli bod cam-drin domestig yn cynnwys mwy nag un math o gam-drin, roedd eraill yn gallu dyfynnu'r diffiniad gair am air, ond wrth drafod y peth ymhellach, datgelwyd bylchau sylweddol yn eu gwybodaeth am natur cam-drin domestig a'r mathau o gam-drin y byddai pobl hŷn yn eu dioddef.

Camdrinwyr

Roedd mwyafrif y gweithwyr proffesiynol yn sylweddoli y gallai rhywun ar wahân i bartner agos fod yn gamdriniwr domestig. Roedd rhai'n meddwl bod ymarferwyr, mewn ambell achos, yn meddwl mai dim ond cam-drin gan bartner agos oedd yn gam-drin domestig. Felly, nid oedd rhai gweithwyr ar y rheng flaen yn gweld cam-drin domestig yn fater 'perthynas' a allai gynnwys camdrinwyr a oedd yn perthyn mewn rhyw ffordd i'r dioddefwr, er enghraifft, meibion, merched, perthnasau yng

nghyfraith, wyrion a chyn-bartneriaid. Roedd yn ymddangos bod angen rhagor o hyfforddiant er mwyn i ymarferwyr fod yn fwy ymwybodol o'r ystod o fathau eraill o sefyllfaoedd dioddefwr-camdriniwr megis rhwng mam a mab neu fam a merch yng nghyfraith pan fydd pobl hŷn yn dioddef cam-drin domestig:

> 'Wrth hyfforddi, os bydda i'n dweud y gallai'r camdriniwr honedig fod yn fab neu'n ŵyr neu'n ferch, ni fydd pobl yn gweld hynny'n gam-drin domestig. Rwy'n meddwl mai'r rheswm yw oherwydd nad yw'n berthynas mor agos. Rwy'n meddwl mai mater o ganfyddiad ac ailhyfforddi pobl yw hyn.'
>
> (Cydlynydd AOAN: 2)

Roedd canfyddiadau'r 'Gwerthusiad o'r 'Astudiaeth Mynediad i Gyfiawnder' (2012) yn rhoi golwg ar ddeinameg y gwahanol berthynas rhwng pobl lle bydd cam-drin domestig yn digwydd ymhlith pobl hŷn. Roedd yr astudiaeth yn dangos nad partner agos neu gyn-bartner oedd y math mwyaf cyffredin o gamdriniwr, ond mab. Roedd yr astudiaeth hefyd yn awgrymu bod rhywfaint o ryngddibyniaeth yn bodoli a allai fod ag oblygiadau ar gyfer sut yr oedd gwasanaethau'n datblygu eu hymateb wrth helpu cleientiaid.

Roedd canfyddiadau'r astudiaeth bresennol yn dangos, er bod ymarferwyr rhai awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r gwahanol fathau o berthynas sy'n gyffredin mewn achos cam-drin domestig, a'r ddeinameg yn sgil hynny o fewn perthynas, mewn awdurdodau eraill roedd yn amlwg nad oedd ymarferwyr yn ymwybodol o natur y berthynas na'r math o berthynas sy'n cael ei chategoreiddio'n drais domestig.

Wrth ddadansoddi adroddiadau blynyddol y Pwyllgor Ardal Amddiffyn Oedolion ar ôl cwblhau'r gwaith maes, cafwyd gwybodaeth am leoliadau lle'r oedd hyfforddiant dwys a rhaglenni cryfhau ymwybyddiaeth yn cael eu darparu. Roedd y cyfweliadau lled-ffurfiol gydag ymarferwyr mewn ardaloedd lle'r oedd hyfforddiant wedi bod yn dangos gwell dealltwriaeth o gam-drin domestig ymhlith pobl hŷn, ac ymateb mwy trylwyr i gleientiaid na chyfweliadau mewn ardaloedd lle nad oedd sesiynau hyfforddi wedi'u dogfennu yn adroddiadau'r pwyllgor ardal amddiffyn oedolion.

Lleoliad y Cam-drin Domestig

Roedd ymarferwyr o dan gamargraff fod yn rhaid i gamdriniwr fod yn byw ar yr un aelwyd â'r dioddefwr er mwyn i ddigwyddiad gael ei ystyried yn gam-drin domestig.

> 'Os nad oedden nhw'n byw ar yr un aelwyd, mae'n debyg y byddwn i'n meddwl ei fod yn fwy o gam-drin ariannol gan berthynas, yn hytrach nag yn gam-drin domestig... Efallai y byddwn i'n fwy tebygol o feddwl mai cam-drin domestig oedd o, petai'n digwydd ar yr un aelwyd.'
>
> (Rheolwr Gwasanaethau Oedolion: 1)

> '...mae'n unrhyw un sy'n byw ar yr un aelwyd sy'n ymddwyn yn dreisgar neu'n fygythiol at rywun arall. Does dim rhaid iddyn nhw o reidrwydd fod yn briod. Byddwn ni yn y maes amddiffyn oedolion yn cael eitha tipyn lle bydd meibion a merched wedi mynd yn ôl i fyw at eu rhieni, ac felly plant yn erbyn

rhieni neu bartneriaid yn erbyn ei gilydd.'

(Cydlynydd Amddiffyn Oedolion: 1)

Serch hynny, nid oes yn rhaid i'r camdrinwyr fod yn byw ar yr un aelwyd i fod yn gamdrinwyr domestig; y berthynas sy'n diffinio cam-drin domestig, nid y lleoliad o reidrwydd. Nid oedd pob ymarferydd yn ymwybodol y gallai camdrinwyr domestig fod yn byw gyda'r dioddefwr neu mewn man ar wahân i gartref y dioddefwr. At hynny, roedd ymarferwyr weithiau'n ddryslyd ynglŷn ag a ellid diffinio'r achos yn gam-drin domestig lle'r oedd y cam-drin wedi digwydd y tu allan i gartref y dioddefwr.

Cam-drin ariannol

Nid oedd cam-drin ariannol bob tro'n cael ei weld yn ddangosydd posibl ar gyfer mathau eraill o gam-drin, ac nid oedd cam-drin ariannol gan berthynas i'r dioddefwr yn cael ei gofnodi'n gam-drin domestig gan asiantaethau mewn rhai achosion.

'Ym maes Amddiffyn Oedolion, does gennyn ni ddim categori cam-drin domestig, does dim categori penodol ar gyfer cam-drin domestig ar ei ben ei hun. Byddwn yn tynnu sylw ato fel rhan o'r sefyllfa gamdriniol felly byddai ein cam-drin ni yn dod o dan gategori esgeuluso, corfforol, ariannol neu seicolegol. Bydden ni'n ticio'r blwch cam-drin ariannol ac wedyn yn ystyried a fydden ni'n ticio'r blwch Cam-drin Domestig fel ffactor gwaethygol. O 'mhrofiad i, byddwn yn fwy tebygol o ymdrin ag e' fel cam-drin ariannol.'

(Swyddog Amddiffyn Oedolion: 1)

Roedd y dyfyniad uchod yn adlewyrchu ymateb cyffredin gan ymarferwyr wrth gyfeirio at eu hymarfer mewn nifer o ardaloedd awdurdodau lleol ledled Cymru.

Gofyn y Cwestiynau

Awgrymwyd bod angen i ymarferwyr deimlo'n ddigon hyderus i ofyn y cwestiynau procio pellach er mwyn sefydlu pa lefel o gam-drin y gallai'r unigolyn fod yn ei ddioddef. Roedd yn bwysig i ymarferwyr asesu effaith y cam-drin ar les corfforol a meddyliol yr unigolyn.

Cyfwelydd:

'Yn gyffredinol, i grynhoi, a fyddech chi'n dweud bod unrhyw welliannau neu unrhyw beth y gellir ei gryfhau yn y broses, o'r cysylltiad cychwynnol i gau'r achos?'

Cyfwelai:

'Cyn belled ag y mae asiantaethau eraill dan sylw, eto gofyn y cwestiynau a bod yn ddigon dewr i ddweud "Oes 'na broblem? Dywedwch wrtha'i amdani". Mae ymwybyddiaeth o faes Cam-drin Domestig yn broblem barhaus i bob asiantaeth mewn gwirionedd. Nid dim ond mater o gam-drin ariannol yw hyn oherwydd gallai gael effaith seicolegol ar les yr unigolyn felly, efallai nad yw'r person yn dirnad y sefyllfa [sef y sawl sy'n cynnal yr asesiad]'

(Ditectif Gwnstabl: Uned Amddiffyn y Cyhoedd: 1)

Gallai'r posibilrwydd nad yw rhai ymarferwyr yn gweld achos yn gam-drin domestig arwain at gamasesu'r sefyllfa ac felly ymateb amhriodol. Dywedodd rhai ymarferwyr, os nad oedd ymarferwyr yn sylweddoli y gallai cam-drin ariannol fod yn ddangosydd ar gyfer cam-drin domestig, yna, na fyddai'r asiantaethau'n gweithio'n effeithiol gyda'r dioddefwr i leihau risg:

> 'Does dim byd yn mynd i newid os yw [yr achos] yn dod i mewn fel mater syml, fel dwyn yn unig, yn realistig, dydy'r dioddefwr ddim yn mynd i gael y cyngor priodol ac ni fydd gwaith yn cael ei wneud gyda nhw i leihau'r risg y bydd hynny [y cam-drin domestig] yn dal i ddigwydd'.
>
> (Ditectif Gwnstabl: Uned Amddiffyn y Cyhoedd: 1)

Problemau gyda data cyfun a monitro trais domestig

Dywedodd rheolwyr a rhai ymarferwyr, er bod ffurflenni PVA2 i fod ar gyfer datganiadau Llywodraeth Cymru yn unig, fod rhai ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth ar y System Rheoli Gwybodaeth i gael darlun o lefelau'r cam-drin yn lleol, gan gamddehongli data cyfun weithiau yn hytrach na dadansoddi data ar lefel unigolion. Mae'r data gan y ddau awdurdod lleol ar hugain yn dangos bod cyfanswm o 2155 o achosion cam-drin wedi'u cau yn y flwyddyn flaenorol (2012-2013). O blith y 2155 o achosion a gaewyd, cofnodwyd 2551 math o gam-drin.

Y math o gam-drin a'r gwahanol ffyrdd o fesur y cofnodi ar draws gwahanol awdurdodau lleol.

	Chwech Awdurdod		**16 Awdurdod**		**Pob un o'r 22 Awdurdod**	
	Achosion a gaewyd	Mathau o Gam-drin	Achosion a gaewyd	Mathau o Gam-drin	Achosion a gaewyd	Mathau o Gam-drin
Emosiynol		58		333		391
Corfforol		125		513		638
Ariannol		101		486		587
Esgeuluso		175		674		849
Rhywiol		13		73		86
	472	**472**	**1683**	**2079**	**2155**	**2551**

Cofnododd chwech awdurdod lleol yr un nifer o fathau o gam-drin â nifer yr achosion a gaewyd h.y; dim ond un math o gam-drin a gofnodwyd ym mhob achos. Mae'r tabl uchod yn dangos nifer yr achosion a gaewyd yn ôl y math o gam-drin ar draws y dau awdurdod lleol ar hugain.

Roedd ymarferwyr mwy profiadol yn teimlo bod camargraff yn gyffredin am gam-drin domestig pobl hŷn. Roeddent yn dweud bod rhywfaint o'r technegau cofnodi a storio data o bosibl yn camlywio canfyddiadau unigolyn o gam-drin domestig ymhlith pobl hŷn. Roedd ymarferwyr profiadol yn teimlo bod ymarferwyr newydd ac ymarferwyr heb eu hyfforddi ym maes cam-drin domestig yn fwy tebygol o gamddehongli data ar y System Rheoli Data.

Adnabod Cam-drin Domestig

Wrth ddadansoddi data'r datganiadau PVA2 blynyddol i Lywodraeth Cymru (2012-13) awgrymwyd, gan y ddau awdurdod lleol ar hugain, mai dim ond 297 oedd wedi cofnodi cam-drin domestig yn ffactor gwaethygol o blith 2,155 o achosion a gaewyd ar gyfer yr unigolion hynny a oedd yn 65 oed neu'n hŷn. Mae'n ddiddorol nodi bod wyth o'r 22 awdurdod lleol heb gofnodi unrhyw ddigwyddiadau o gam-drin domestig fel ffactor gwaethygol ar y ffurflenni PVA2. Nid oedd yn glir pam oedd ffigur Cymru gyfan mor isel; serch hynny, nid yw'r data hyn yn ddangosydd defnyddiol ar gyfer nifer yr achosion na'r cyd-destun pan fydd cam-drin domestig yn digwydd yng Nghymru. Mae'n bwysig bod y canllawiau'n cael eu mireinio eto a bod categorïau data newydd yn cael eu datblygu er mwyn gallu datblygu meincnod mwy cywir ledled Cymru mewn achosion cam-drin domestig.

I bob golwg, nid oedd adran ar wahân ar y ffurflenni PVA2 i gofnodi cam-drin domestig oni bai bod cam-drin domestig yn cael ei weld yn ffactor gwaethygol.

> 'Pan fyddwn ni'n edrych ar gam-drin, byddwn yn edrych ar yr effaith. Gallai cam-drin ariannol fod yn gam-drin seicolegol, emosiynol ac ati. Efallai y bydd pobl yn canolbwyntio ar un categori, heb sylweddoli bod mathau eraill o gam-drin yn gallu digwydd hefyd...Gall amrywio ac efallai mai dyna beth fydd pobl yn ei wneud, colli golwg ar y mathau o gam-drin a'r effaith y maent yn ei chael ar bobl.'
>
> (Cydlynydd AOAN: 3)

Roedd y rhan fwyaf o achosion cam-drin domestig presennol i bob golwg yn cael eu dosbarthu'n wahanol gategorïau a oedd yn cofnodi'r gwahanol fathau o gam-drin. Felly, roedd cam-drin domestig yn cael ei lyncu i ganol mathau eraill o gam-drin a allai fod yn ddigwyddiadau unigol neu'n gam-drin gan bobl nad oedd ganddynt berthynas â'r dioddefwr.

Mae'r graff isod yn dangos nifer y digwyddiadau a gofnodwyd, gan gynnwys y math o gam-drin yn ôl rhyw'r dioddefwr honedig. Nid yw'r graff hwn yn dangos digwyddiadau unigol o gam-drin domestig; y cyfan mae'n ei wneud yw rhoi ffigur cyfun ar gyfer pob math o gam-drin.

Wrth ddadansoddi'r cyfweliadau ag ymarferwyr sy'n ymwneud â rheoli achosion, roedd eu dealltwriaeth o bobl hŷn sy'n dioddef cam-drin domestig yn amrywio'n fawr i bob golwg. Serch hynny, wrth gyfweld ag ymarferwyr mewn awdurdodau a oedd wedi buddsoddi'n sylweddol mewn hyfforddi staff, gwelwyd bod eu dealltwriaeth hwy o gam-drin pobl hŷn yn fwy soffistigedig a threiddgar; mewn awdurdodau eraill, roedd yn amlwg bod angen rhagor o hyfforddiant yn y maes hwn. Mewn awdurdodau eraill, roedd yn amlwg bod angen rhagor o hyfforddiant yn y maes hwn.



Y gwahanol fathau o gam-drin a natur y cam-drin

Dywedodd ymarferwyr nad oeddent yn sicr am y mathau o wybodaeth nac am lefel y wybodaeth y gallent eu cofnodi. Roedd y data meintiol yn awgrymu bod rhai asiantaethau'n cofnodi gwybodaeth ddemograffig sylfaenol, megis rhyw'r camdriniwr honedig a'r berthynas â'r dioddefwr, er bod asiantaethau eraill yn cofnodi ffactorau risg posibl, er enghraifft digwyddiadau domestig blaenorol, camddefnyddio sylweddau a materion iechyd meddwl. Roedd ofn torri canllawiau diogelu data a phrotocol rhannu gwybodaeth yn feysydd allweddol a allai atal rhywun rhag cofnodi'r ddeinameg rhwng y camdriniwr a'r dioddefwr yn fanwl. Roedd nifer o ymarferwyr o dan gamargraff na ellid casglu gwybodaeth fanwl am gamdriniwr honedig onid oeddent wedi'u dyfarnu'n euog o drosedd.

'Dydyn ni ddim yn cadw llawer o wybodaeth am y camdriniwr. Mae'n bosib y byddwn ni'n ceisio cael gwybod beth yw eu rhywioldeb, a ydyn nhw'n wryw ynteu'n fenyw, a ydyn nhw'n berthynas, yn weithiwr cyflog neu ddigyflog, yn wirfoddolwr....'

(Swyddog Amddiffyn Oedolion: 1)

'Mae pobl yn ofalus ynglŷn â'r hyn y maen nhw'n ei rannu. Rhaid gwneud yn siŵr ei fod yn berthnasol i'r cwestiwn. Rwy'n meddwl bod pobl yn nerfus am y math yna o beth rhag ofn iddyn nhw roi gormod o wybodaeth neu ddim digon. Mae'n benderfyniad anodd...rhaid sicrhau eich bod chi'n rhoi gwybodaeth am gwestiynau penodol yn unig a dim ond yn rhoi gwybodaeth sy'n berthnasol i'r hyn sydd wedi cael ei ofyn.'

(Ymarferydd y Rheng Flaen, Gwasanaethau Iechyd Meddwl 1)

Mae'r Ddeddf Diogelu Data (1998) yn dweud bod lefel y wybodaeth sy'n cael ei chofnodi am gamdriniwr honedig yn cael ei seilio ar farn broffesiynol, cyn belled â bod y data personol yn 'ddigonol, yn berthnasol ac nad yw'n ormodol mewn perthynas â'r pwrpas neu'r pwrpasau y cânt eu prosesu ar eu cyfer' (Egwyddor 3, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth[4]).

Barn ymarferwyr oedd bod angen hyfforddiant clir er mwyn egluro pa ddata y gellid eu cofnodi ynglŷn â chamdriniwr honedig.

Anghenion iechyd meddwl y camdriniwr

Mewn achosion lle'r oedd pobl hŷn yn dioddef cam-drin domestig, roedd yn bwysig nodi gwybodaeth am iechyd meddwl a'r ddeinameg rhwng y dioddefwr a'r camdriniwr.

> '... does dim angen i'r heddlu gael gwybod gyda iechyd meddwl. Er enghraifft, os ydych chi'n edrych ar sefyllfa cam-drin domestig yng nghartref rhywun, does dim angen iddyn nhw wybod am gefndir llawn y claf. Mae a wnelo mwy â pheryglon y sefyllfa honno'.
>
> (Ymarferydd ar y Rheng Flaen ym maes Iechyd Meddwl Oedolion: 1)

Roedd ymarferwyr yn sylweddoli, lle bydd y dioddefwr o bosibl yn dibynnu'n unig ar y camdriniwr i gael gofal a phetai honiad o gam-drin, bod angen ymdrin â'r achos mewn ffordd sensitif iawn. Er bod AOAN yn canolbwyntio ar ddioddefwyr, roeddent yn cydnabod y gallai'r camdrinwyr fod yn wynebu straen gofalu; y gallai fod ganddynt anghenion iechyd meddwl; a'u bod hwythau o bosibl hefyd yn oedolion agored i niwed. Roedd rhywfaint o ymwybyddiaeth ymhlith rhai awdurdodau lleol ei bod yn rhaid i ymarferwyr AOAN, er mwyn atal y cam-drin, sylweddoli beth yw anghenion y camdriniwr a'r dioddefwr ill dau, a mynd i'r afael â'r anghenion hynny.

Mae angen i asiantaethau geisio archwilio a ydynt yn mynd i'r afael â sefyllfa lle y gall ymddygiad rhagweithiol ac adweithiol ddigwydd a chynnwys y wybodaeth hon yn eu hasesiad risg. (I gael gwybod am ddeinameg ragweithiol ac adweithiol, gweler tudalennau 21-24 drwy ddilyn y ddolen hon[5])

Cysylltiad â'r camdriniwr

Roedd yr adegau hynny pan na fyddai'r camdriniwr honedig gyda'r dioddefwr yn cynnig cyfle i'r dioddefwr ddatgelu a chyfle i'r ymarferwyr fireinio'u cynlluniau diogelwch. Er bod rhai gweithwyr gofal cymdeithasol wedi dweud eu bod yn ymwybodol bod angen o bosibl iddynt fonitro'r sefyllfa lle'r oedd y camdriniwr yng nghyffiniau'r dioddefwr, roedd rhai'n poeni am fanylu am bethau eraill am y camdrinwyr honedig yn y ffeiliau achos.

4 http://www.ico.org.uk/for_organisations/data_protection/the_guide/the_principles
5 http://wales.gov.uk/docs/caecd/research/121220accesstojusticecy.pdf

3. Y Broses Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (AOAN)



Cododd saith prif thema o ddadansoddiad o'r data ansoddol a meintiol.

Dyma nhw:

- Y trothwy, oedolion agored i niwed a niwed sylweddol
- Ceisio cydsyniad
- Ansawdd yr atgyfeirio
- Presenoldeb
- "Teigr heb ddannedd"
- Presenoldeb dioddefwyr mewn cyfarfod strategaeth
- Cydymffurfio

Atgyfeiriadau amddiffyn oedolion 2012-13

O blith y 21 awdurdod a roddodd setiau data llawn ar gyfer blwyddyn ariannol 2012-2013:

Oedolion a atgyfeiriwyd	7,333
Cyrhaeddwyd trothwy AOAN	3,736
Canran `	50.9%

Roedd hyn yn awgrymu mai ychydig dros hanner yr atgyfeiriadau i AOAN a oedd yn cyrraedd y trothwy.

Anfonwyd ffurflenni casglu data gan ofyn 1) faint o atgyfeiriadau newydd oedd a 2) pa rai oedd yn cyrraedd trothwy AOAN. Roedd y data a ddarparwyd yn categoreiddio'r atgyfeiriadau'n ddau grŵp ar wahân; nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer yr holl oedolion a nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer pobl hŷn 60 oed a throsodd. Serch hynny, dim ond wyth o'r dau awdurdod lleol ar hugain a roddodd ffigur ar gyfer nifer yr atgyfeiriadau newydd i bobl 65 oed a hŷn a oedd yn cyrraedd trothwy AOAN.

O blith yr 8 awdurdod a roddodd y data hyn:

	Pob Oedolyn	65+ oed	Canran
Atgyfeiriadau a gafwyd	2,315	1,529	66.0%
Cyrraedd trothwy AOAN	1,288	69	67.5%
Canran	55.6%	56.8%	

Roedd hyn yn dangos cysondeb rhoi trothwyon AOAN ar waith ar draws yr ystodau oedran.

Ar gyfer yr achosion a oedd wedi'u cwblhau a'u cau yn ystod yr un cyfnod, darparwyd ffigurau gan bob un o'r 22 awdurdod ar gyfer pob oedolyn a'r rheini 65+ oed, oherwydd bod hyn yn un o ofynion y datganiad PVA2. Roedd hyn yn dangos:

Nifer yr achosion AOAN a gwblhawyd

Pob oedolyn	3,575
65+oed	2,155
Canran	60.3%

Ailatgyfeirio

O blith y 2,155 achos yn yr ystod oedran 65 oed a hŷn, roedd 513 o achosion (23.8%), a oedd wedi cael eu cyfeirio at yr awdurdod o'r blaen, er bod statws a difrifoldeb yr achosion hyn heb eu cofnodi ar ddatganiadau'r PVA2.

Roedd amrywiad mawr rhwng yr awdurdodau lleol, gydag un awdurdod yn dangos ffigur o 52% o ailatgyfeiriadau a'r isaf yn 7.9%. Roedd hanner yr awdurdodau'n dangos ffigurau a oedd yn dod o fewn yr ystod 10-19% ond roedd naw ohonynt (40.9%) yn cofnodi bod dros chwarter yr atgyfeiriadau newydd wedi cael eu cyfeirio o'r blaen. Byddai hyn yn awgrymu bod y broses atgyfeirio a'r ymateb wedyn i bob golwg yn fwy effeithiol mewn rhai ardaloedd nag mewn ardaloedd eraill. Cyfeiriwch at yr adran Arferion Da i weld enghreifftiau o strategaethau timau AOAN i leihau achosion lle bydd dioddefwyr yn dioddef fwy nag unwaith.

Y trothwyon, oedolion agored i niwed a 'niwed sylweddol'

Penderfyniadau ynghylch y trothwy a'u rhoi ar waith

Wrth holi'r ddau awdurdod lleol ar hugain a gymerodd ran yn yr ymchwil, gwelwyd bod rhywfaint o wahaniaeth yn y ffordd yr oeddent yn dehongli 'niwed sylweddol' ac yn defnyddio'r diffiniad hwnnw. Esboniodd ymarferwyr y gall y dehongliad ddibynnu ar gyd-destun y cam-drin a'r awdurdod lleol sy'n cynnal y prawf trothwy. Dywedodd ymarferwyr rhai awdurdodau lleol fod eu trothwyon yn is petai'r cam-drin yn digwydd o fewn cartref gofal. Dywedodd asiantaethau fod sylw diweddar yn y cyfryngau wedi arwain at fwy o sensitifrwydd ac weithiau ymateb gorochelgar gan ymarferwyr:

> ‘Weithiau, rwy’n meddwl, yn enwedig gyda chartrefi gofal ac ysbytai, fod y trothwy’n eithaf isel oherwydd bod disgwyliad uwch ymhlith y cyhoedd bod ymchwiliadau’n cael eu cynnal. Rwy’n meddwl ar hyn o bryd bod y trothwy’n isel [mewn sefydliad] ond yn uwch o lawr [y trothwy] yn y gymuned. Felly, i gartrefi gofal, mae’n ymddangos i mi bod achos yn cael ei atgyfeirio fel achos diogelu ar hyn o bryd bob tro y bydd dau o’r preswylwyr yn anghytuno.’
>
> (Rheolwr Amddiffyn Oedolion: 2)

Un peth a oedd yn destun pryder oedd amlder yr atgyfeiriadau amhriodol i’r gwasanaeth amddiffyn oedolion. Dywedodd ymarferwyr fod ‘niwed sylweddol’ hefyd yn cael ei ddehongli’n wahanol iawn gan yr atgyfeiriwr a hefyd gan yr ymarferwyr hynny a oedd yn sgrinio’r atgyfeiriadau. Roedd asiantaethau allanol yn meddwl bod yr atgyfeirio wedi cyflawni’r meini prawf ac wedyn byddai rhagor o ddryswch o du’r asiantaethau hyn pan na fyddai’r atgyfeiriad yn cyrraedd y trothwy. Teimlid bod atgyfeiriadau amhriodol yn creu tyndra rhwng asiantaethau ymhlith ymarferwyr yn y sector statudol a’r trydydd sector.

Roedd elfen ‘niwed sylweddol’ y prawf wedi’i seilio ar farn broffesiynol unigolyn. Roedd diffyg gwrthrychedd wrth asesu lefelau’r niwed yn cynyddu’r anghysonderau wrth brofi’r trothwy ac wrth ymateb wedyn. Er ei bod yn hawdd deall mân amrywiadau, teimlai ymarferwyr fod yr arferion presennol wedi arwain at amrywiadau eang wrth wneud penderfyniadau ynghylch y trothwy. Roedd ansicrwydd ynglŷn â sut y dylid mynd i’r afael â’r amrywiadau hyn yn y prawf trothwy.

Pan ofynnwyd am y wybodaeth gychwynnol, teimlai ymarferwyr gofal cymdeithasol ei bod yn anodd iawn yn aml i rywun gasglu gwybodaeth er mwyn gallu penderfynu’n gywir am achos, yn enwedig os y camdriniwr honedig oedd yr unig brif ffynhonnell wybodaeth.

> ‘Mae’n aml yn anodd iawn cael digon o wybodaeth i benderfynu [beth yw lefel y niwed]. Os byddan nhw [y cleient] yn dod at y gwasanaeth am y tro cyntaf, yn aml iawn, fydd ‘na ddim llawer o wybodaeth am y cleient hwnnw. Os bydd menyw 70 oed yn cael ei hatgyfeirio gyda dementia a hithau’n dibynnu ar y camdriniwr am ei gofal, gall fod yn anodd cael gafael ar y wybodaeth honno [er mwyn asesu]. Mae pobl yn gwybod sut y dylen nhw roi’r trothwy ar waith, ond mae’n gallu bod yn anodd gwneud hynny mewn gwirionedd oherwydd nad yw’r wybodaeth gennyn ni.’
>
> (Cydlynydd AOAN: 7)

Gall ‘niwed sylweddol’ gynnwys cyfres o ddigwyddiadau sydd, o’u hystyried ar eu pen eu hunain, o bosibl yn ddibwys, ond os byddant yn digwydd yn aml neu’n barhaus, maent yn troi’n rhywbeth difrifol’. (Mewn Dwylo Diogel, 2000). Roedd yn bwysig bod ymarferwyr a oedd yn gweithio gyda’r unigolyn yn gwybod am atgyfeiriadau blaenorol ac asiantaethau eraill sydd wedi bod yn ymwneud â’r unigolyn er mwyn rhoi’r trothwy ar waith. Teimlid bod y wybodaeth hon yn dibynnu ar effeithiolrwydd rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau a sut yr oedd systemau

rheoli data'n cael eu defnyddio.

Gwelwyd tystiolaeth o 'weithio ynysig' mewn ambell achos, ac roedd rhai'n poeni nad oedd y trefniadau rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau ar hyn o bryd mor effeithiol ag y gallent fod. At hynny, roedd asiantaethau allanol naill ai'n treulio gormod o amser yn ymateb neu nid oedd rhai asiantaethau'n ymateb o gwbl i geisiadau am wybodaeth, er mwyn gallu llunio asesiad cywir.

'Oedolion Agored i Niwed'

Yng Nghanllawiau Llywodraeth Cymru, diffinnir oedolyn agored i niwed fel hyn:

> 'Rhywun dros 18 oed sydd neu all fod ag angen gwasanaethau gofal yn y gymuned oherwydd anabledd meddwl neu anabledd arall, oedran neu salwch ac sydd, neu a all fod yn methu â gofalu amdano'i hun/amdani'i hun neu'n methu ei (h)amddiffyn ei hun rhag niwed sylweddol neu gamfanteisio difrifol.
>
> (Mewn Dwylo Diogel: 2000)

Teimlai ymarferwyr AOAN fod angen hyfforddiant wrth benderfynu a yw unigolyn yn oedolyn agored i niwed neu beidio. Roedd y wybodaeth yn brin mewn rhai ardaloedd yng Nghymru ar hyn o bryd.

> 'Mae hyd yn oed yn wir am eu diffiniad nhw [yr asiantaethau atgyfeirio] o agored i niwed hefyd. Mae gennym flwch anffodus ar ein rhestr sy'n dweud 'arall'. Yn fy marn i, mae hyn yn ffordd o ochrgamu'r sefyllfa mewn gwirionedd. Mae hynny yn achosi anawsterau inni.'
>
> (Uwch Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol yn y Tîm AOAN: 1)

> 'Mae'r teitl 'AOAN' yn anffodus oherwydd os ydych chi'n defnyddio synnwyr cyffredin i ddiffinio'r term, mae pawb sy'n dioddef trais domestig yn agored i niwed, ond efallai nad yw'n agored i niwed yn ôl meini prawf AOAN.'
>
> (Cydlynydd AOAN: 7)

Roedd yr hyn a ystyrid yn 'agored i niwed' yn aml yn cael ei ddehongli'n wahanol gan yr heddlu a gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol. Roedd rhai gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol yn teimlo bod angen i rai swyddogion yn yr heddlu gael rhagor o hyfforddiant i sylweddoli beth oedd yn cael ei ystyried yn oedolyn agored i niwed o safbwynt polisi amddiffyn oedolion:

> 'Mae gan yr heddlu wybodaeth dda ar y cyfan. Nid yw swyddogion rhawd [yn benodol] yn llwyr ymwybodol o'r broses. Mae'r term oedolyn agored i niwed yn cael ei ddefnyddio'n rhy aml gan yr heddlu. Maen nhw'n gweld oedolion yn agored i niwed os oes ganddynt alluedd. Maen nhw'n gweld penderfyniadau sydd heb eu seilio ar wybodaeth dda megis am alcohol a chyffuriau'n agored i niwed. Maen nhw'n oedolion agored i niwed ond nid o safbwynt AOAN.'
>
> (Cydlynydd AOAN: 4)

Gwybodaeth am y broses AOAN

Roedd gwybodaeth yr heddlu am broses a throthwy AOAN yn amrywio o fewn lluoedd a rhyngddynt. Roedd yn ymddangos, mewn ardaloedd lle'r oedd hyfforddiant sylweddol wedi'i ddarparu am y broses AOAN, fod y swyddogion yn deall y broses AOAN a'r materion a oedd yn gysylltiedig ag integreiddio CAAR /AOAN gyda golwg ar bobl hŷn a cham-drin domestig mewn ffordd fwy cynhwysfawr.

Dywedodd y sawl y cyfwelwyd â hwy fod hyfforddiant AOAN yn ddewisol ar hyn o bryd a bod gweithwyr proffesiynol yn dewis bod yn rhan o'r hyfforddiant hwnnw. Teimlai gweithwyr proffesiynol fod angen i hyfforddiant AOAN fod yn orfodol oherwydd, ar hyn o bryd, nid oedd gwybodaeth rhai asiantaethau am y broses a'r prawf trothwy'n ddigonol. Fel oedd yn wir am CAAR, teimlid bod angen rhagor o hyfforddiant am brosesau AOAN er mwyn hwyluso ymateb amlasiantaeth mwy treiddgar i ddioddefwyr Roedd yr heddlu'n cael eu henwi'n aml yn asiantaeth a fyddai'n elwa mwy o gael rhagor o ymwybyddiaeth:

> 'Dydy'r heddlu ddim yn gwybod dim am AOAN ac mae angen rhagor o hyfforddiant am hyn. Dydy'r heddlu ddim yn gwybod beth yw AOAN a beth mae'n ei wneud.'
>
> (Penderfynwr ar ran AOAN: 1)

> 'Asiantaethau lle mae angen rhagor o hyfforddiant a gwybodaeth am y trothwy fyddai'r heddlu. Bydd asiantaethau eraill yn ein ffonio ni ac yn trafod y digwyddiad cyn atgyfeirio'r achos ond bydd yr heddlu'n ei gyfeirio aton ni'n syth.'
>
> (Cydlynydd AOAN) 2)

Gwybodaeth a lefel yr hyfforddiant - Iechyd

Roedd rhai'n meddwl hefyd bod gwybodaeth staff gwasanaethau iechyd am drothwy AOAN yn dibynnu'n fawr ar rôl y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Roedd cefnogaeth eang i wella'r gweithio rhyngasiantaethol rhwng practisau meddygon teulu ac amddiffyn oedolion:

> 'Rwy'n meddwl ei fod yn ddarniog o ran iechyd [gwybodaeth am yr AOAN]. Rwy'n meddwl bod Nyrsys Ardal yn ymwybodol o amddiffyn oedolion. Mae gennyn ni berthynas weithio dda iawn â'r Nyrsys Ardal ac maen nhw'n ymwybodol o'n proses ac yn cyfeirio achosion drwodd. Mae sefyllfa meddygon teulu'n fwy cymhleth. Mae gennyn ni rai practisau meddygon teulu sy'n ymgysylltu â ni ond eithriad yn hytrach na rheol yw'r rhain. Rwy'n ei chael hi'n anodd iawn cael cefnogaeth meddygon teulu, darniog iawn [yr ymgysylltu] ond yn y rhan fwyaf o'r achosion, ychydig iawn o ddealltwriaeth sydd gan feddygon teulu am yr hyn rydyn ni'n ei wneud, ond mae'r sefyllfa honno'n gwella.'
>
> (Swyddog Amddiffyn Oedolion: 1)

Roedd llawer o asiantaethau'n meddwl bod angen i wasanaethau iechyd ymwneud rhagor â'r broses ddiogelu a chwarae rhan fwy integredig wrth ddiogelu oedolion. Un thema gyffredin a gododd yn y data oedd mai 'cyfrifoldeb pawb' oedd cefnogi dioddefwyr hŷn ond mai dim ond rhai asiantaethau a oedd yn coleddu'r egwyddor hon yn llawn:

> 'Anaml iawn y cewch chi feddyg mewn cyfarfod strategaeth. Uchaf y byddwch chi'n dringo drwy'r gadwyn, meddygon, meddygon ymgynghorol, llai sy'n bresennol. .. Rwy'n deall bod eu hamser yn werthfawr ond maen nhw'n feddygon ymgynghorol ac mae'n rhaid iddyn ysgwyddo'r cyfrifoldeb [mynd i gyfarfodydd] sy'n dod yn sgil hynny.'
>
> (Penderfynwr ar ran AOAN: 1)

Roedd ymarferwyr yn credu bod gan Feddygon Teulu, ac ystyried i ba raddau y byddant yn dod i gysylltiad â phobl hŷn, gyfle delfrydol i sylwi ar gam-drin ac i ddiogelu'r unigolion; serch hynny, roedd yn destun pryder bod y cyfleoedd hyn yn cael eu colli.

> 'Pan fydd meddygon teulu'n gweld pobl mewn meddygfa, mae angen iddyn nhw ddilyn eu greddf wrth sylwi ar bethau a gweld hynny'n gyfle arall... cryfhau ymwybyddiaeth meddygon teulu oherwydd rwy'n meddwl eu bod nhw'n hollbwysig.'
>
> (Ditectif Arolygydd: 1)

Rhannu gwybodaeth

Roedd ymarferwyr yn teimlo bod angen i weithwyr iechyd proffesiynol rannu rhagor o wybodaeth ag asiantaethau eraill. Ar hyn o bryd, teimlid mai i un cyfeiriad yr unig yr oedd gwybodaeth yn cael ei rhannu, gydag asiantaethau'n trosglwyddo manylion i weithwyr iechyd proffesiynol. Serch hynny, teimlid nad oedd gweithwyr iechyd proffesiynol bob tro'n gwneud yr un peth. Roedd ymarferwyr yn aml yn dweud eu bod yn poeni am gyndynrwydd i rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau mewn ffordd briodol.

> 'Rwy'n rhyfeddu,... o ran adroddiadau gan ysbytai, meddygon, meddygon ymgynghorol gyda golwg ar rywbeth y maen nhw [iechyd] eisiau i'r heddlu ymdrin ag ef ond wedyn dydyn nhw ddim yn fodlon rhannu'r wybodaeth â ni [AOAN] oni bai ein bod ni'n cael gorchymyn llys i ddweud ein bod yn cael gweld cofnodion yr ysbyty. I mi, mae hynny'n nonsens llwyr, maen nhw'n gofyn imi edrych ar rywbeth a rhoi fy marn broffesiynol heb imi weld y dogfennau perthnasol, oni bai mod i'n cael gorchymyn llys. Mae'r llwybr biwrocrataidd felly'n hollol hurt...mae'n draul ar amser, mae'n gostus ac mae'n ddiangen...maen nhw [iechyd] ofn cael ei siwio, dyna'i gyd.'
>
> (Penderfynwr ar ran AOAN: 1)

Pan fyddai'r cam-drin yn cael ei ddatgelu, teimlid bod y meddyg teulu'n canolbwyntio ar ddymuniadau'r unigolyn heb ystyried natur barhaus bosibl y cam-drin a'r niwed posibl i iechyd a lles y person hŷn.

> ‘Ond rwy’n meddwl, pan fyddwch chi’n edrych ar bractisau meddygon teulu ac yn edrych ar bobl sy’n mynd i mewn i siarad â’r Meddyg ac yn datgelu eu bod mewn sefyllfa cam-drin domestig a bod ofn eu Hŵyr/Hwyres arnyn nhw, neu beth bynnag yw’r sefyllfa, efallai y byddan nhw [y meddygon teulu] yn ystyried dymuniadau’r person. Efallai na fyddan nhw’n rhagweld ac yn ystyried canlyniad posibl [peryglon posibl] peidio â rhannu’r wybodaeth.’
> (Swyddog Diogelu Amddiffyn Oedolion: 2)

Nid oedd meddygon teulu i bob golwg yn sylweddoli pa bryd yr oedd yn dderbyniol iddynt rannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill, er enghraifft, pan oedd lefel y cam-drin yr oedd y person hŷn yn ei hwynebu gan aelod o’r teulu yn golygu bod perygl iddynt gael niwed difrifol.

Dywedwyd bod angen i Feddygon Teulu gael hyfforddiant gorfodol er mwyn iddynt wybod mwy am drothwy AOAN a’i ddeall yn well. Roedd gweithwyr proffesiynol AOAN yn aml yn teimlo bod meddygon teulu weithiau’n cyfeirio pobl ymlaen yn awtomatig, heb ddweud, fel meddygon teulu, a oeddent wedi cymryd camau uniongyrchol i helpu’r unigolyn. Dywedodd ymarferwyr AOAN fod gwir angen i feddygon teulu gynnal sgwrs fwy ystyrlon â phobl hŷn, naill ai er mwyn ceisio rhagor o gyngor neu i nodi’n benodol y camau a gymerwyd ganddynt i ddiogelu’r unigolyn:

> ‘Mae meddygon teulu’n tueddu i ‘oratygfeirio’ i’r AOAN, ond mae’n well gan AOAN eu gweld yn goratgyfeirio nag yn tanatgyfeirio. Ond y rheswm mae meddygon teulu yn gwneud hyn yw er mwyn trosglwyddo’r cyfrifoldeb. Mae angen rhoi rhagor o wybodaeth a dealltwriaeth iddynt am drothwy AOAN.’
> (Cydlynydd AOAN) 6)

Teimlai gweithwyr proffesiynol AOAN y dylai meddygon teulu ysgwyddo rôl fwy gweithredol yn y broses AOAN, gan gymryd y camau angenrheidiol i ddiogelu’r unigolyn, yn enwedig yn ystod y cyfnod rhwng yr atgyfeirio a chyn cynnal Cyfarfod Strategaeth.

I grynhoi, dywedodd gweithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol a chynrychiolwyr yr heddlu fod angen i ymarferwyr iechyd, meddygon teulu yn benodol, ymgysylltu fwy â gweithdrefnau diogelu. Pan fyddai asiantaethau iechyd yn cyfrannu fel hyn, roedd hynny’n amhrisiadwy a chofio bod y ddwy asiantaeth yn dod i gysylltiad yn rheolaidd â dioddefwyr hŷn. Nid oedd ymarferwyr bob tro’n sylweddol y gallent rannu gwybodaeth petai hynny’n diogelu iechyd unigolion yn well. Roedd gweithwyr iechyd proffesiynol weithiau’n ansicr ynghylch o dan ba amgylchiadau yr oeddent yn cael diystyru dymuniadau cleifion er mwyn eu gwarchod. Mae hyn yn awgrymu bod gofyn darparu rhagor o hyfforddiant ynghylch Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998.

Gweithwyr y rheng flaen, cydsynio a chyfleoedd i atgyfeirio achosion

Mae Dignified Revolution (2008) yn dweud pa mor bwysig yw hybu arferion ymhlith staff iechyd a gofal cymdeithasol sy'n blaenoriaethu urddas a pharch i'r person hŷn sy'n defnyddio gwasanaethau. Dywed un o'r egwyddorion y dylai gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r broses amddiffyn oedolion roi ystyriaeth i ddymuniadau oedolion agored i niwed a'r hyn sydd orau ganddynt, gan eu parchu.

Er bod ambell enghraifft ragorol o rymuso cleientiaid a'u cynnwys yn y broses benderfynu, yn enwedig yn yr ardaloedd lle y gwelwyd arferion da, gallai methu â cheisio cydsyniad defnyddwyr y gwasanaeth fod yn rhwystr rhag datblygu ymateb sydd wedi'i deilwra ar gyfer yr unigolyn. Dywedodd ymarferwyr AOAN, pan nad oedd gweithwyr y rheng flaen yn cael cydsyniad y cleient yn ystod y pwynt cyswllt cyntaf, fod hyn yn golygu bod cyfleoedd yn cael eu colli i'r cleient ymgysylltu'n fuan ag asiantaethau statudol ac asiantaethau'r trydydd sector; hefyd, roedd llawer o atgyfeiriadau'n amhosibl heb gael cydsynied. Awgrymwyd y dylid treulio rhagor o amser ar y lefel weithredol ac ar y lefel strategol yn rhoi gwybod i gleientiaid am rôl cydsyniad o ran hwyluso mynediad at wasanaethau.

Dylai ymarferwyr dynnu sylw'r darpar gleient at fanteision rhannu gwybodaeth, er enghraifft, lleihau'r tebygolrwydd o orfod aildrafod gweithgareddau'r camdriniwr a phrofiadau negyddol o'r cam-drin wedyn. Cydnabuwyd y dylid treulio rhagor o amser gyda'r cleient, wyneb yn wyneb os oedd modd er mwyn archwilio'n fanwl beth oedd dymuniadau ac anghenion yr unigolyn wrth benderfynu cyfeirio at asiantaethau eraill:

> 'Byddwn i'n dweud mai yn y fan hon y mae'r gwendid cyntaf pan fydd achos wedi'i gyfeirio ata'i, sef eu bod nhw [gweithiwr rheng flaen] heb gynnwys yr unigolyn. Mae bron fel petai'r hyn sydd flaenaf ar eu meddwl yw bod angen iddyn nhw riportio'r peth. Mater o gamu yn ôl yw hi a dweud, beth y mae angen imi ei wneud? Pwy y mae angen imi ei gynnwys? Beth mae angen imi ei gofnodi?'
>
> (Cydlynydd AOAN) 8)

Wrth atgyfeirio, bydd gweithwyr proffesiynol nad ydynt yn ceisio cydsyniad yr unigolyn yn gwneud y broses ddiogelu'n fwy o draul ar amser.

> 'A oes ganddynt alluedd? Oes. A ydynt yn ymwybodol o'r atgyfeiriad? Nac ydynt. A ydynt wedi cydsynio i hyn? Nac ydynt. Rwy'n meddwl mai dyna'r anhawster sydd weithiau oherwydd mater o fynd yn ôl at yr atgyfeiriwr yw hi a dweud bod angen iddyn nhw drafod â'r bobl beth yw eu dymuniadau a'u barn. Beth maen nhw eisiau ei wneud am hyn. Rwy'n meddwl mai dyna'r rhwystr, roedden nhw wedi cwblhau'r atgyfeirio heb gynnwys yr unigolyn. Atgyfeirio'r person yn hytrach na chynnwys yr unigolyn yn y broses.'
>
> (Cydlynydd AOAN) 8)

Teimlid bod mynd ati o'r brig i lawr, yn hytrach gadael i'r cleient arwain y broses yn wrthgynhyrchiol, o ran sicrhau llai o risg i ddefnyddiwr y gwasanaeth a hefyd o ran ei bod yn fwy tebygol bod y cynlluniau gweithredu a fyddai'n cael eu datblygu'n afrealistig ac yn anymarferol.

Ansawdd yr atgyfeirio

Soniai ymarferwyr AOAN yn aml na fydd gweithwyr y rheng flaen yn rhoi digon o fanylion ar y ffurflen atgyfeirio. Nid oedd darparwyr gofal cymdeithasol, gweithwyr iechyd proffesiynol yn benodol a oedd yn cyfarfod â defnyddwyr gwasanaethau ddim bob tro'n gofyn y cwestiynau iawn er mwyn gallu cwblhau'r ffurflen atgyfeirio'n llawn. Nid oedd ymarferwyr AOAN yn sicr ai canlyniad diffyg gwybodaeth a hyfforddiant i arfogi gweithwyr y rheng flaen i ofyn y cwestiynau oedd hyn, ynteu ai rheswm gweithwyr y rheng flaen dros beidio â rhannu'r wybodaeth oedd oherwydd nad oedd yn 'berthnasol' neu wedi'i phrofi'n 'wir':

> 'Does dim rhaid ichi lenwi pob adran [o'r ffurflen atgyfeirio]. Dim ond cymaint ag rydych chi'n ei wybod. Mae'n amlwg nad ydych chi am ddyfeisio gwybodaeth. Rhaid ichi fod yn ofalus gyda gwybodaeth. Byddech chi'n rhoi cymaint o wybodaeth arni ag rydych chi'n ei gwybod ac wedyn gwaith AOAN yw penderfynu a ydyn nhw am fynd â honno [y wybodaeth] i gyfarfod strategaeth a bydden nhw'n gwahodd yr atgyfeiriwr i fod yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw. Gallwch chi drosglwyddo unrhyw wybodaeth ychwanegol yn y cyfarfod strategaeth hwnnw.'
>
> (Ymarferydd ar y Rheng Flaen ym maes Iechyd Meddwl Oedolion: 1)

Pan fyddai rhywun yn cael ei gyfeirio at AOAN, dywedodd swyddogion amddiffyn oedolion fod angen iddynt ymateb yn ddi-oed, ond byddai oedi'n digwydd pan fyddai gwybodaeth ar goll ar y ffurflen atgyfeirio. Roedd yn rhaid i ymarferwyr POVA fynd yn ôl at yr atgyfeiriwr a chasglu'r wybodaeth. Roeddent yn teimlo bod gorfod ceisio rhagor o eglurhad a gofyn am ragor o wybodaeth yn dasg a oedd yn draul ar amser ymarferwyr AOAN.

> '...Rwy'n meddwl mai'r darn arall sydd weithiau ar goll yw nad ydyn nhw'n rhoi digon o fanylion; byddan nhw weithiau'n anghofio dweud ym mha faes maen nhw'n meddwl y gall yr unigolyn fod yn cael ei gam-drin. Dyna'r peth arall.'
>
> (Cydlynydd AOAN: 8)

Gorthrech, cydsynio ac ymyrryd

Cododd tair thema allweddol wrth archwilio sut y bydd dioddefwyr weithiau'n gwrthod cydsynio oherwydd yr tactegau gorthrechol a ddefnyddir gan gamdrinwyr domestig. Dyma nhw:

- Gorthrech, cydsynio ac ewyllys rhydd
- Defnyddio deallusrwydd emosiynol
- Pwerau i ymyrryd

Gorthrech, cydsynio ac ewyllys rhydd

Roedd sefydlu cydsyniad i rannu gwybodaeth a hwyluso mynediad at wasanaethau cymorth yn golygu bod staff y rheng flaen yn cytuno i:

- benderfynu a oedd y dioddefwr yn gallu gwneud hyn (byddent yn tybio bod gan rywun alluedd oni bai bod tystiolaeth i'r gwrthwyneb);
- sicrhau bod gan y dioddefwr wybodaeth addas am yr ystod o opsiynau sydd ar gael a'i fod ef/a'i bod hi yn ymwybodol hefyd o sut y byddai unrhyw wybodaeth a ddarperid ganddynt, neu gan y tystion, yn cael ei defnyddio;
- sefydlu presenoldeb unrhyw ddylanwad annymunol, er enghraifft ofn dial gan y camdriniwr;
- helpu i greu amgylchedd i alluogi dioddefwyr i wneud penderfyniad clir am eu hamgylchiadau presennol ac unrhyw gamau yr oeddent yn dymuno'u cymryd.

(Polisi a Gweithdrefnau Interim Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion Hawdd eu Niweidio rhag cael eu Cam-drin, 2013)

Serch hynny, mae gwaith ymchwil gan Hoyle a Sanders (2000) yn dangos nad yw dioddefwyr cam-drin domestig yn aml mewn sefyllfa i gydsynio oherwydd bod dylanwad y camdrinwyr yn rhy gryf arnynt a'u bod yn eu rhwystro rhag cael gafael ar gymorth allanol.

> 'Mae'r dioddefwyr hyn, felly, oherwydd eu sefyllfa, dan orthrech eu hamgylchiadau. Y dasg ... yw helpu menywod [rhai sy'n dioddef cam-drin domestig] i newid eu hamgylchiadau, er mwyn lliniaru'r gorthrech hwn a dewis rhywbeth gwahanol...'
>
> (Hoyle a Sanders, 2000:12).

Pan ofynnir i'r dioddefwr benderfynu ynghylch gweithdrefnau ymyrryd a diogelu, dylid rhoi gwybod i'r dioddefwr am ganlyniadau derbyn neu wrthod camau a gynigir gan asiantaethau proffesiynol:

> 'Os nad yw rhywun yn cydsynio i atgyfeiriad AOAN ac os nad yw am fynd drwy'r broses, mater o reoli risg, strategaethau risg yw hi. Mae'n golygu gwneud hynny gyda'r unigolyn a phwysleisio wrthynt, os byddant yn parhau â'r ymddygiad hwn neu'n caniatáu i'r ymddygiad hwn fynd yn ei flaen mai dyma'r peryglon. Felly, mewn geiriau eraill, maent yn rhan o'r broses. Felly, maent yn deall eu bod yn mentro mewn gwirionedd ac yn edrych o ddifrif ar strategaethau y maent yn teimlo eu bod yn gallu eu rhoi ar waith i leihau'r peryglon hynny. Os nad yw rhywun yn dymuno inni gamu i mewn, mae hynny'n iawn, ond drwy ddweud nad ydynt eisiau inni wneud dim na'u cynorthwyo, dyna'r sefyllfaoedd y gallent eu rhoi eu hunain ynddynt. A ydych chi'n deall hynny? Am wn i mai mater o alluedd yw hynny hefyd.'
>
> (Cydlynydd AOAN: 8)

Pan fyddai cam-drin domestig yn cael ei ddatgelu, roedd yn amlwg bod cyfran o ymarferwyr gofal cymdeithasol yn barod i ofyn rhagor o gwestiynau i weld a oedd

dioddefwyr yn gwrthod help o'u gwirfodd. Roedd dau wahanol safbwynt i'w gweld gan y rhai y cyfwelwyd â hwy pan ofynnwyd sut y dylai asiantaethau ymateb i sefyllfa pan fyddai cydsyniad yn cael ei wrthod: yn gyntaf, roedd yr ymarferwyr hynny a oedd yn derbyn bod rhywun yn cydsynio o'i wirfodd, ac felly, nid oeddent yn cymryd dim camau pellach wrth fynd ar drywydd achos:

> 'Efallai mai aelod o'r teulu ydyw [y camdriniwr] a dyna pam nad oedden nhw'n cydsynio. Felly yn llythrennol eu penderfyniad nhw fyddai hyn felly fydden ni ddim yn mynd dim pellach.'
>
> (Rheolwr Gwasanaethau Oedolion: 1)

Roedd yr ymateb uchod yn awgrymu bod y dioddefwr mewn sefyllfa i ddefnyddio'i ewyllys rhydd; serch hynny, byddai hyn yn annhebygol ac ystyried cyd-destun cam-drin domestig.

Ar y llaw arall, roedd rhai ymarferwyr yn fodlon bod yn fwy amheus ac yn holi a oedd y dioddefwr mewn sefyllfa i gydsynio mewn gwirionedd.

> 'Y gwahaniaeth rhwng y geiriau a'r hyn sy'n cael ei ddweud [y neges dan y wyneb]. Os bydd rhywun yn dweud wrtha'i nad ydyn nhw'n dioddef cam-drin domestig, mae'n hollol amlwg. Os ydyn nhw'n dweud nad ydyn nhw'n dioddef cam-drin domestig ac nad oes angen dim cymorth gan yr heddlu arnyn nhw ond eu bod nhw'n crynu a bod y tŷ'n deilchion, yn mynd â'i ben iddo... Bydd pobl yn dweud dro ar ôl tro "Maen nhw'n dweud eu bod nhw'n hapus." Gwrandewch ar yr hyn y maen nhw'n ei ddweud a sut mae'n nhw'n dweud hynny. Ydyn nhw'n swnio'n hapus? I'r fan honno y bydda i'n mynd â nhw yn ôl, dydy rhywun ddim yn cydsynio i gael ei gam-drin. Mae rhywun yn cael ei orthrechu a'i reoli ac yn cael ei hudo.'
>
> (Ditectif Arolygydd: 1)

Roedd cleientiaid yn dangos diffyg dealltwriaeth o rôl y gwasanaethau statudol a'u cysylltiadau â'r trydydd sector yn arwain hefyd at stereoteipio negyddol am ganlyniadau datgelu i asiantaethau allanol. Roedd yr Heddlu ac asiantaethau Gofal Cymdeithasol yn sylweddoli bod cysylltiad wyneb-yn-wyneb yn fwy effeithiol na sgwrs dros y ffôn o ran sefydlu ai dylanwad cryf camdriniwr a oedd yn golygu bod dioddefwr yn gwrthod cydsynio. Roedd yn cael ei dderbyn yn gyffredinol mai ymweld â'r person hŷn gartref oedd y ffordd orau o hwyluso ymgysylltu oherwydd bod cysylltiad wyneb-yn-wyneb yn golygu bod mwy o botensial i'r person hŷn feithrin perthynas â gweithiwr y rheng flaen ar sail ymddiriedaeth. Byddai ymweld â'r cartref hefyd yn rhoi'r cyfle i ymarferwyr asesu'r berthynas rhwng y dioddefwr a'r camdriniwr a sicrhau a oedd y dioddefwr yn llywio'r dioddefwr drwy roi pwysau arno. Serch hynny, awgrymodd rhai o ymarferwyr y rheng flaen nad oedd bob tro'n bosibl ymweld yn bersonol ac roeddent yn poeni bod yr adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd yn aml yn golygu bod achosion yn cael eu rheoli dros y ffôn. Byddai camdrinwyr yn aml yn defnyddio camargraffiadau am gymhellion yr ymarferydd er mwyn tawelu'r dioddefwyr eto:

‘Mae mor hawdd [i’r dioddefwr] ddangos wyneb [dewr] ar y ffôn. Rwy’n sylweddoli bod angen gwenu ar y ffôn er mwyn swnio’n gadarnhaol ond mae pobl yn gallu gwneud hynny, yn enwedig os nad ydyn nhw am agor y creithiau a’r clwyfau sydd mor ddwfn. Maen nhw wedi’u hudo gymaint nes bod arnyn nhw ofn esbonio i neb...’

(Ditectif Arolygydd: 1)

‘...mae’r camdriniwr wedi creu delwedd o’r bobl sy’n gwneud y gwaith diogelu a’u darlunio’n ddiawliaid. “Rhain [yr asiantaethau statudol] yw’r bobl sy’n eich rhoi chi mewn cartref.” “Os dywedwch chi wrth rywun arall, fe gewch chi’ch rhoi mewn cartref.” Mae popeth y gellid ei ddweud, hynny yw y cyfle i ddatgelu, yn gallu cael ei fygu ac mae’n bosibl i hynny ddigwydd dros y ffôn a dyna pam mae’n rhaid cael cysylltiad personol. Dyna pam mai ni sy’n gweithio orau. Sicrhau ein bod ni’n mynd allan ac yn ymweld â phobl i realiti’r gwasanaethau rydyn ni’n eu darparu, dyna’r allwedd. Rwy’n meddwl bod rheoli’r achos dros y ffôn yn broblem go iawn.’

(Ditectif Arolygydd: 1)

Roedd tystiolaeth bod rhai ymarferwyr yn teimlo y byddai ceisio cydsyniad go iawn gan ddioddefwyr yn anodd, oherwydd dros gyfnod hir, roedd eu gallu i wneud penderfyniadau wedi’i lesteirio’n ddifrifol gan weithredoedd y camdriniwr:

‘...Byddwn i’n edrych ar pam nad ydyn nhw’n cydsynio ac ar orthrech, a yw hynny’n golygu eu bod wedi colli’r gallu meddyliol i wneud penderfyniad doeth? Fel rhan o’r asesiad galluedd meddyliol, mae angen penderfynu a oes ganddynt alluedd neu beidio...mae’n golygu gwneud y penderfyniad proffesiynol hwnnw ynglŷn ag a ydynt wedi cael eu gorthrechu i’r fath raddau nad oes ganddynt y galluedd meddyliol hwnnw. Wedyn, byddwn yn edrych i weld pa dystiolaeth sydd i gefnogi hynny. Byddai’n rhaid imi gyfiawnhau pa gamau y byddwn yn eu cymryd petai ‘na orthrech. Byddwn yn gwneud y penderfyniad fesul achos gan asesu’r wybodaeth a llunio penderfyniad ar sail y wybodaeth honno. Byddwn yn rhesymoli hynny fel rhan o’r ymchwiliad sy’n mynd yn ei flaen. Mae’n anodd dweud heb y set o amgylchiadau. Fel ymarferydd, mater o ystyried hynny i gyd yw hi. Dyma lle mae’n bwysig cael cymaint o wybodaeth ag sy’n bosibl er mwyn gwneud y penderfyniadau y byddwch yn eu gwneud.’

(Cydlynydd AOAN: 3)

Roedd ymarferwyr yn aml yn dweud, os oedd gan yr unigolyn alluedd meddyliol a’u bod yn gwrthod rhoi eu caniatâd, yna ei bod yn rhaid iddynt barchu penderfyniad yr unigolyn:

‘Mewn achos cam-drin domestig, os oes gan rywun alluedd ac nad yw’n dymuno rhannu gwybodaeth â phobl eraill, yna, allwn ni ddim gwneud dim byd. Os bydd rhywun heb alluedd, yna bydden nhw mewn sefyllfa wahanol a bydden nhw’n ymdrin â’r peth mewn ffordd wahanol. Ond bydden nhw’n holi a oes ganddyn nhw alluedd meddyliol neu a ydyn nhw mewn sefyllfa i rywun eu coelio?’

(Cydlynydd AOAN: 4)

Defnyddio 'deallusrwydd emosiynol'

Mae Polisi a Gweithdrefnau Interim Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion Hawdd eu Niweidio rhag cael eu Cam-drin, 2013, yn dweud na ddylid derbyn cydsynio'n ddiamau oherwydd bod angen amddiffyn rhai oedolion bregus rhag camfanteisio emosiynol a phwyso ar bobl wrth iddynt wneud penderfyniadau (dylanwad trwm). Roedd nifer o ymarferwyr yn dweud eu bod yn rhwystredig i ryw raddau nad oedd cydweithwyr ac ymarferwyr allanol eraill bob tro'n sylweddoli dan faint o bwysau emosiynol, rheolaeth a gorthrech y gallai dioddefwr fod o du'r camdriniwr. Pwysleisiodd ymarferwyr bwysigrwydd defnyddio'r hyn yr oeddent yn ei alw'n 'ddeallusrwydd emosiynol' er mwyn helpu i benderfynu a oedd dioddefwr dan ormod o bwysau wrth gydsynio.

> 'Canran fawr yw agweddau ar y dystiolaeth, fframio'r hyn y mae rhywun wedi'i ddweud a sut maen nhw'n ei ddweud. Yr oslef, y dôn, y cyfathrebu dieiriau gan bobl.'
>
> (Ditectif Arolygydd: 1)

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn dweud bod: '...rhywun heb alluedd os nad yw, ar yr adeg dan sylw, yn gallu gwneud penderfyniad drosto'i hun mewn perthynas â'r mater oherwydd amhariad neu darfu ar sut mae'r meddwl neu'r ymennydd yn gweithio.'

Mae'r penderfyniad ar gyfer asesu galluedd meddyliol yn benderfyniad-penodol, nid yn gyflwr-penodol, felly wrth asesu galluedd, dylai ymarferwyr asesu a oes ganddynt y gallu i wneud penderfyniad ar yr adeg benodol honno.

> 'Byddwn yn dweud ei fod yn weddol gyfyngedig er ein bod yn ceisio pwysleisio pwysigrwydd cydsynio a galluedd. Gall galluedd fod yn her i rai oherwydd os oes gennych rywun sydd â galluedd yn mynd a dod ac sy'n dweud eu bod eisiau i rywbeth gael ei wneud ac wedyn y diwrnod nesaf efallai na fydd yn cofio dim ac yn dweud nad yw eisiau i ddim byd gael ei wneud, bydd hynny'n heriol ond rhaid i chi ddelio â hynny wrth iddo godi.'
>
> (Cydlynydd AOAN: 3)

Mae gan AOAN ac ymarferwyr gofal oedolion wybodaeth dda am alluedd meddyliol; serch hynny, roeddent yn aml yn dweud eu bod yn poeni mai ychydig iawn o wybodaeth a oedd gan nifer fawr o gydweithwyr am faterion a oedd yn gysylltiedig â galluedd meddyliol. Teimlid bod ymarferwyr yn dangos diffyg ymwybyddiaeth benodol o sut i weithredu mewn achosion lle'r oedd galluedd meddyliol yn mynd a dod.

Pŵer i ymyrryd

Roedd rhaniad rhwng pwerau'r heddlu a phwerau gwasanaethau oedolion i fynd i mewn ac asesu risg sefyllfa pan oedd amheuaeth bod cam-drin domestig yn digwydd. Mae gan yr heddlu bwerau i fynd i mewn, ymyrryd ac asesu sefyllfa:

> ‘Rwy’n dweud ymyrryd... Byddai’n well lawer gen i inni holi a gofyn yn fwy manwl ac yna ymyrryd. Byddwn i’n hapusach i bobl ofyn imi pam rwy’n busnesa nag y byddwn mewn cwest Crwner yn dweud pam na wnes i ddim. Mae hynny’n hanfodol.’
>
> (Ditectif Arolygydd: 1)

Roedd ymarferwyr a oedd yn deall sut yr oedd camdrinwyr yn defnyddio pŵer, rheolaeth a gorthrech dros eu dioddefwyr o blaid datblygu ymagweddau mwy ymyrrol o lawer er mwyn lleihau’r risg i ddioddefwyr yn sgil cam-drin domestig. Roedd yr ymarferwyr hyn am gael rhagor o bwerau i fynd i mewn ac asesu’r sefyllfa. Roedd yr ymarferwyr am weld ymagwedd fwy ymyrrol er mwyn iddynt allu mynd i mewn a phenderfynu a oedd y dioddefwr dan bwysau gan y camdriniwr ac i ba raddau yr oedd pwysau’r dylanwad yn rhwystro’r cleient rhag ymgysylltu â’r gwasanaeth. Roedd nifer sylweddol o’r rhai y cyfwelwyd â hwy yng ngwasanaethau’r awdurdodau lleol yn teimlo nad oedd ganddynt ddigon o bŵer i fynd i mewn i sefyllfa a’i hasesu. Roeddent yn credu petai ganddynt bwerau deddfwriaethol i fynd i mewn y byddai hynny’n help:

> ‘Un o’r problemau mwyaf y byddwn yn ei chael gyda cham-drin domestig a phobl oedrannus yw’r gallu i mynd i mewn i’r tŷ i asesu beth sy’n digwydd. Yn aml, bydd yr unigolyn ymosodol yn cadw’r porth. Nhw sydd wrth y drws a does gennych chi ddim awdurdod i fynd i mewn i weld yr unigolyn arall sydd yno ac asesu’r sefyllfa.’
>
> (Swyddog Amddiffyn Oedolion: 1)

Bydd Deddf newydd Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cyflwyno Gorchymyn Goruchwylio Amddiffyn Oedolion. Mae’r Gorchymyn hwn yn rhoi’r pŵer i asiantaethau proffesiynol fynd i mewn i amgylchedd lle mae’r cam-drin yn digwydd er mwyn i ymarferwyr gofal cymdeithasol allu asesu’r sefyllfa. Bydd angen i’r gweithiwr proffesiynol fod yn credu’n rhesymol bod yr unigolyn yn dioddef niwed. Serch hynny, pan fydd asesiad yn cael ei wneud, nid yw’n glir a yw’r ffaith bod y camdriniwr yn y cyffiniau yn y tŷ yn dylanwadu ar ansawdd datgeliad y dioddefwr. Y disgwyliad yw y bydd y Ddeddf newydd yn annog dull mwy ymyrrol, ond nid oes sicrwydd eto pa mor effeithiol fydd y Gorchmynion o ran darparu rhagor o rym i asiantaethau ymyrryd. Mae gan yr heddlu y grym deddfwriaethol i ymyrryd a gofyn rhagor o gwestiynau. Mae’n destun pryder, petai gwasanaethau oedolion yn cynnwys yr heddlu y byddai hynny’n dychryn ac yn codi ofn ar y cleient gan arwain at droi cefn ar y broses yn gyflym.

Grymuso

Roedd gan rai ardaloedd enghreifftiau ardderchog o gleientiaid yn cael eu cynnwys ym mhob cam o’r broses, hyd yn oed mewn cyfarfodydd strategaeth, a’r adborth oedd bod hyn o fudd o ran hwyluso ymgysylltu a’i fod hefyd yn golygu bod llai o ailatgyfeirio a bod adnoddau staff yn cael eu teilwra’n well ac yn cael eu defnyddio’n fwy effeithlon. (Gweler Adran 5 ‘Arferion Da’)

Presenoldeb

Roedd presenoldeb gweithwyr proffesiynol mewn cyfarfodydd AOAN yn amrywio o awdurdod i awdurdod. Serch hynny, y farn gyffredinol oedd bod angen i wasanaethau iechyd ymgysylltu'n well â'r broses. Teimlai ymarferwyr AOAN y dylai fod yn ofyniad statudol i bobl fod yn bresennol mewn cyfarfodydd strategaeth.

"Teigr heb ddannedd"

Roedd AOAN yn aml yn cael ei ystyried yn 'deigr heb ddannedd' yn yr ystyr bod y broses yn arwain at argymhellion i helpu unigolion, ond nad oedd dim deddfwriaeth i hwyluso cydymffurfio â'r argymhellion hynny. Oherwydd y diffyg deddfwriaeth, teimlid bod hynny'n cynyddu'r tebygolrwydd o ailatgyfeirio a cham-drin parhaus posibl.

> 'Yn llygaid llawer o bobl nid oes gan broses AOAN ddannedd, nid yw'n cynnig dim mwy na chymorth gan weithiwr cymorth ac mae'r math hwnnw o help ar gael gan gymorth i ddioddefwyr y gellir cysylltu â nhw drwy'r heddlu. Mae hyn yn rhywbeth y mae angen ei gryfhau ac mae angen gwneud gwaith i gasglu gwybodaeth gan oedolion agored i niwed sydd wedi bod drwy'r broses gan ofyn iddyn nhw sut brofiad oedd hyn iddyn nhw.'
>
> (Cydlynydd AOAN: 4)

> 'Petai gennyn ni ryw fath o ddeddfwriaeth i roi rhywfaint o rym iddo mewn gwirionedd. Byddai hynny'n help mawr mawr. Weithiau, rwy'n meddwl bod gennyn ni broses lle y bydd y cyfarfodydd hyn i gyd a'u bod nhw'n llusgo ymlaen i bob golwg heb gyrraedd unman mewn gwirionedd. Byddwn ni'n cynnal cyfarfodydd strategaeth, yn penderfynu beth rydyn ni'n bwriadu ei wneud ac wedyn mae'n cymryd oesoedd i gael pawb yn ôl at ei gilydd eto i weld beth yw'r canlyniad. Y broses yw hynny mewn gwirionedd.'
>
> (Gweithiwr Cymdeithasol: 1)

Roedd ymarferwyr AOAN yn teimlo bod y rhannau o'r broses yn gadarn ac yn aml yn cynnig argymhellion da. Serch hynny roedd ymarferwyr AOAN yn aml yn dweud bod y diffyg grym yn broses yn rhwystredig gan ddweud ei fod yn arwain at 'syndrom drws troi' i rai cleientiaid:

> 'Mi fydda'i weithiau'n ei alw'n gi heb ddannedd. Beth sydd gennym yw sefyllfa, mae'n amlwg nad yw ein prosesau ni'n rhai cosbol, felly, yn ddiwahân y cyfan sy'n dod allan o'n proses ni yw'r argymhellion lle nad oes dim deddfwriaeth i ddweud bod y deddfwriaethau hynny'n gorfod cael eu cyflawni gan unrhyw un o'r asiantaethau rydym wedi'u nodi ... Beth sy'n digwydd wedyn yw rhyw fath o gylch lle y byddwn yn gwneud argymhellion ac yn dilyn trywydd ac yn adolygu'r argymhellion ond ymhen chwe mis, rydyn ni yn ôl yn yr un sefyllfa.... I bob golwg, rydyn ni'n ailadrodd pethau oherwydd bydd gennyn ni'r argymhellion o'r adolygiad ac fe fyddwn ni wedyn yn dilyn trywydd y rheini ond weithiau byddwn yn ein cael ein hunain yn ôl yn yr un sefyllfa.'
>
> (Swyddog Diogelu Amddiffyn Oedolion: 1)

Beth mae proses AOAN yn ei gynnig i'r cleient?

Pan ofynnir yn ystod y cyfweliad beth y gall AOAN ei wneud dros bobl hŷn sy'n dioddef cam-drin domestig, barn ymarferwyr oedd nad oedd y system bresennol mor effeithiol ag y gallai fod:

> 'A bod yn onest, dim llawer. 'Rwy'n teimlo bod AOAN yn ymarfer dibwynt... rwy'n teimlo petai rhyw fath o ddeddfwriaeth y byddai gan y Pwyllgor ychydig yn fwy o rym i'r hyn y gall ei wneud mewn gwirionedd.'
> (Gweithiwr Cymdeithasol: 1)

Roedd tystiolaeth, serch hynny, o rai meysydd - yn enwedig yn y meysydd arferion da - lle'r oedd ymarferwyr AOAN yn teimlo eu bod mewn sefyllfa i hwyluso newid cadarnhaol a grymuso'r dioddefwr hŷn.

Roedd ymarferwyr AOAN a phobl eraill y cyfwelwyd â hwy yn aml yn cymharu'r ddeddfwriaeth a oedd wedi cael ei datblygu'n gefn i'r broses amddiffyn plant a'r bylchau gwrthgyferbyniol yn y broses amddiffyn oedolion.

> 'Gyda'r Ddeddf Plant ac ym maes cam-drin plant mae gennych rym y ddeddfwriaeth ond does gynnon ni ddim byd mewn gwirionedd ym maes oedolion. Os bydd rhywbeth mawr yn mynd o'i le, does dim byd, does dim byd i'w ddal i fyny a dweud mae hyn yn erbyn y gyfraith does dim y gallwch ei wneud.'
> (Gweithiwr Cymdeithasol: 1)

Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (CAAR)

Cododd chwe thema yng nghyswllt cwestiynau ynglŷn â gwerth CAADA-DASH , (y rhestr wirio), y Rhestr Adnabod Risg; y CAAR a'r broses Eiriolwr Annibynnol ym maes Trais Domestig. Dyma nhw:

- Rhestr Asesu Risg Cam-drin Domestig, Stelcian ac Aflonyddu
- Rhannu gwybodaeth a diystyru cydsynio
- Gwybodaeth am y CAAR a sylweddoli pan fydd cam-drin domestig yn digwydd
- Presenoldeb mewn cyfarfodydd
- Effeithiolrwydd a chyfyngiadau canfyddedig
- Ymagwedd gyfannol

Defnyddio Rhestr Wirio Dangosyddion Risg Cam-drin Domestig, Stelcian ac Aflonyddu (y Rhestr Wirio) wrth ymdrin ag achosion dioddefwyr hŷn.

Nid oedd asiantaethau a oedd yn gweithio gyda phobl hŷn bob tro'n ymwybodol o nifer yr achosion o gam-drin domestig nac o natur y cam-drin hwnnw. Roedd eu gwybodaeth naill ai'n gyfyngedig o ran y gweithdrefnau dan sylw wrth fynd i'r afael â cham-drin domestig, neu roeddent yn dewis peidio â dilyn y gweithdrefnau. Nid

oedd y rhestr wirio a phrosesau'r rhestr wirio'n cael eu defnyddio i'w heithaf. Er enghraifft, roedd rhai ymarferwyr yn camgyfeirio at y rhestr wirio fel gwasanaeth yn hytrach nag fel proses i asesu risg trais domestig:

> 'Efallai fod angen rhagor o wybodaeth [ar asiantaethau], am y broses cyfeirio ymlaen at asiantaethau gwahanol hefyd. CAAR a'r rhestr wirio, dydw i ddim yn siŵr beth mae pawb yn ei wybod am gael gafael ar y gwasanaethau hyn. Fydda i ddim yn dod i gysylltiad â nhw'n aml iawn [prosesau'r rhestr wirio a CAAR], felly rwy'n sicr yn meddwl y byddai o fudd darparu gwybodaeth i'r asiantaethau i gyd.'
>
> (Rheolwr Gwasanaethau Oedolion: 1)

Pan gyfwelwyd â gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol a'r heddlu, roedd y sawl a holwyd yn dweud eu bod yn poeni nad oedd rhai asiantaethau'n defnyddio'r pecyn asesu risg priodol ar gyfer achosion cam-drin domestig. Dywedodd cyfran fawr o ymarferwyr a oedd yn dod o wasanaethau i oedolion nad oeddent yn defnydd pecyn asesu risg y rhestr wirio mewn achosion cam-drin domestig. Roedd eraill, yn enwedig yn yr ardaloedd lle y gwelwyd 'arferion da', yn ystyried y rhestr wirio'n hollbwysig oherwydd ei bod wedi'i chynllunio'n benodol i asesu risg mewn achosion trais domestig:

> 'Pan fyddwch yn cael atgyfeiriad, byddwch yn seilio'ch asesiad ar y wybodaeth sy'n cael ei darparu yn y ffurflen atgyfeirio honno. Nid yw'r ffurflen atgyfeirio o reidrwydd yn mynd i roi'r holl wybodaeth y mae'r rhestr wirio'n mynd i'w darparu. Dyna pam y byddwn i'n chwilio am wybodaeth fwy manwl a dydw i ddim yn meddwl bod pecyn asesu risg gwasanaethau i oedolion y Golau Gwyrdd [taflen gofnodi'r asesiad risg cychwynnol] yn cynnig y cyfle hwnnw ichi.'
>
> (Cydlynydd AOAN: 3)

Mae canfyddiadau'r astudiaeth bresennol yn ychwanegu rhagor o nerth at ganfyddiadau'r gwerthusiad o Fynediad i Gyfiawnder (Clarke et al 2012: 24) gyda golwg ar wasanaethau i oedolion, lle'r oedd yn ymddangos naill ai bod y wybodaeth yn brin ac felly bod y rhestr wirio'n cael ei rhoi ar waith mewn ffordd annigonol, neu amharodrwydd i ddefnyddio'r rhestr i asesu pobl hŷn sy'n dioddef cam-drin domestig.

Gweithdrefnau asesu risg ym maes Amddiffyn Oedolion

Roedd canfyddiadau'r ymchwil yn awgrymu nad oedd y rhestr wirio'n cael ei defnyddio mor aml ag y gellid ei defnyddio, ac mewn rhai awdurdodau lleol, nid oedd yn cael ei defnyddio o gwbl.

Pan fyddai achos amddiffyn oedolion cael ei gyfeirio at AOAN, byddai Taflen Cofnodi Asesiad Risg yn cael ei llenwi gan y rheolwyr arweiniol dynodedig. Canfuwyd y canllawiau ar gyfer llenwi'r pecyn asesu risg ym Mholisi a Gweithdrefnau Interim Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion Hawdd eu Niweidio rhag cael eu Cam-drin, 2013. Er bod ymarferwyr amddiffyn oedolion yn defnyddio'r asesiad risg hwn, roedd yn rhaid iddynt hefyd lenwi asesiadau risg arbenigol ychwanegol ar gyfer rhai

achosion, gan gynnwys cam-drin domestig. Petai honiad neu amheuaeth o gam-drin domestig, roedd gofyn i asiantaethau lenwi asesiad y rhestr wirio cyn cyflwyno'r achos i CAAR. Byddai swyddogion amddiffyn oedolion yn aml yn meddwl mai at ddefnydd yr heddlu yn unig yw'r rhestr wirio, yn hytrach na'i bod yn becyn generig i asesu risg cam-drin domestig.

Roedd sawl un o'r rheini y cyfwelwyd â hwy yn meddwl y gallai peidio â defnyddio'r rhestr wirio olygu bod rhywun yn methu cyfle i sylwi ar gam-drin domestig ac asesu lefel y risg. Oni fyddai'r rhestr wirio'n cael ei defnyddio i'w heithaf, ni fyddai llawer o ddioddefwyr cam-drin domestig yn gallu manteisio ar wasanaethau trais domestig arbenigol. Er enghraifft, efallai na fyddai pobl hŷn a ystyrid yn rhai risg uchel pan ddefnyddid y rhestr wirio yn cael eu hystyried yn rhai risg uchel pe defnyddid y system asesu risg 'goleuadau traffig' a ddefnyddir yn y maes amddiffyn oedolion; felly, efallai na fyddai'r dioddefwr yn cael ei gyfeirio at y broses CAAR/EATD.

Barn ymarferwyr arbenigol oedd bod angen hyfforddi'r asiantaeth gyfan, gan bwysleisio gwerth y rhestr wirio a phwysigrwydd sicrhau bod pob asiantaeth yn ymateb i gam-drin domestig:

> 'Mae'n rhwystredig i mi nad yw [yr hyfforddiant] yn orfodol. Pam mae'n rhaid i ddiogelu pobl fod yn rhywbeth gorfodol a pham mae'n yn rhaid i bobl roi eu hamser i gael hyfforddiant – mae hyn yn codi cwestiwn mwy yn fy marn i. Ar y llaw arall, mae amddiffyn plant yn faes lle mae hyfforddiant yn orfodol. Nid yw Cam-drin Domestig yn orfodol ac nes ei fod yn orfodol i bobl ei weld, iddynt gydsynio i fynd drwy'r hyfforddiant a'i fod yn ofyniad, dydyn nhw ddim yn mynd i weld yr hyn sydd o'u blaen.'
>
> (Ditectif Arolygydd: 1)

Rhannu gwybodaeth a diystyru'r broses gydsynio

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi darparu un fframwaith i sector cyhoeddus Cymru drwyddo draw, i'r trydydd sector ac i ddarparwyr gwasanaethau yn y sector preifat er mwyn iddynt rannu gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn gyfreithiol. Sonnir am hyn yn 'Nghytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru' (WASPI, 2013). Yn yr adroddiad interim, mae'n dweud bod y cyndynrwydd i rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau'n her i bob gwasanaeth cyhoeddus. Mae rhannu gwybodaeth o bwys hanfodol ym maes amddiffyn oedolion. Mae cyfathrebu, cydweithredu a chysylltu da rhwng asiantaethau'n hollbwysig i sicrhau ffocws a chydweithredu ar draws y gwasanaethau cyhoeddus. (http://www.waspi.org/)

Mae'r canllawiau'n dweud, o dan amgylchiadau eithriadol, y gellir rhannu gwybodaeth bersonol yn gyfreithlon heb i rywun gydsynio lle bydd gofyniad cyfreithiol neu lle bydd y gweithiwr proffesiynol yn credu bod hynny er 'budd gorau' y cyhoedd. Un o'r amgylchiadau eithriadol yw er mwyn atal cam-drin neu niwed difrifol i bobl eraill. Yn yr astudiaeth bresennol, mae gwybodaeth asiantaethau am ba bryd yr oedd hi'n bosibl diystyru'r broses gydsynio i bob golwg yn weddol gyfyngedig. Dangosodd y broses casglu data ansoddol fod y rhan fwyaf o'r asiantaethau'n sylweddoli y gellid diystyru'r broses gydsynio os yw hynny er budd y cyhoedd ac os

nad oes gan yr unigolyn y galluedd i gydsynio. Yn aml iawn, nid oedd ymarferwyr yn ymwybodol y gallai proses CAAR ganiatáu i rywun ddiystyru'r broses gydsynio os oedd risg fawr o niwed.

> 'Mewn achos cam-drin domestig, os oes gan rywun alluedd ac nad yw'n dymuno rhannu gwybodaeth â phobl eraill, yna, allwn ni ddim gwneud dim byd. Os bydd rhywun heb alluedd, yna bydden nhw mewn sefyllfa wahanol a bydden nhw'n ymdrin â'r peth mewn ffordd wahanol. Ond byddwn yn holi a ydyn nhw heb alluedd meddyliol neu a ydyn nhw mewn sefyllfa i rywun eu credu?'
>
> (Cydlynydd AOAN) 4)

Roedd y rhan fwyaf o'r asiantaethau'n sylweddoli y gellid diystyru'r broses gydsynio os yw hynny er budd y cyhoedd ac os nad oes gan yr unigolyn y galluedd i gydsynio.

Roedd rhai'n meddwl nad oedd gan rai ymarferwyr ym maes gofal cymdeithasol ddigon o wybodaeth am y rhestr wirio a'r cysylltiad rhyngddi a'r broses CAAR ac EATD. Nid oedd rhai ymarferwyr yn ymwybodol o'r manteision i'r cleient wrth ymgysylltu â dull sydd wedi'i deilwra'n benodol i anghenion dioddefwyr trais domestig.

Gwybodaeth am broses CAAR

Yn ystod yr astudiaeth ymchwil, daeth yn amlwg bod gwybodaeth yr asiantaethau statudol o broses CAAR yn amrywio'n sylweddol. Teimlid bod yr Heddlu, yn benodol, a'r rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol AOAN yn deall y CAAR yn eithaf da. Serch hynny, roedd bylchau wrth ymateb i achosion lle'r oedd pobl hŷn yn wynebu cam-drin domestig ac roedd hyn yn awgrymu bod gofyn cryfhau ymwybyddiaeth pobl ym maes gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion a'u hyfforddi'n well.

Roedd nifer yr achosion lle y byddai pobl hŷn yn cael eu cam-drin a gâi eu cyfeirio at CAAR yn syfrdanol o isel. Credid bod nifer y rheini sy'n drigain oed ac yn hŷn sydd wedi'u hatgyfeirio'n isel oherwydd bod diffyg ymwybyddiaeth o gam-drin domestig mewn grwpiau oedran hŷn a bod y diffyg gwybodaeth hwn yn arwain at gyndynrwydd asiantaethau i ymwneud â'r broses. Sonnir am y rhesymau dros y cyfraddau atgyfeirio isel isod. Teimlid nad oedd gwasanaethau gofal i oedolion yn atgyfeirio llawer o achosion am nad oeddent yn sylweddoli bod rhai ffurfiau ar gam-drin yn gam-drin domestig:

> 'Ychydig o wasanaethau i oedolion sy'n cyfeirio achosion [at y CAAR]. Y rheswm dros hyn yw nad ydynt yn sylweddoli bod cam-drin ariannol, emosiynol a chamlywio yn gam-drin domestig. Felly, byddan nhw'n dilyn eu gweithdrefnau eu hunain. Mae angen hyfforddiant arnyn nhw.'
>
> (Cydlynydd AOAN) 5

Credid hefyd fod pobl hŷn sy'n dioddef cam-drin domestig yn aml yn cael eu hatgyfeirio drwy'r gweithdrefnau amddiffyn oedolion oherwydd eu bod yn cael eu hystyried yn 'agored i niwed' yn hytrach na'u bod yn cael eu trin yr un fath â dioddefwyr cam-drin domestig eraill a'u harallgyfeirio i'r llwybrau atgyfeirio cam-drin

domestig:

> '...does dim cynifer â hynny o bobl hŷn yn cael eu cyfeirio at broses y CAAR... Dydw i ddim yn gwybod ai pan fydd gennych chi bobl hŷn a'u bod yn cyrraedd trothwy amddiffyn oedolion na fydd hynny'n cael ei weld yn gam-drin domestig a bod [yr achos] yn cael ei drin o fewn y maes amddiffyn oedolion, heb gael ei gyfeirio ymlaen...'
>
> (Cydlynydd AOAN: 2)

Roedd y bobl y cyfwelwyd â hwy'n credu'n gryf y dylai'r holl asiantaethau yn y sector cyhoeddus, yn y trydydd sector a'r sector preifat sy'n gweithio gyda phobl hŷn, gael hyfforddiant gorfodol ynghylch materion diogelu:

> 'Dylai pob asiantaeth sy'n dod i gysylltiad â'n cymuned hŷn allu deall ac adnabod cam-drin pan fyddant yn ei weld a gwybod sut mae ymateb. Mae honno'n rôl i bawb yn ein cymuned sy'n dod i gysylltiad â phobl o bob oed, drwy bob rhan o'r sbectrwm oedran.'
>
> (Ditectif Arolygydd: 1)

Effeithiolrwydd a chyfyngiadau tybiedig integreiddio AOAN a CAAR

Mae proses AOAN a phroses CAAR ill dwy'n gallu cael eu defnyddio wrth ymdrin ag unigolyn. Serch hynny, teimlid yn aml nad oedd y prosesau'n priodi'n dda â'i gilydd a bod y gwaith yn cael ei ddyblygu. Roedd llawer o ymarferwyr yn teimlo bod y prosesau'n cyflawni swyddogaeth debyg iawn os nad yr un swyddogaeth yn union:

> 'Dydy CAAR ddim yn cael ei ddefnyddio oherwydd bod AOAN yn gwneud yr un fath ag y byddai CAAR yn ei wneud.'
>
> (Cydlynydd AOAN) 6)

Roedd gweithwyr proffesiynol AOAN yn credu bod y broses AOAN yn cynnig dull mwy cyfannol o ymdrin â'r unigolyn oherwydd eu bod yn gallu mynd i'r afael â materion eraill megis 'pecynnu gofal'. Teimlai rhai bod proses AOAN yn cynnig dull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn nag y gallai proses CAAR. Yn CAAR, teimlid nad oedd asiantaethau ond yn neilltuo'r cyfnod byrraf posibl i'r achos oherwydd bod cyfarfodydd CAAR yn cynnwys gweithio drwy lawer o achosion, yn hytrach na chanolbwyntio ar un achos yn unig. Teimlai gweithwyr proffesiynol AOAN fod proses AOAN yn ddull mwy trwyadl na phroses CAAR wrth ymdrin â'r unigolyn oherwydd bod mwy o amser gan bobl i drafod yr achos.

Dywedodd un ymarferydd fod achosion a oedd yn ymwneud â phobl ifanc drwy broses CAAR yn cael eu gadael tan ddiwedd y cyfarfod CAAR. Erbyn hyn, byddai llawer o'r gweithwyr proffesiynol a oedd yn bresennol wedi gadael oherwydd bod ganddynt ymrwymiadau eraill. Mae'r enghraifft hon yn dangos y gwahaniaethau a welir rhwng cyfarfodydd CAAR a chyfarfodydd AOAN:

> 'Yn CAAR, mae'n debyg y bydd y sefyllfa'n cael ei thrafod am chwarter awr ac yna bydd cynllun gweithredu'n cael ei gynnig. Dydw i ddim yn gwybod a yw hynny'n ddigon ond mae ein cyfarfodydd Amddiffyn Oedolion

yn sylweddol hwy - yn ddyfnach ac yn canolbwyntio mwy ar yr unigolyn a'r teulu. Mae'n debyg ein bod yn fwy trwyadl yn yr amser sydd gennym i drafod y materion ond yr arbenigwyr yn y maes ynglŷn â'r hyn sydd ar gael o ran cymorth yw'r tîm CAAR. O'm safbwynt i, mae cymhlethdod o ran bod dyblygu [rhwng proses CAAR a phroses AOAN].'

(Swyddog Amddiffyn Oedolion: 1)

Roedd rhai gweithwyr amddiffyn oedolion yn teimlo nad oedd proses CAAR yn cynnig unrhyw fanteision ychwanegol i unigolion:

'Mae'r cyfarfod AOAN yn enfawr ac mae pobl o gwmpas y bwrdd nad ydyn nhw'n ymwneud â'r unigolyn. Rhan o'r broses yn unig yw'r rhain. Nid meddwl nad yw hynny'n briodol ar gyfer pobl hŷn ydw i, dim ond ei fod yn 'canolbwyntio llai ar yr unigolyn' nag y mae'r broses amddiffyn oedolion. Dydw i ddim yn meddwl ei fod yn diwallu holl anghenion rhywun hŷn.'

(Swyddog Amddiffyn Oedolion: 1)

Mae canfyddiadau'r gwerthusiad Mynediad i Gyfiawnder, a fu'n archwilio'r broses a ffactorau canlyniadau gan ddefnyddio data ar lefel unigolion, yn dangos bod y canlyniadau lles a chyfiawnder yn well ar gyfer pobl hŷn pan fyddai pobl yn cael eu cyfeirio at y broses CAAR. Y rheswm dros hyn oedd bod y CAAR yn cynnig dull sy'n canolbwyntio mwy ar y dioddefwr gan hwyluso mwy o gyfle i'r cleient gymryd rhan yn y broses benderfynu. Mae canfyddiadau'r ymchwil hwn yn atgyfnerthu eto rhai o ganfyddiadau'r gwerthusiad o'r astudiaeth Mynediad i Gyfiawnder fod gofyn cael rhagor o drafodaeth ar lefelau strategol a gweithredol am rolau a llwybrau AOAN a CAAR er mwyn penderfynu ym mha achosion y mae angen rhagor o fewnbwn gan y naill broses na chan y llall ac ar ba bwynt y gallai achos elwa o ymagwedd gyfannol.

Ymagwedd gyfannol

- Hyfforddiant gorfodol
- Cyfathrebu

Dylai ymarferwyr geisio mabwysiadu model sy'n sicrhau bod proses CAAR yn cael ei integreiddio fwy i'r AOAN mewn achosion cam-drin domestig i wella cyfleoedd lles a chyfiawnder i ddioddefwyr.

Hyfforddiant gorfodol

Roedd awgrym cryf fod hyfforddiant gorfodol ar y broses AOAN/EATD (Eiriolwr Annibynnol Trais Domestig) yn angenrheidiol, er mwyn gallu rhoi dull mwy treiddgar ar waith ar sail anghenion penodol y dioddefwr hŷn unigol yn hytrach na bod pobl yn arddel syniadau ymlaen llaw am wahanol brosesau. Nid oedd rhoi ymateb blanced ar waith i grŵp amrywiol o bobl hŷn yn debygol o arwain at ganlyniadau cadarnhaol sydd wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer yr unigolyn. Teimlid mai mynd ati fesul achos oedd y ffordd orau yn ôl rhai ymarferwyr:

'Os oes trais ... neu reolaeth, beth yw'r ffordd orau a chyflymaf o ddiogelu yn y sefyllfa honno? Os AOAN yw'r ffordd orau, dydy hynny ddim yn broblem

ond mae angen sylweddoli nad [AOAN] yw'r unig ffordd o ddiogelu. Efallai y byddai achos yn cael ei ystyried o safbwynt Trais Domestig a bod angen trafodaeth er mwyn delio â'r peth dan fformat CAAR.'

(Ditectif Arolygydd: 1)

Cyfathrebu

Teimlid ei bod yn hanfodol cael cyfathrebu clir rhwng proses CAAR a phroses AOAN er mwyn osgoi dyblygu ymarfer, gan fonitro pa ymarferydd sy'n gyfrifol am gamau penodol. Ar hyn o bryd, nid yw'r ddwy broses wedi'u hintegreiddio hanner mor effeithiol ag y gallent fod.

'Gall cyfathrebu fod yn broblem os oes mwy nag un broses ar waith. Weithiau gall CAAR gyfeirio rhywun at amddiffyn oedolion a byddwn i'n dweud nad hynny yw'r ffordd fwyaf buddiol. Dylai'r camau gweithredu sy'n deillio o CAAR ddod gan y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r unigolyn hwnnw. ..Felly mae angen cyfathrebu ac mae angen prosesu'r rhain ochr yn ochr â'i gilydd, oherwydd weithiau, bydd pethau'n cael eu colli ac er mwyn y cyfarfod bydd llawer o rannu gwybodaeth ond dim byd yn digwydd. Mae angen iddi fod yn glir pwy sydd wedi rhoi'r tasgau penodol hynny ar waith a phwy sydd wedi dilyn y peth drwodd.'

(Cydlynydd AOAN 2)

Anfonodd y tîm ymchwil dabl casglu data at un ar hugain o awdurdodau lleol. Un o'r cwestiynau penodol oedd faint o achosion a oedd yn cael eu cyfeirio at broses CAAR a faint at Eiriolwr Annibynnol Cam-drin Domestig. O blith y ddau awdurdod lleol ar hugain, dim ond mewn wyth ymateb y rhoddwyd ffigurau. Cyfanswm nifer y cyfeiriadau at y broses CAAR oedd un ac ni chofnodwyd yr un a gyfeiriwyd at Eiriolwr Annibynnol. Mae'r tabl isod yn dangos y canlyniad ar gyfer y dioddefwr honedig ac unrhyw ymyriad a geisiwyd. Mae'r graff yn dangos nid yn unig bod ffigur isel iawn ar gyfer yr achosion hynny a gyfeiriwyd at broses CAAR ond hefyd yr achosion hynny a gyfeiriwyd at wasanaethau eiriol (cymorth i ddioddefwyr, cyfeirio at eiriolwr, EAGM).

Swyddogaeth Gwasanaethau Tai

Tai

Cododd dwy thema yng nghyswllt arferion gwasanaethau tai:

- Cyfleoedd i ddefnyddio pwerau tai awdurdodau lleol i amddiffyn dioddefwyr hŷn
- Ailgartrefu'r camdriniwr

Defnyddio camau ym maes tai i fynd i'r afael â cham-drin domestig

Ychydig o opsiynau a oedd ar gael ym maes tai i fynd i'r afael â cham-drin domestig mewn eiddo perchnogion preswyl. Ni allai ymarferwyr roi'r un math o bwerau cyfreithiol ar waith wrth ymdrin ag anghydfodau mewn mathau eraill o ddeiliadaeth tai. I denantiaid lleol a oedd wedi cael eu cam-drin, gallai awdurdodau

tai a chymdeithasau tai lleol weithio gydag asiantaethau eraill i sicrhau canlyniadau cadarnhaol mwy diogel, ond ar gyfer tai perchen-feddianwyr, roedd symud y camdriniwr oddi yno'n dasg hwy a mwy cymhleth.

Mewn rhai ardaloedd, roedd awdurdodau tai lleol yn ymwneud yn frwd â gwaith diogelu, er enghraifft, byddai tenantiaid a oedd yn cam-drin pobl eraill yn cael eu tynnu oddi ar y cytundeb tenantiaeth, a chaniatâd yn cael ei roi i newid cloeon y drysau. Roedd asiantaethau eraill yn sylweddoli bod cynnwys gwasanaethau tai'n gallu bod o fudd a gwelwyd enghreifftiau o gydweithio da rhwng asiantaethau. Roedd asiantaethau'n gweld potensial cryfhau swyddogaeth gwasanaethau tai mewn achosion lle byddai pobl hŷn yn wynebu cam-drin domestig, a chofio bod asiantaethau tai o bosibl yn fan cyswllt rheolaidd, yn enwedig mewn achosion lle bydd gan unigolyn anabledd a'i fod o bosibl yn gaeth i'r tŷ.

Ailgartrefu camdrinwyr

Awgrymodd ymarferwyr fod angen rhagor o bwerau deddfwriaethol i alluogi gweithwyr proffesiynol i fynd i mewn i'r eiddo a chynnal asesiad risg gyda'r dioddefwr honedig wyneb-yn-wyneb. Y canlyniad mwyaf dymunol fyddai symud y camdriniwr oddi wrth y dioddefwr. Serch hynny oherwydd y rhyngddibyniaeth mewn ambell achos rhwng y dioddefwr a'r camdriniwr, nid oedd hyn bob tro'n bosibl.

> 'Yr un [opsiwn] arall yw'r pwerau i symud yr unigolyn ymosodol oddi yno. Rhaid i drosedd fod wedi digwydd a bod yr Heddlu wedi'i arestio [y camdriniwr] ac fe allant o bosibl [roi] mechnïaeth gydag amodau. Mae hynny'n gallu achosi cymhlethdodau i'r Heddlu os yw'r camdriniwr yn oedrannus, a hefyd o bosibl yn agored i niwed. A ydych chi'n debygol o weld rhywun yn cael ei gadw yn y ddalfa ar remand? Petai pwerau i symud pobl ymosodol a'u lletya. Rydym yn sôn am ystyriaethau hawliau sifil enfawr yn y fan hon. Rwy'n ceisio meddwl yn hyblyg am y mathau hyn o bethau. Os gall y dioddefwr aros yn ei gartref ei hun a chwyno yn erbyn rhywun, mae hynny'n ddelfrydol.'
>
> (Swyddog Amddiffyn Oedolion: 1)

Roedd ymarferwyr yn poeni y gallai rhai symudiadau cymdeithasol, o ran trefniadau byw teuluoedd a datblygiadau ym maes polisi, arwain at gynnydd yn nifer yr achosion o gam-drin pobl hŷn. Rhai o'r meysydd allweddol a oedd yn destun pryder oedd prinder tai, cynnydd ym mhrisiau tai, a phrinder cyfleoedd ym maes cyflogaeth ac addysg. Oherwydd y ffactorau hyn i gyd, mae plant sy'n oedolion yn byw gyda'u rhieni am gyfnod hwy nag mewn degawdau blaenorol. Roedd y dreth ystafell wely newydd yn cael ei gweld yn broblem mewn ambell achos, oherwydd fe allai annog plant sy'n oedolion i ymgartrefu gyda'u rhieni hŷn, pan nad oedd byw'n agos iawn er lles gorau'r person/pobl hŷn/y ddau barti.

> 'Yn y grŵp oedran hwnnw, mae'n bosibl y bydd [y dioddefwr] yn gofalu am bartner hefyd, felly, mae'n bosibl y bydd yn byw mewn eiddo sydd wedi'i addasu. Felly weithiau, bydd yr hyn sy'n digwydd yw bod y camdriniwr yn aros yn y cartref hwnnw, oherwydd ei fod wedi'i addasu ar ei gyfer, ac y

> bydd yn rhaid i'r dioddefwr adael. Unwaith eto nid yw hynny [y dioddefwr yn gadael] yn gwneud synnwyr. Felly rwy'n meddwl bod tai'n ystyriaeth bwysig ac yn eithaf cymhleth i bobl ei deall rhwng rhentu yn y sector preifat a'r awdurdod lleol a'r dreth ystafell wely, sydd i gyd yn feysydd sy'n achosi poen meddwl i bobl ac yn gwneud iddyn nhw feddwl y dylen nhw ddewis aros yma [yn y cartref].'
>
> (Ditectif Gwnstabl: PPU: 1)

Teimlai asiantaethau nad oedd llety priodol i bobl hŷn a oedd yn wynebu cam-drin domestig:

> 'Rydyn ni yma i gadw pobl yn ddiogel. Dydw i ddim yn meddwl bod mynd i hostel, fel hostel Cymorth i Fenywod, yn addas i rywun oedrannus. Mater o lety addas yw hi. Os oes rhaid i'r dioddefwr symud allan o gartref a bod ganddynt anableddau, yna a oes llety addas ar gael. Ar hyn o bryd, seibiant brys yw un o'r opsiynau rydym wedi'i ddewis ond nid yw'n dderbyniol i lawer o bobl oedrannus oherwydd mai eu hunllef gwaethaf yw mynd i gartref gofal. Petaen ni'n gallu dweud bod gennyn ni lety rhesymol ar eu cyfer o leiaf dros dro.
>
> (Swyddog Amddiffyn Oedolion: 1)

Mewn ardaloedd lle'r oedd gwasanaethau tai'n rhan o'r broses, teimlid bod y camau diogelu y gellid eu rhoi ar waith yn effeithiol iawn. Roedd gweithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol yn cydnabod yn gyffredinol bod prinder tai priodol ar gyfer y dioddefwr a bod angen ailgartrefu'r camdriniwr er mwyn osgoi rhagor o niwed.

Tynnu'n ôl

Roedd data'r cyfweliadau'n awgrymu bod ceisio datgelu cam-drin domestig i weithwyr y rheng flaen, yn enwedig i ddioddefwyr hŷn, yn eithriadol o anodd a bod angen dewrder sylweddol i wneud hyn. Awgrymodd y rhai y cyfwelwyd â hwy, pe na byddai ymarferwyr yn coelio person hŷn ar ôl iddynt sôn am y cam-drin, y gallai hyn waethygu'r broblem i'r person hŷn. Roedd rhai'n meddwl y gallai'r ffaith nad oedd pobl yn coelio'r pobl hŷn neu'n gwrando arnynt eu hatal rhag trafod eu sefyllfa gartref yn y dyfodol. Roedd angen rhoi sicrwydd i ddioddefwyr y byddent yn cael eu diogelu, na fyddent yn cael eu barnu ac y byddai eu pryderon yn cael sylw difrifol.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr fod cleientiaid yn fwy tebygol o droi cefn ar y broses yn ystod y camau cychwynnol, a hynny'n aml yn digwydd adeg y pwynt cyswllt cyntaf â'r asiantaeth gychwynnol. Roedd cymhelliant y dioddefwr i ymgysylltu ag ymarferwyr yn dibynnu ar ddau ffactor:

- Pwy sydd wedi datgelu'r cam-drin;
- Sut mae'r sawl y datgelwyd y wybodaeth hon iddo wedi ymateb i'r datgeliad.

Os y dioddefwr honedig a wnaeth yr alwad:

Dywedodd ymarferwyr mai anaml y byddai'r dioddefwr hŷn yn gwneud yr alwad gyntaf i'r asiantaethau. Dywedodd gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol mai

prif gymhelliant pobl hŷn sy'n dioddef cam-drin domestig dros alw'r asiantaethau oedd nid i geisio help iddynt hwy eu hunain, ond i ofyn am help i'r camdriniwr. Yn aml iawn, nid oedd dioddefwyr am gychwyn achos troseddol neu sifil yn erbyn eu camdrinwyr oherwydd yr ystod o ganlyniadau a allai ddeillio o gamau o'r fath. Dyma rai o'r rhesymau dros gyndynrwydd i ymwneud â phrosesau cyfiawnder:

- Ofn y byddai'r camdriniwr yn dial arnynt;
- Ofn y canlyniadau negyddol i'r teulu, yn enwedig mwy o ynysu, a rhagor o ddial;
- Teimlad y dioddefwr y byddai'n well ganddo fyw gyda'r cam-drin na cholli aelod o'r teulu, yn enwedig os y camdriniwr yw'r unig un y mae gan y dioddefwr gysylltiad ag ef;
- Os oedd y dioddefwr yn rhiant neu'n daid neu'n nain i'r camdriniwr, roeddent yn teimlo eu bod rywsut yn gyfrifol am y cam-drin. Roedd beio'u hunain ac ymdeimlad o gyfrifoldeb yn aml yn amharu ar y broses benderfynu wrth geisio help.

Teimlid hefyd bod ffactorau cysylltiedig ag oedran yn dylanwadu ar benderfyniadau dioddefwyr hŷn ynglŷn ag a ddylent ymgysylltu â gofal cymdeithasol a/ gwasanaethau cyfiawnder neu beidio. Er enghraifft, yn ystod y cam hwn yn oes cleientiaid, byddai'n rhaid iddynt weithiau ymdopi â salwch cronig neu broblemau symud. Felly, byddai'n rhaid i ddioddefwyr ofalu am y camdriniwr, neu, fel arall, byddai'r dioddefwyr yn dibynnu ar y camdriniwr i ofalu amdanynt. Yn ôl ymarferwyr y rheng flaen, byddai dioddefwyr yn dweud nad oeddent am fod ar eu pen eu hunain tua diwedd eu hoes. At hynny, gallai anawsterau i symud dioddefwyr olygu eu bod yn fwy agored i niwed neu'n fwy dibynnol ac nid oedd opsiynau amgen, megis byw mewn cartref gofal, yn cael eu gweld yn ddeniadol i'r rhan fwyaf o ddioddefwyr.

Diffyg gwybodaeth am y gwasanaethau sy'n cael eu darparu

Dywedodd ymarferwyr nad oedd pobl hŷn yn ymwybodol o brosesau diogelu a bod y diffyg gwybodaeth hwn am y gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n eu hatal rhag ymgysylltu. Mewn meysydd lle y gwelwyd arferion da ar waith, roedd cryn waith wedi'i wneud yn y gymuned i ddatblygu deialog gyda grwpiau cymunedol i gryfhau eu gwybodaeth am waith y gwasanaethau cymdeithasol. Serch hynny, roedd y ffaith bod pobl hŷn dan gamargraff am rôl gefnogi'r gwasanaethau statudol yn cael ei gweld yn rhwystr rhag ymgysylltu yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol.

I'r dioddefwr hŷn, teimlid ei bod yn hanfodol i ymarferwyr o bob asiantaeth statudol esbonio'r prosesau i gyd ac archwilio pob opsiwn, troseddol, sifil a lles gyda'r dioddefwyr, er mwyn sicrhau eu bod mewn sefyllfa i ddewis ar sail gwybodaeth a theimlo bod y sefyllfa dan reolaeth ganddynt.

Petai teulu neu ffrind yn ffonio

Pan fyddai ffrindiau neu aelodau o'r teulu'n ffonio ynglŷn â cham-drin trydydd parti, byddent yn aml yn gwneud hynny heb geisio cydsyniad y dioddefwr honedig. Dywedodd gweithwyr proffesiynol eu bod yn teimlo'n rhwystredig pan na fyddai rhywun wedi cael cydsyniad y dioddefwr cyn cysylltu oherwydd eu bod yn dymuno

argymell dull ‘rhoi’r unigolyn yn y canol’ lle byddai’r camau a gymerid ganddynt yn cael eu rheoli drwy gydsyniad y dioddefwr honedig. Byddai’r asiantaeth broffesiynol yn aml yn gofyn i’r teulu/ffrind geisio cydsyniad (petai ganddynt alluedd meddyliol) ac wedyn yn gofyn iddynt ffonio’n ôl, neu petai’n meddwl bod y dioddefwr honedig yn wynebu risg uchel, byddent yn ymchwilio i’r achos. Dywedodd ymarferwyr, hyd yn oed petai’r risg yn uchel i’r dioddefwr, ei bod weithia’u anodd ymchwilio i’r peth petai’r ffrind/aelod o’r teulu’n dymuno aros yn ddienw.

Pan fyddai ffrind neu aelod o’r teulu’n galw am help ar ran y dioddefwr hŷn, dywedai ymarferwyr ei bod yn beth eithaf cyffredin i ddioddefwyr beidio â sylweddoli eu bod yn cael eu cam-drin; gallai dioddefwyr cam-drin domestig hŷn weld hyn yn ‘ffordd o fyw’ a oedd wedi dod yn normal iddynt dros gyfnod. O dan amgylchiadau fel hyn, dywedodd ymarferwyr fod y dioddefwyr hŷn yn aml yn gwrthod cydweithredu, oherwydd nad oeddent yn teimlo bod yna broblem. Rhesymau eraill a roddwyd dros droi cefn ar y broses yn gynnar oedd bod tuedd i ddioddefwyr hŷn roi llai o bwysigrwydd i’r cam-drin gan awgrymu bod gan ddarparwyr gwasanaethau waith mwy pwysig i’w wneud o bosibl na delio â phobl hŷn. Teimlid bod cyndynrwydd cyffredinol i ymgysylltu oherwydd y stigma sy’n gysylltiedig ag asiantaethau statudol yn camu i mewn neu oherwydd diffyg ymddiried yn yr asiantaeth sy’n darparu’r gwasanaeth.

Dywedodd ymarferwyr yr oedd ganddynt brofiad helaeth o gam-drin domestig ymhlith pobl hŷn mai’r prif reswm dros droi cefn ar y broses oedd ofn dial gan y camdriniwr. Roeddent yn dweud bod llawer o bobl hŷn yn ymgysylltu’n fodlon â’r gwasanaethau pan fyddai’r bygythiad hwn yn diflannu. Roedd rhai’n meddwl bod angen datblygu rhagor o strategaethau i helpu dioddefwyr i deimlo’n ddiogel er mwyn iddynt fod mewn sefyllfa i ddatgelu gwybodaeth am eu cam-drin.

Pan fydd gweithiwr proffesiynol arall yn atgyfeirio

Roedd aelodau’r tîm AOAN yn poeni nad oedd pob asiantaeth wedi ceisio cydsyniad y dioddefwr honedig na hyd yn oed wedi siarad â nhw cyn atgyfeirio. Roedd hynny weithiau’n arwain at dybiaethau anghywir ynghylch amgylchiadau’r person hŷn. Dywedodd gweithwyr proffesiynol AOAN fod angen i ymarferwyr fod yn fwy rhagweithiol a gofyn cwestiynau priodol a oedd yn uniongyrchol berthnasol i ofynion atgyfeirio.

> ‘Os nad yw achos yn cyrraedd y trothwy, byddan nhw [AOAN] yn rhoi gwybod i’r sawl sydd wedi tynnu sylw at y peth os ydynt yn hysbys a’u bod wedi rhoi eu henw. Os bydd asiantaeth broffesiynol wedi atgyfeirio, yna, dydyn nhw ddim yn ddienw. Os bydd achos yn briodol, byddan nhw [AOAN] yn gofyn am ragor o wybodaeth. Bydd nyrsys yn gwneud datganiadau llosg am ofal ar brydiau heb roi gwybodaeth yn gefn i hynny. Yr hyn rydyn ni’n gofyn iddyn nhw’i wneud os byddan nhw [asiantaethau allanol] yn atgyfeirio achos, yw eu bod wedyn yn llenwi ein ffurflen atgyfeirio ni. Yna, fe allwn ni ddelio â materion o’r fath mewn ffordd briodol. Os nad oedd digon o wybodaeth yn cael ei darparu, yna, byddwn yn gofyn iddyn nhw ddarparu’r wybodaeth honno. Os nad oedden nhw’n gwybod, bydden ni wedyn yn

llenwi'r bylchau ac yn dod o hyd i'r wybodaeth. Os yw hynny'n briodol, byddwn yn gwahodd yr atgyfeiriwr gwreiddiol i'r cyfarfod strategaeth.'
(Cydlynydd AOAN) 4)

Pe na byddai'r gweithwyr proffesiynol yn gofyn y cwestiynau iawn, byddai'n aml yn anodd i dîm AOAN asesu risg y sefyllfa'n effeithiol a gwneud penderfyniadau doeth.

Teimlai tîm AOAN y dylai'r rhan fwyaf o ymarferwyr allanol fod yn fwy rhagweithiol wrth ddilyn gweithdrefnau diogelu a datblygu mwy o ymdeimlad o berchnogaeth o'r broses. Roedd gweithwyr proffesiynol AOAN yn aml yn awgrymu bod ymarferwyr yn atgyfeirio'n rhy gyflym i AOAN ac yn trosglwyddo'u cyfrifoldebau diogelu i AOAN heb asesu risg y sefyllfa a chymryd camu diogelu angenrheidiol ar unwaith. Roedd data'r cyfweliadau'n datgelu dau brif gategori o ymddygiad gan atgyfeirwyr; yr atgyfeirwyr un-cyfeiriad goddefol sy'n cyfeirio achosion heb wneud dim ymdrech i geisio diogelu'r unigolyn a'r gwrthwyneb; yr atgyfeiriwr dau gyfeiriad rhagweithiol lle byddai achos yn cael ei atgyfeirio a chamau'n cael eu cymryd i ddiogelu'r unigolyn.

Ymateb ymarferwyr pan ddatgelir cam-drin

Y ffordd yr oedd ymarferwyr yn ymateb i ddatgelu cam-drin oedd un o'r prif bethau a boenai gweithwyr proffesiynol AOAN. Os oedd yr ymateb yn gadarnhaol, yn sensitif ac yn cynnig sicrwydd, roedd y dioddefwr hŷn yn fwy tebygol o ymgysylltu â'r gwasanaeth cymorth.

'Mae angen i ymarferwyr unigol feithrin perthynas o ymddiriedaeth â chleientiaid. Dim ond pan fyddan nhw [dioddefwyr hŷn] yn teimlo'n gyfforddus ac yn hyderus y gallan nhw ymddiried yn yr unigolyn, y byddan nhw'n fodlon datgelu. Felly, mae a wnelo hyn â chymorth, sgiliau cyfathrebu, a perthynas gadarnhaol o ymddiriedaeth.'
(Cydlynydd AOAN) 7)

Roedd rhai'n meddwl nad oedd rhai grwpiau penodol mewn rhai meysydd, yn enwedig meddygon teulu a staff ysbytai bob tro'n gofyn y cwestiynau ac yn archwilio'r sefyllfa gartref yn fwy manwl. Teimlid bod angen i weithwyr proffesiynol fod yn fwy gweithredol wrth gyfeirio pobl hŷn at wasanaethau cymorth, yn hytrach na chrybwyll asiantaeth neu un o sefydliadau'r trydydd sector yn unig. Nid oedd ymarferwyr yn sicr beth i'w ddweud wrth bobl hŷn i'w cynorthwyo pan oeddent wedi cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Nid oedd ymarferwyr am eu rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle y byddent yn broffesiynol fregus oherwydd eu diffyg hyfforddiant yn eu golwg hwy.

Rhesymau posibl eraill dros beidio â gweithredu i'r graddau y gellid oedd:

- Nid oedd gan ymarferwyr y wybodaeth angenrheidiol am y gwasanaethau lleol neu genedlaethol a oedd yn helpu pobl hŷn, neu roeddent yn teimlo bod y gefnogaeth emosiynol i ddioddefwyr yn gyfyng iawn mewn ardal leol ac nid oeddent am gael eu gweld yn analluog i gynnig unrhyw ateb;
- Roedd ymarferwyr yn aml yn teimlo nad oedd ganddynt ddigon o amser i dreulio'n mynd i'r afael ag anghenion unigolyn oherwydd eu bod yn gweld

anawsterau o ran capasiti yn eu sefydliad;

- Roedd ymarferwyr yn aml yn amharod i gyfeirio'r dioddefwr/camdriniwr ymlaen at yr asiantaethau perthnasol oherwydd nad oeddent yn teimlo y byddai'r gwasanaethau a oedd ar gael yn gwella sefyllfa'r teulu ac y gallai hynny waethygu pethau.

Proses AOAN

Pan fyddai ymarferwyr AOAN yn trafod cleientiaid a oedd yn troi eu cefn ar y broses, roeddent yn gwahaniaethu'n glir rhwng y cleientiaid hynny a oedd yn cyrraedd trothwy AOAN a'r rheini nad oeddent.

I gleientiaid nad oeddent yn cyrraedd trothwy AOAN

Roedd AOAN yn ymwybodol bod 'oedolyn agored i niwed' yn derm y gellid yn rhwydd ei gamddehongli. Roedd gweithwyr proffesiynol AOAN yn sylweddoli ac yn gwerthfawrogi bod dehongliad ymarferwyr eraill o oedolion agored i niwed yn aml yn wahanol i'r meini prawf sydd yn 'Mewn Dwylo Diogel'. Byddai gweithwyr proffesiynol AOAN yn aml yn dweud bod gwybodaeth ymarferwyr allanol, o'r sector statudol a'r trydydd sector, am y meini prawf ar gyfer 'oedolyn agored i niwed' yn gyfyngedig. Agwedd yr heddlu oedd y byddai rhywun a oedd wedi dioddef cam-drin yn awtomatig yn dod o fewn categori oedolyn agored i niwed; serch hynny, roedd ymarferwyr AOAN yn cael eu rheoli gan y polisi ac yn dweud bod gwahaniaethau barn yn aml rhwng y ddwy asiantaeth o ran diffinio oedolyn agored i niwed.

Os nad oedd achos yn cyrraedd y trothwy ar gyfer AOAN, teimlid yn aml bod rhywfaint o ddryswch ynglŷn â pha asiantaeth statudol oedd yn gyfrifol am reoli'r achos. Byddai gweithwyr proffesiynol AOAN yn aml yn dweud bod yr achos yn cael ei anfon yn ôl at yr atgyfeiriwr cychwynnol ynghyd a set o argymhellion. Dywedodd timau AOAN mai cyfrifoldeb yr asiantaethau cychwynnol oedd cymryd y camau angenrheidiol neu atgyfeirio'r achos i rywle arall. Dywedodd swyddogion yr heddlu neu ymarferwyr gofal cymdeithasol mai ychydig iawn y byddent hwy, yr atgyfeirwyr cychwynnol, yn ymwneud ag achos ar ôl iddo gael ei gyfeirio at dîm AOAN. Os nad oedd yr achos yn cyrraedd trothwy AOAN, byddai AOAN yn cyfeirio'r achos ymlaen. Serch hynny, roedd rhai'n meddwl pan nad oedd achosion yn cyrraedd y trothwy, nad oedd atgyfeiriadau dioddefwyr yn cael eu trin yn briodol, a bod llawer o achosion yn cael eu gadael 'rhwng asiantaethau heb gymorth clir'. Teimlai ymarferwyr AOAN a'r heddlu y dylai fod yn fwy eglur o lawer ynghylch pa asiantaeth a oedd yn gyfrifol pan nad oedd achos wedi cyrraedd y trothwy. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr fod gormod o achosion ar hyn o bryd yn 'disgyn drwy'r rhwyd' ac nad oedd hyn yn dderbyniol.

Cyfeirio achos at wasanaeth yr heddlu

I bob golwg, roedd gwahaniaethau mawr rhwng awdurdodau lleol o ran y pwynt lle'r oedd gwasanaethau cymdeithasol yn cynnwys yr heddlu mewn achos. Mewn rhai meysydd, roedd darparwyr gofal cymdeithasol yn cyfeirio achosion yn awtomatig at yr heddlu, ni waeth pa mor fach oedd y digwyddiad cam-drin, ond mewn ardaloedd

eraill, ni fyddai ymarferwyr ond yn atgyfeirio achosion pan fyddai'r cam-drin yn cyrraedd trothwy penodol (risg uchel fel rheol). Yn aml, ni fydd darparwyr gofal cymdeithasol yn cyfeirio achosion at yr heddlu heblaw bod y dioddefwr honedig wedi cydsynio. Cynigiodd ymarferwyr gofal cymdeithasol a swyddogion yr heddlu amrywiaeth o resymau dros gyndynrwdd y dioddefwr hŷn honedig i ymgysylltu â'r heddlu, sef:

- Diffyg gwybodaeth am rôl yr heddlu ac ofn dial eto gan y camdriniwr;
- Camymdeimlad o fod yn driw oherwydd y berthynas rhwng y camdriniwr a'r dioddefwr ac anfodlonrwydd i droseddoli perthynas deuluol;
- Y stigma a oedd yn gysylltiedig â phresenoldeb yr heddlu yn eu cymuned; nid oedd defnyddwyr gwasanaethau am weld un o geir yr heddlu wedi'i barcio y tu allan i'w tŷ.

Roedd ymarferwyr yn sylweddoli hefyd y gallai dioddefwr boeni bod yr heddlu'n ymwneud â'r sefyllfa, a hynny'n bennaf oherwydd nad oeddent yn ymwybodol o'r opsiynau a oedd ar gael a'r prosesau cysylltiedig. Teimlid ei bod yn bwysig i bob ymarferydd esbonio i ddioddefwyr beth yw natur rôl yr heddlu ac i drafod yr holl opsiynau sydd ar gael. Ni ddylid llunio dim tybiaethau ar sail rhagfarn oed ynghylch penderfyniadau i fynd ar drywydd canlyniad drwy'r drefn cyfiawnder.

4. Cyfiawnder troseddol a throseddau casineb

Nododd swyddogion yr heddlu a gweithwyr proffesiynol Gwasanaeth Erlyn y Goron dri cham a oedd yn effeithio ar achosion cyfiawnder troseddol, sef: casglu tystiolaeth, tynnu datganiadau tystion yn ôl, ac achos yn y llys.

Casglu tystiolaeth

Teimlai asiantaethau Cyfiawnder Troseddol nad oedd y broses casglu tystiolaeth mor drylwyr ag y dylai fod yn enwedig lle'r oedd gofyn cael tystiolaeth feddygol yn gefn i honiadau. Roedd amseru'n hollbwysig oherwydd bod ansawdd y dystiolaeth yn dibynnu'n helaeth ar ymateb yn brydlon.

Datganiadau tystion

Dywedodd swyddogion yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron fod dioddefwyr weithiau'n dewis troi cefn ar y broses oherwydd nad oeddent yn ei deall. Sylweddolid y byddai camdrinwyr yn defnyddio gwahanol strategaethau i annog y dioddefwyr i dynnu datganiad yn ôl, er enghraifft addo newid eu hymddygiad neu dwysáu'r bygythiadau a'r cam-drin. Roedd rhai'n poeni hefyd bod toriadau cynyddol yn nifer y staff yn amharu ar ganlyniadau.

Roedd dioddefwyr hŷn yn aml yn teimlo'n arbennig o ynysig rhwng caniatáu mechnïaeth a chynnal yr achos yn y llys. Roedd hwn yn gyfnod allweddol pan fyddai ymarferwyr yn sylwi ar gyfraddau uchel o dynnu yn ôl. Nodwyd bod eiriolwr o'r trydydd sector yn aml yn hollbwysig er mwyn annog pobl i barhau i ymgysylltu â'r broses cyfiawnder troseddol. Roedd gan swyddogion unigol yn yr heddlu lai o amser bellach i roi adborth i ddioddefwyr a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am hynt eu hachos drwy'r broses Cyfiawnder Troseddol. Roedd swyddogion yr heddlu'n cydnabod, yng nghyswllt pobl hŷn, bod diffyg cyfathrebu rheolaidd yn gallu achosi mwy o boen meddwl i bobl a'u hannog i droi cefn ar y broses.

Achosion llys

Dywedodd Gwasanaeth Erlyn y Goron a swyddogion yr heddlu fod pobl hŷn yn llai tebygol o holi am weithdrefn y llys ac mae'n bosibl bod ffurfioldeb proses y llys yn eu dychryn fwy nag y bydd yn dychryn pobl yn ystod camau eraill o'u hoes. Lle byddai'r camdriniwr yn oedolyn a oedd yn blentyn i'r dioddefwr, roedd pobl hŷn yn poeni y gallent gael eu dal yn gyfrifol mewn rhyw ffordd am y cam-drin neu y gellid cwestiynu eu gallu fel rhieni.

Teimlid bod y broses wrthwynebus a'r dulliau holi trylwyr yn cael effaith negyddol ar bobl hŷn. Roedd rhai'n meddwl nad oedd pobl hŷn yn dystion credadwy oherwydd eu bod yn ei chael hi'n anodd cofio manylion digwyddiad a bod awyrgylch y llys yn tarfu ar gyfathrebu effeithiol â dioddefwyr hŷn. Roedd rhywfaint o bryder nad oedd camau arbennig yn cael eu defnyddio pan fyddai modd gwneud hynny.

Dywedodd swyddogion yr heddlu hefyd y gallai prosesau hir y llys arwain at gyfraddau tynnu'n ôl uwch ymhlith dioddefwyr hŷn oherwydd bod hynny'n amharu ar iechyd a lles emosiynol y dioddefwr. Credai swyddogion yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron fod angen llawer mwy o gefnogaeth ar ddioddefwyr hŷn nag yr oeddent yn ei chael ar hyn o bryd cyn, yn ystod ac ar ôl bod yn y llys, er mwyn ei gwneud yn fwy tebygol bod y broses erlyn a'r canlyniad yn llwyddiannus.

Troseddau Casineb

Ar hyn o bryd, nid oes diffiniad cyfreithiol o drosedd casineb. Serch hynny, mae darpariaethau cyfreithiol ar gael ynghylch agweddau unigol ar droseddau casineb sy'n berthnasol i nodweddion unigolyn gan gynnwys, hil, rhyw, ethnigrwydd, dosbarth, cyfeiriadedd rhywiol ac anabledd. Mae Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cytuno ar ddiffiniad o drosedd casineb:

> 'Unrhyw gamwedd troseddol sy'n cael ei weld gan y dioddefwr neu gan unrhyw un arall, yn drosedd sy'n cael ei gymell gan elyniaeth neu ragfarn sy'n seiliedig ar hil neu hil dybiedig unigolyn. crefydd neu grefydd dybiedig; cyfeiriadedd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol tybiedig; anabledd neu anabledd tybiedig ac unrhyw drosedd sy'n cael ei gymell gan elyniaeth neu ragfarn yn erbyn rhywun trawsryw neu y tybir ei fod/bod yn drawsryw.'
>
> (Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, 2012)

Yn 2007, mabwysiadwyd diffiniad ar y cyd gan yr asiantaethau cyfiawnder troseddol ar gyfer 'trosedd casineb':

> 'unrhyw gamwedd troseddol sy'n cael ei ystyried, gan y dioddefwr, neu gan unrhyw un arall, yn un sy'n cael ei gymell gan elyniaeth neu ragfarn at rywun ar sail nodwedd bersonol.'

gan nodi 'pum llinyn' a fyddai'n cael eu monitro'n ganolog;

- hil;
- crefydd/ffydd;
- cyfeiriadedd rhywiol;
- anabledd;
- hunaniaeth ryw.

Gellir trin troseddau sy'n seiliedig ar elyniaeth at oedran, rhyw neu ymddangosiad yn droseddau casineb hefyd.

Y Swyddfa Gartref, Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder (2013), An Overview of Hate Crime in England and Wales, Llundain, (t. 11).

Roedd gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol yn gallu diffinio troseddau casineb, ond nid oeddent yn teimlo'n gyfforddus yn cynnig y diffiniad. Dywedodd swyddogion yr heddlu a oedd yn ymwneud â throseddau casineb fod gweithwyr proffesiynol yn weddol dda am adnabod troseddau casineb a oedd o natur hiliol neu grefyddol, ond ei bod yn aml yn fwy anodd i ymarferwyr generig adnabod troseddau casineb cysylltiedig ag oedran ac anabledd, ac ymateb iddynt:

‘Rwy’n meddwl yn gyffredinol o fewn cymdeithas, petaech chi’n sôn am agweddau hil neu grefydd troseddau casineb, fod pawb yn gwybod am hynny, oherwydd ers y deng, [neu’r] pymtheg mlynedd diwethaf, rydyn ni wedi tyfu gyda hynny. Rwy’n meddwl ein bod wedi cyrraedd y pwynt gyda throseddau casineb sy’n gysylltiedig ag oedran neu anabledd lle mae angen inni wneud y gwaith hwnnw [canolbwyntio ar ddigwyddiadau cysylltiedig â chasineb ar sail oedran ac anabledd] yn awr fel y gwnaethon ni ddeng mlynedd yn ôl. Fe allai rhyw fath o becyn hyfforddi, sesiynau i gryfhau’r ymwybyddiaeth honno fod o fudd inni i gyd.’

(Swyddog Troseddau Casineb: 1)

Roedd rhai gweithwyr proffesiynol ym maes troseddau casineb yn meddwl bod pobl hŷn sy’n dioddef yn sgil troseddau casineb fel rheol yn canolbwyntio ar faterion sy’n gysylltiedig ag oedran neu anabledd:

‘...mae troseddau casineb [yn erbyn] pobl hŷn yn ymwneud â dau beth yn y bôn, agwedd y genhedlaeth hŷn [cyndynrwydd i’w riportio] yn amlwg, ond hefyd y gallu i’w riportio. Gyda throseddau casineb [sy’n ymwneud â’r] henoed, rwy’n tueddu i weld bod a wnelo’r rhain lai â [materion] sy’n ymwneud â hil a chrefydd a mwy â nodweddion corfforol a phersonol rhywun.’

(Swyddog Troseddau Casineb: 2)

‘Gwahaniaethu ar sail oedran? Byddwn, mi fyddwn ni’n gweld llawer o hynny. Mae gennym bobl sydd ychydig yn ddryslyd ac maen nhw’n cael eu labelu â salwch dementia. Rwy’n teimlo nad yw pobl hŷn yn cael y cymorth a’r gofal sydd eu hangen arnyn nhw.’

(Ymarferydd rheng flaen: 1)

Dywedodd asiantaethau bod atgyfeiriadau neu adroddiadau cysylltiedig â throseddau casineb yn brin. Oherwydd natur cudd troseddau casineb sy’n targedu pobl hŷn, roedd rhai ymarferwyr yn meddwl mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y byddai’r boblogaeth hŷn yn dioddef o droseddau fel hyn.

‘...ddim yn aml [y byddwn ni’n cael adroddiadau am bobl hŷn] ond byddwn yn cael rhai agweddau e.e. sefyllfaoedd cam-drin domestig, bygwth lladd er anrhydedd ... ddim yn rhywbeth sy’n cael ei riportio inni’n aml iawn. Yn sicr, dydy hyn ddim yn rhywbeth y gallwn edrych arno a dweud bod cam-drin [o’r math yma] wedi’i ganoli ar y grŵp agored i niwed hwnnw.’

(Swyddog Amddiffyn Oedolion: 2)

Yng ngwasanaethau amddiffyn oedolion rhai awdurdodau lleol, awgrymodd ymarferwyr fod rhai o’u cydweithwyr yn tybio nad oedd troseddau casineb yn digwydd o fewn eu ffiniau daearyddol hwy. Roedd y camargraff hwn yn fwy cyffredin yn enwedig os nad oedd demograffeg y boblogaeth yn cael ei gweld yn grŵp arbennig o amrywiol. Roedd y canfyddiad bod troseddau casineb yn digwydd mewn mannau eraill yn awgrymu nad oedd rhai ymarferwyr ond yn deall troseddau casineb pan fyddai cymhelliad hiliol neu wahaniaethu ar sail crefydd iddynt.

> ‘Troseddau casineb, os siaradwch chi â’n cydweithwyr yma byddan [nhw’n] dweud mai rhywbeth sy’n digwydd ar y ffiniau yw hyn...y broblem honno ac nad yw’n digwydd yn [enw’r lle]... Felly, mae’n rhywbeth sy’n digwydd mewn ardaloedd eraill ac nid yma. Ond oherwydd fy mod i’n mynd i fforymau eraill, rwy’n gwybod bod hyn yn broblem yma fel ym mhobman arall. Rwy’n meddwl bod hyn yn rhywbeth nad yw unigolyn yn gwybod llawer amdano oherwydd eu bod yn meddwl ei fod yn digwydd yn rhywle arall’
>
> (Cydlynydd AOAN: 6)

Roedd swyddogion arbenigol ym maes troseddau casineb yn dweud bod swyddogion yr heddlu’n gyffredinol o bosibl wedi ymateb i achos trosedd casineb heb iddynt o reidrwydd sylweddoli mai dyna ydyw, felly mae’n bosibl bod llawer o achosion yn cael eu cofnodi fel digwyddiadau eraill. Gyda phobl hŷn, roedd tangofnodi troseddau casineb yn debyg iawn i dangofnodi cam-drin domestig.

> ‘Petai rhywun yn dod ata’i ac yn dweud nad oes troseddau casineb, byddwn i’n dweud oes mae ‘na. Byddai’n wych petai ‘na ddim ond mae ’na. Mae angen inni ymdrin â’r peth ac mae angen y wybodaeth honno arnon ni ac i bobl ddod ymlaen a’i rhoi inni. Mae angen inni esbonio wrthyn nhw beth yw trosedd casineb.’
>
> (Swyddog Troseddau Casineb: 2)

Serch hynny, barn Gwasanaeth Erlyn y Goron oedd bod cysylltiad cryf rhwng cam-drin domestig, cam-drin sy’n targedu pobl hŷn a throseddau casineb:

> ‘Mae gorgyffwrdd mawr rhwng cam-drin yr henoed a throseddau casineb ar sail anabledd. Yn eithaf aml, pan fyddwn ni’n edrych ar faterion sy’n cael eu dynodi’n achosion cam-drin pobl oedrannus, y rheswm dros dargedu’r unigolyn hwnnw yw, nid o anghenraid yr hyn sy’n cael ei nodi ar y dystysgrif geni, ond y ffaith bod ganddynt gyflwr corfforol meddyliol sy’n eu gwneud yn agored i niwed. Efallai mai cyflwr cysylltiedig ag oed yw hyn ond y rheswm dros eu targedu yw bod ganddyn nhw’r anabledd neu’r anabledd tybiedig hwnnw ac nid o anghenraid oherwydd eu hoedran.’
>
> (Gwasanaeth Erlyn y Goron: 1)

Roedd canfyddiadau’r ymchwil yn awgrymu bod dealltwriaeth ymarferwyr y sector statudol a’r trydydd sector yn eithaf cyfyngedig ar hyn o bryd a bod angen hyfforddiant eang i helpu ymarferwyr y rheng flaen i adnabod troseddau casineb ac ymateb iddynt.

Pan ofynnwyd am wybodaeth asiantaethau eraill am droseddau casineb, dangosodd swyddog raddfa inni i ddangos ymwybyddiaeth awdurdodau lleol o droseddau casineb ymhlith pobl hŷn, ac roedd yr ymateb yn dangos bod angen cynyddu ymwybyddiaeth o droseddau casineb yn sylweddol ymhlith staff y rheng flaen:

> ‘Ar raddfa o 1 i 10 [a deg yn uchaf], byddwn yn dweud mae’n debyg [mai’r gradd y byddwn yn ei rhoi i’r lefel bresennol o ymwybyddiaeth yw] tua 2.’
>
> (Swyddog Troseddau Casineb: 2)

Roedd swyddogion amddiffyn oedolion yn yr heddlu'n ymwybodol y byddai hyfforddiant ychwanegol o fudd i'w sefydliad. Roedd yn amlwg bod sylfaen wybodaeth ymarferwyr wrth fynd i'r afael â throseddau casineb a'r ddarpariaeth gwasanaeth ar hyn o bryd yn dal yn ei fabandod.

Serch hynny, roedd hi'n amlwg bod ymarferwyr yn awyddus i ehangu eu dealltwriaeth o droseddau casineb:

> 'Byddwn yn dweud fy mod yn gwybod llai am droseddau casineb...nid yw'n cael digon o amlygrwydd ym maes amddiffyn oedolion ac rwy'n meddwl bod angen dysgu rhagor amdano... O ran amddiffyn oedolion, mae angen inni feddwl ychydig yn fwy am sut mae'n integreiddio i'n gwaith, sut rydym yn ymateb iddo a beth yw'r model ymarfer gorau i'w reoli. Dydw i ddim yn meddwl ein bod wedi dirnad hynny eto.'
>
> (Rheolwr diogelu oedolion: 1)

Riportio achosion am bobl hŷn

Fel y nodwyd eisoes, roedd ymarferwyr yn gweld pobl hŷn yn fwy goddefgar i gam-drin na grwpiau eraill ymhlith y boblogaeth heblaw bod lefel troseddau casineb yn cynyddu. Gallai amharodrwydd pobl hŷn i gynnwys yr heddlu arwain at fwy o niwed:

> 'Ymhlith y genhedlaeth hŷn, efallai fod cyndynrwydd i ffonio'r Heddlu onid yw'n fater mwy difrifol. Mae'n ffenomen a fydd yn diflannu gydag amser oherwydd nad oes gan genhedlaeth heddiw broblem yn ffonio'r Heddlu a dydy hi erioed wedi bod yn haws cael gafael arnyn nhw dros yr ebost, ffôn symudol. Rwyf wedi gweld ein capasiti'n gwella'n ddramatig yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf oherwydd y ffôn symudol. Pan fydda i'n gwneud sesiynau cryfhau ymwybyddiaeth gyda phobl hŷn, mae llawer yn ymateb drwy ddweud nad oedden nhw am greu trafferth inni, neu nad oedden nhw ddim yn ei weld yn drosedd casineb neu yr hyn rwy' wedi'i glywed lawer gwaith yng nghyswllt pob nodwedd sef 'dydy hynny ddim yn fy mhoeni i ' [cael fy ngalw'n enwau ac ati].
>
> (Swyddog Troseddau Casineb: 1)

Troi cefn ar wasanaethau

Roedd rhai'n poeni na fyddai pobl hŷn o bosibl yn ceisio rhagor o gymorth ar ôl cael yr ymateb cychwynnol gan yr heddlu. Ofn canlyniadau, neu ymdeimlad o gyndynrwydd ynghylch y cyrff statudol yn ymwneud â'r peth - fe all y rhain fod yn ffactorau posibl o ran perswadio pobl hŷn rhag ymgysylltu â gwasanaethau, ond roedd hi'n anodd llunio unrhyw gasgliadau cadarn ac ystyried y diffyg gwybodaeth sydd ar gael i esbonio pam roedd pobl hŷn yn betrus ynghylch gweithio gyda swyddogion.

Oedran fel ffactor adrodd

Roedd data'r cyfweliadau'n dangos bod gan Wasanaeth Erlyn y Goron 'oedran' yn gategori riportio ar gyfer troseddau casineb ond nad oedd yr heddlu'n cofnodi ystadegau troseddau casineb cysylltiedig ag oedran. Serch hynny, byddai'r heddlu'n cysylltu'n aml â Gwasanaeth Erlyn y Goron i fonitro digwyddiadau cysylltiedig ag oedran a throseddau'n gyffredinol. I fod yn gymwys i'w ystyried yn drosedd casineb cysylltiedig ag oedran, roedd yn rhaid nodi oedran a natur agored i niwed y dioddefwr yn brif ffactorau a oedd yn gymhelliad wrth gyflawni'r drosedd.

Roedd rhai'n meddwl bod rhywfaint o ansicrwydd o fewn asiantaethau a rhyngddynt ynglŷn ag a ddylai 'oedran' gael ei gategori adrodd ei hun. Roedd rhai ymarferwyr yn teimlo y dylai oedran fod yn gategori adrodd am ddau reswm: yn gyntaf oherwydd bod gwahaniaethu ar sail oedran yn beth cyffredin ac yn ail, oherwydd bod darpar droseddwyr yn sylweddoli bod hen bobl a phobl ifanc yn dargedau haws na sectorau eraill o'r boblogaeth. Felly, roedd ymarferwyr a gredai y dylai 'oedran' gael ei gategori adrodd ei hun yn teimlo bod camdrinwyr yn graff iawn wrth dargedu pwy y gallent ei gam-drin. Teimlid bod y lefel hon o rag-gynllunio'n golygu bod y trosedd yn fwy difrifol pan fyddai'r trosedd casineb yn cael ei anelu at bobl o oedran arbennig oherwydd bod grwpiau penodol e.e. yr hen iawn a'r ifanc iawn o bosibl yn fwy agored i niwed.

> 'Bydd lladron yn targedu eiddo sydd â rheliau llaw y tu allan oherwydd bod hynny'n awgrymu bod rhywun yn cael trafferth symud. Mae ein polisi hefyd yn sôn am droseddau sydd heb eu targedu at bobl o oedran arbennig yn y lle cyntaf ond sy'n troi'n droseddau o'r fath wedyn. Yr enghraifft a roddir yw 'bydd lleidr yn torri i mewn i'r tŷ gyda'r bwriad o fachu'r teledu o'r ystafell fyw'n unig a rhedeg oddi yno cyn gynted ag y gall, ond ar ôl mynd i mewn, mae'n sylweddoli mai rhywun hŷn yw'r perchennog [perchennog y tŷ] ac mae'n magu hyder ac yn chwilio drwy'r lle ac yn mynd i fyny'r grisiau ac ati'. Felly, mae'r trosedd yn gwaethygu oherwydd ei fod wedi sylweddoli mai rhywun hŷn yw'r dioddefwr.'
>
> (Gwasanaeth Erlyn y Goron: 1)

Cyfraddau Euogfarnau ar gyfer Troseddau Casineb

Ardal Heddlu	Nifer yr Achosion yn y Llys	Euogfarnau Llwyddiannus	Canran	Euogfarnau Llwyddiannus	Canran
Dyfed Powys	**25**	**21**	**84.0%**	**4**	**16.0%**
Gwent	**36**	**34**	**94.4%**	**2**	**5.6%**
Gogledd Cymru	**42**	**30**	**71.4%**	**12**	**28.6%**
De Cymru	**114**	**92**	**80.7%**	**22**	**19.3%**
Cymru Gyfan	**217**	**177**	**81.6%**	**40**	**18.4%**

Mae'r siart uchod yn dangos nifer yr achosion troseddau casineb a gyrhaeddodd y llysoedd o'u cymharu â chanran yr euogfarnau llwyddiannus ac aflwyddiannus. Mae'n dangos y gyfradd lwyddo'n uwch yng Ngwent gyda dim ond 2 (5.6%) euogfarn aflwyddiannus ond bod llawer llai o achosion yno nag yn Ne Cymru. Dywedodd swyddogion troseddau casineb nad oedd nifer fach yr achosion llys o reidrwydd yn dangos bod llai o droseddau casineb yn digwydd yn yr ardal honno. Fe allai hyn fod yn adlewyrchiad ar hyfforddiant a gwybodaeth ymarferwyr a swyddogion yr heddlu yn yr ardal honno.

Roedd rhywfaint o anghytundeb rhwng yr hyn yr oedd yr heddlu'n ei ystyried yn 'euogfarn lwyddiannus' a'r hyn yr oedd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ei ystyried yn 'llwyddiannus'. Dywedodd swyddogion yr heddlu eu bod yn aml yn teimlo'n ddigalon pan fyddai troseddwyr yn cael dedfryd 'ysgafn' yn eu golwg hwy, neu ddedfryd drugarog o'i chymharu â difrifoldeb yr achos:

> 'Weithiau, byddwch chi'n meddwl nad ydy hynny ddim yn ddigon. Fel sy'n wir am bob trosedd, fel swyddogion yr heddlu, rydyn ni am roi pobl yn y carchar os byddan nhw'n gwneud drwg, nid dyna'r peth iawn bob tro ond rydych chi am deimlo eich bod wedi gwneud eich gorau glas dros y dioddefwyr a'u bod yn cael rhyw fath o foddhad o hynny gan wybod bod y troseddwr yn gorfod talu am rywbeth y mae wedi'i wneud a dydw i ddim yn siŵr a fyddwn ni bob tro'n sicrhau boddhad hwnnw'.
>
> (Swyddog Troseddau Casineb: 1)

> 'Mae nifer y troseddau casineb yn y gymdeithas felly'n dibynnu'n llwyr ar sut mae troseddau casineb yn cael eu diffinio, eu cysyniadu a'u dehongli. Y broblem yw bod y diffiniadau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn sicrhau nad yw mwyafrif y troseddau casineb sy'n cael eu labelu'n droseddau casineb yn swyddogol yn cael eu cymell gan gasineb o gwbl, ond gan ragfarn, sy'n aml yn rhywbeth hollol wahanol.'
>
> Hall, N. (2013) Hate Crime, 2il argraffiad, Abingdon, Oxon: Routledge, (t. 16.)

Rhannu gwybodaeth

Dywedodd y sawl y cyfwelwyd â hwy fod 'diogelu data' a 'rhannu gwybodaeth' yn dermau y byddai ymarferwyr yn eu defnyddio weithiau fel pethau a oedd yn eu rhwystro rhag datgelu gwybodaeth i'r asiantaethau priodol:

> 'Weithiau, bydd pobl yn cuddio y tu ôl i'r hen ddiogelu data. Nonsens yw hynny. Does dim ffasiwn beth â diogelu data sy'n caniatáu camfanteisio ar rywun agored i niwed neu gael ei dargedu gan Droseddwyr Casineb. Nid oes dim ystyriaethau diogelu data a fyddai'n eich atal rhag dweud hynny wrth yr Heddlu. Y trydydd sector yw'r broblem.'
>
> (Swyddog Troseddau Casineb: 1)

Roedd y trydydd sector yn cael ei weld yn gyndyn o ddatgelu gwybodaeth am gleientiaid ar brydiau. Roedd ymarferwyr a oedd yn arbenigwyr ym maes troseddau casineb yn poeni bod gwybodaeth yn cael ei dal yn ôl ar brydiau mewn achosion lle nad oedd hynny'n briodol.

Cydymffurfio

Pan ofynnwyd i swyddogion troseddau casineb am bresenoldeb asiantaethau eraill mewn cyfarfodydd rhyngasiantaethol a'u cydymffurfio â gweithdrefnau troseddau casineb, dywedodd y swyddogion, oherwydd eu bod yn ofni sylw negyddol yn y cyfryngau a chyhuddiadau o beidio â thrin achos trosedd casineb o ddifri, fod yr asiantaethau'n ymateb yn dda iawn:

> '99.9% o'r amser, fydda'i ddim yn cael dim problem o gwbl [o ran asiantaethau'n cydymffurfio]. Yn y lle cyntaf, yr Heddlu ydyn ni. Mae pobl yn tueddu i wrando pan fydd y gair Heddlu ar ddiwedd y peth. Yn ail, mae'n Drosedd Casineb a does neb am ollwng y bêl ym maes Trosedd Casineb. Yn syml os byddwch chi'n gollwng y bêl mewn achos Trosedd Casineb, byddwch chi yn y Western Mail neu'n waeth na hynny. Felly bydd pobl yn tueddu i eistedd a gwrando ychydig.'
>
> (Swyddog Troseddau Casineb: 1)

Serch hynny, dywedodd swyddogion troseddau casineb, os nad oedd y digwyddiad yn gysylltiedig â cham-drin domestig neu os nad oedd yn dod o fewn trothwy AOAN, fod gweithwyr gofal cymdeithasol yn aml yn gyndyn o gymryd rhan yng nghyfarfodydd yr heddlu a'r broses ymchwilio:

> 'Cam-drin domestig yw eu bara menyn. A bod yn eithaf onest â chi, materion teuluol yw eu bara menyn oherwydd dyna brif feysydd eu gwaith. Os bydd digwyddiad yn un AOAN, yna mae'n amlwg y byddan nhw'n tynnu pob stop allan ond pan nad yw'r digwyddiad cweit wedi cyrraedd trothwy AOAN neu CAAR, dyna'r adeg y byddwch chi efallai'n cael trafferth ymgysylltu â nhw.'
>
> (Swyddog Gorthrech: 1)

Roedd swyddogion troseddau casineb am i weithwyr gofal cymdeithasol sylweddoli bod angen gwaith amlasiantaeth gyda golwg ar droseddau casineb. Roeddent yn credu bod angen i weithwyr gofal proffesiynol integreiddio'u gwybodaeth am droseddau casineb fel mater difrifol yn eu gwaith beunyddiol:

> 'Yr un llwybr fyddai hi [ag ar gyfer pob achos amddiffyn oedolion] ond mae'n debyg nad ydyn ni'n dda am roi'r tag trosedd casineb arno [y digwyddiad].'
>
> (Rheolwr diogelu oedolion: 1)

Delio â Throseddau Casineb

Roedd tai cymdeithasol yn cael eu gweld gan amlaf yn rhagweithiol wrth fynd i'r afael ag achosion troseddau casineb yn erbyn pobl hŷn: Fel sy'n wir am ddigwyddiadau cam-drin domestig, roedd tai cymdeithasol yn gallu defnyddio ystod o bwerau i sicrhau bod camdrinwyr yn cydymffurfio'n well a'u hatal rhag cam-drin rhywun eto. Mewn achosion eithafol, byddai gwasanaethau tai'n troi pobl o'u cartrefi er mwyn atal troseddau casineb parhaus yn erbyn pobl hŷn. Serch hynny, fel gydag enghreifftiau eraill, roedd awdurdodau tai yn dibynnu ar y dioddefwr i ddatgelu'r digwyddiad ac nid oedd hyn bob tro'n digwydd:

> ‘Darparwyr Tai Cymdeithasol...maen nhw’n ardderchog... Mi fydda i’n eu defnyddio nhw a’u Swyddogion Tai a’u Tîm Diogelwch Cymunedol i roi pwysau ar y camdriniwr, yn bygwth eu tenantiaeth, yn israddio’u tenantiaeth, yn bygwth eu troi allan...Mae eu dealltwriaeth o Droseddau Casineb a’r ffordd sydd ganddynt i ddelio â’r peth yn eithriadol o gadarn.’
>
> (Swyddog Troseddau Casineb: 2)

Mae canfyddiadau ymchwil blaenorol am y maes hwn gan Clarke et al. (2011), yn awgrymu bod angen i dai cymdeithasol a chymdeithasau tai eraill gryfhau ymwybyddiaeth tenantiaid o droseddau casineb a rhoi gwybodaeth iddynt am sut i roi gwybod i swyddogion tai am ddigwyddiadau mewn ffordd ddiogel. Dylai’r wybodaeth hon sy’n cryfhau ymwybyddiaeth pobl bwysleisio bod swyddogion tai’n gorfod ymateb mewn ffordd gyfrinachol a sensitif er mwyn sicrhau na fydd dim canlyniadau annymunol pellach.

Dywedodd swyddogion Troseddau Casineb fod angen i bob asiantaeth sylweddoli pwysigrwydd rhannu gwybodaeth, mynd i gyfarfodydd a chydymffurfio â’r gweithdrefnau priodol. Dywedodd swyddogion nad oedd y gwaith rhyngasiantaeth fel y dylai fod, a bod camddealltwriaeth ynghylch diogelu data’n aml yn rhwystro cydweithio effeithiol. Dywedodd y rhan fwyaf o’r arbenigwyr fod angen hyfforddiant helaeth am droseddau casineb, yn enwedig gyda golwg ar droseddau casineb cysylltiedig ag oedran ac anabledd.

5. Arferion Da

Er bod tystiolaeth o arferion da i'w gweld ym mhob awdurdod lleol, roedd pedair ardal lle'r oedd gwaith arbennig o arloesol ar y gweill wrth ymateb i ddioddefwyr cam-drin domestig hŷn. Yr ardaloedd hyn oedd Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Caerffili a Sir Gaerfyrddin. Roedd yn amlwg bod lefel uchel o hyfforddiant a chryfhau ymwybyddiaeth ynghylch CAAR, EATD, EAGM a Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Hefyd, roedd mwy o integreiddio rhwng y byrddau iechyd a'r llwybrau a'r prosesau atgyfeirio. Roedd gan yr ymarferwyr y cyfwelwyd â hwy yn y meysydd hyn sylfaen wybodaeth eang, roeddent yn blaenoriaethu dull ymyrryd yn gynnar ac yn defnyddio ymateb cyfannol a oedd yn cynnwys fframwaith amlasiantaeth. Roedd y pedair ardal hyn hefyd yn dangos ymwybyddiaeth o'r angen i roi sylw i anghenion dioddefwyr ac i helpu camdrinwyr i newid eu hymddygiad. Roedd agweddau penodol ar yr ymarfer lle'r oedd yr awdurdodau'n ardderchog.

Pen-y-bont ar Ogwr

Wrth ddadansoddi cynnwys yr adroddiad y Pwyllgor Ardal Amddiffyn Oedolion a'r data meintiol ac ansoddol, gwelwyd dealltwriaeth gref iawn o drais domestig a oedd yn benodol berthnasol i bobl hŷn, lle'r oedd rhoi dewis i ddefnyddwyr gwasanaethau a'u grymuso'n flaenoriaeth. Roedd tystiolaeth hefyd o weithredu amlasiantaeth ardderchog, integreiddio da â maes iechyd a chydnabyddiaeth bod angen datblygu cysylltiadau eiriolaeth mewn achosion a oedd yn cynnwys pobl hŷn.

Caerdydd

Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cynnig pecyn hyfforddi AOAN da iawn gan gynnwys ar lefel un 'ymsefydlu'; lefel dau 'adnabod ac atgyfeirio' a lefel tri 'rheolwr llinell dynodedig' ynghyd â hyfforddiant ar lefel uwch. Roedd polisi hyfforddi gorfodol i bob aelod o'r staff, hyfforddiant i feddygon teulu, 'Diwrnodau Amddiffyn y Cyhoedd' misol a oedd yn cynnwys cam-drin domestig a hyfforddiant AOAN gan dimau Diogelu. Roedd ymrwymiad ar lefel strategol a gweithredol i fynd i'r afael â cham-drin domestig a thystiolaeth o ddysgu yn sgil profiad y defnyddiwr. Roedd ymarferwyr yn ymwybodol o ryngddibyniaeth a gorthrech mewn achosion cam-drin domestig pobl hŷn, ac roeddent yn blaenoriaethu dull 'canolbwyntio ar yr unigolyn'. Roedd y cynnydd sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau o'r maes Iechyd (Pwyllgor Amddiffyn Oedolion yr Ardal 2012-13) yn dangos ymwybyddiaeth gryfach o gam-drin domestig ymhlith pobl hŷn gan staff y rheng flaen o ran sylweddoli bod rhywun yn cael ei gam-drin, gofyn y cwestiynau drwy gyfrwng holi rheolaidd ac atgyfeirio'n gywir. Roedd dealltwriaeth gadarn o ddeinamig y berthynas cam-drin domestig. Roedd Caerdydd yn deall ei bod yn annhebygol y byddai unigolyn yn dioddef un math o gam-drin yn unig ac roedd yn pwysleisio bod angen archwilio effaith seicolegol y cam-drin ar les yr unigolyn. Roedd tystiolaeth hefyd o gamau dilynol effeithiol - lle'r oedd yr achosion yn dod o dan y trothwy, byddent yn cysylltu â'r atgyfeiriwr i gynnig cyngor am reoli diogelwch.

Caerffili

Yng Nghaerffili, roedd strwythur da i'r tîm ac roedd yn cael ei reoli'n dda. Roedd ar waith er 2008. Roedd gan bob aelod o dîm AOAN gefndir arbenigol penodol ym maes plismona, prawf, tai a nyrsio a oedd yn ategu set sgiliau gweddill aelodau'r tîm. Felly, roedd y tîm yn teimlo eu bod mewn sefyllfa dda i ymateb ar lefel cyfiawnder a lles ac i herio penderfyniadau asiantaethau eraill ac ystyried eu profiad blaenorol o'r gyfraith a pholisi mewn gwahanol sefydliadau.

Model cronoleg amlasiantaeth

Roedd y model cronoleg wedi'i seilio ar ddarn cynhwysfawr o ymchwil gan Gaerffili. Rhesymwaith y model oedd archwilio atgyfeiriadau lle'r oedd dioddefwr yn dioddef dro ar ôl tro ac ymateb mewn ffordd fwy effeithiol i atal cam-drin dioddefwyr. Roedd yr ymchwil yn cynnwys edrych ar benderfyniadau blaenorol mewn sampl o astudiaethau achos lle byddai pobl yn dioddef cam-drin dro ar ôl tro. Roedd y canfyddiadau'n dangos mai'r un camau a oedd yn cael eu cymryd bob tro pan fyddai rhywun yn cael ei gyfeirio at broses eto, yn hytrach na bod rhywun yn mynd ati i fynd i'r afael â'r cam-drin mewn ffordd wahanol. Felly, roedd angen gwerthuso llwyddiant y strategaethau a oedd wedi cael eu defnyddio o'r blaen pan fyddai dioddefwr yn dioddef eto, a phenderfynu sut i newid yr ymateb yn sgil hynny.

> 'Y rheswm y maen nhw [defnyddwyr gwasanaethau) yn ôl yn y broses AOAN oedd oherwydd nad oedd y defnyddwyr wedi cydsynio i'r broses ddiogelu. Doedd pobl ddim yn cydsynio i'r camau yr oedden ni fel gweithwyr proffesiynol yn credu y byddent yn lleihau'r risg o gam-drin eto. '
>
> (Cydlynydd AOAN: 9)

Yn ôl tîm Caerffili, roedd n rhaid defnyddio modelau cronoleg mewn achosion amddiffyn plant. Teimlid y byddai mabwysiadu dull 'cronoleg' ym maes oedolion agored i niwed yn golygu bod yr ymateb yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus, bod yr ymgysylltu â chleientiaid well a bod llai o bobl yn cael eu cyfeirio at y system dro ar ôl tro.

Roedd y gwaith ymchwil yn sail i'r arferion presennol, ac felly, pan fyddai rhywun yn cael ei gyfeirio at y broses, byddai ymarferwyr yn sganio'r system ac yn sylwi ar yr hyn a oedd wedi'i wneud eisoes o ran y gwahanol ddulliau a ddefnyddid gan AOAN. Yna, roedd y manylion blaenorol hyn ar gael i'r ymarferwyr adeg yr asesiad risg cychwynnol ac ym mhob asesiad risg wedyn.

> 'Yn y lle cyntaf, os bydd adroddiad yn cyrraedd a'r cyhuddiad yw esgeulustod, byddwn yn mynd drwy'r gronoleg i weld a oes patrwm o esgeulustod gan yr un person a grybwyllwyd mewn archwiliadau blaenorol. Byddwn hefyd yn edrych ar y darlun mwy i weld i ba raddau y mae'r unigolyn yn agored i niwed. Proses ddeinamig yw risg yn bennaf, ond lefel y risg fel yr wyf fi'n ei gweld hi fydd yn penderfynu beth y bydda i'n ei wneud nesaf ar y foment arbennig honno...hefyd o ran y gronoleg, gallwn gael

gwybod pa fath o ymchwiliad sydd wedi'i gynnal, beth oedd canlyniad yr honiad, ac unrhyw gamau diogelu penodol a roddwyd ar waith.'

(Cydlynydd AOAN: 9)

Dywedodd y tîm fod y broses gronoleg yn ddefnyddiol iawn mewn cyfarfodydd amlasiantaeth oherwydd y gallai asiantaethau eraill wedyn helpu i adeiladu darlun manwl o'u gweithgareddau hwy eu hunain a chanlyniad unrhyw gamau wedyn. Roedd tîm Caerffili hefyd yn gweld y dull cronoleg yn amhrisiadwy i bobl a fyddai'n dioddef cam-drin ac a oedd yn dod i gyfarfodydd am ei bod yn annog pobl i ymgysylltu â phroses AOAN:

'Felly, pan fyddwch chi'n mynd â'r [wybodaeth] gronoleg i gyfarfod strategaeth, bydd hynny'n rhoi darlun cyflawn i'r asiantaethau eraill i gyd o'r hyn sydd wedi cael ei wneud o'r blaen a'r hyn y mae angen inni ei wneud yn wahanol. Felly, fe allwch chi weld, er enghraifft, mai dyma'r pumed honiad o gam-drin domestig efallai, a bod galluedd dioddefwr yn mynd a dod ac nad oes dim byd wedi'i wneud o'r blaen ac felly bod angen mynd i'r afael â hyn. Mae'n rhoi'r cyfle ichi feddwl yn fwy creadigol er mwyn cael y cydsyniad hwnnw, i ddod o hyd i ffordd i mewn er mwyn atal y cam-drin. Gall asiantaethau eraill gynnig y wybodaeth sydd ganddyn nhw ac ychwanegu at yr hyn rydyn ni'n ei wybod, ac ar adegau mewn cyfarfodydd, mae'r oedolyn agored i niwed wedi bod yn bresennol yn cyfarfod ac wedi cyfrannu ac mae'r gronoleg wedi bod o helpu iddyn nhw, yn enwedig o ran cam-drin domestig. Efallai mai dim ond meddwl am y digwyddiad diweddaraf y byddan nhw, felly fe all dioddefwyr wedyn weld a yw'r cam-drin wedi gwaethygu. Efallai y bydd yn gwneud iddyn nhw sylweddoli bod angen ein cymorth arnyn nhw i atal i cam-drin...'

(Cydlynydd AOAN: 9)

Yn yr ymchwil a wnaeth Caerffili canfuwyd hefyd fod oedolion agored i niwed wedi dweud bod gweithwyr y rheng flaen yn cyfrannu'n sylweddol yn ystod yr union broses, ond dywedodd yr oedolion agored i niwed, pan fyddai'r cynllun gweithredu wedi'i roi ar waith a'r achos wedi'i gau, nad oedd y canlyniad yn cael ei fonitro na dim cysylltiad ag ymarferwyr AOAN. Felly fe allai oedolion agored i niwed deimlo'n eithaf ynysig yn sydyn. Penderfynodd y tîm y dylid cynnal adolygiad dilynol ymhen chwech wythnos ar achosion lle byddai dioddefwr yn dioddef fwy nag unwaith er mwyn gweld a oedd y cynllun gweithredu'n cael ei fabwysiadu'n llwyddiannus gan ddefnyddiwr y gwasanaeth. Roedd y meini prawf ar gyfer adolygiad dilynol yn seiliedig ar gais y dioddefwr, manylion yr achos, unrhyw fesurau newydd sydd wedi'u rhoi ar waith, a lefel y cymhlethdod a'r risg.

Roedd tîm Caerffili hefyd yn arloesol iawn o ran rhoi gwybod i grwpiau agored i niwed am waith AOAN yn y gymuned. Nod hyn oedd chwalu chwedlau a stereoteipiau am asiantaethau statudol a chryfhau'r cyfathrebu rhwng y cyhoedd ac awdurdod lleol Caerffili. Yn hytrach na defnyddio cyflwyniad PowerPoint o'r brig i lawr, mabwysiadwyd dulliau mwy anffurfiol, a deialog i hwyluso sesiwn holi ac ateb wedi'i theilwra'n well sy'n berthnasol i'r grŵp cymunedol dan sylw.

Sir Gaerfyrddin

Gwelwyd bod Sir Gaerfyddin yn debyg i Gaerdydd o safbwynt yr ymrwymiad i hyfforddi staff, eu harferion cydweithio â'r maes iechyd, a'r dystiolaeth o ddysgu yn sgil eu hymarfer eu hunain ac ymarfer pobl eraill.

Rhoddid y pwyslais ar effeithiolrwydd ymagwedd gydlynol a chydgysylltiedig er mwyn sicrhau gwasanaeth o ansawdd da i ddefnyddwyr. Roedd gan Sir Gaerfyrddin ymrwymiad i gryfhau'r ymwybyddiaeth o ddiogelu ar draws asiantaethau partner ac ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol. Roedd hyfforddiant ymwybyddiaeth yn cynnwys gwahodd aelodau uwch ac iau o'r staff i gyfarfodydd diogelu er mwyn iddynt ymgyfarwyddo â phroses a chanlyniadau'r system:

> 'Rwy'n meddwl bod mwy o bobl briodol yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd. Er enghraifft, petaen ni'n gwahodd yr Arweinydd o'r Ysbyty, bydden ni hefyd yn gwahodd Prif Nyrs y Ward ac efallai rhywun iau. Felly maen nhw i gyd yn dod i ddeall y broses.'
>
> (Tîm Diogelu a Gwella Oedolion: 1)

Roedd gan Sir Gaerfyrddin bolisi drws agored lle y gallai asiantaethau arsylwi ar waith beunyddiol gwasanaethau gofal cymdeithasol ac adrannau amddiffyn oedolion:

> 'Mae'n bolisi drws agored lle y gall pobl ddod i mewn a chael eu cynnwys yn y broses, eistedd mewn swyddfa am y prynhawn a gweld beth sy'n digwydd a sgwrsio am y broses ac achosion a gofyn am unrhyw wybodaeth. Y polisi drws agored sy'n mynd i gefnogi hynny.'
>
> (Tîm Diogelu a Gwella Oedolion: 1)

Roeddent yn credu bod y polisi drws agored yn rhoi cyfle i ymarferwyr eraill ddeall y broses yn fwy manwl a sylweddoli beth oedd llwyth gwaith swyddogion amddiffyn oedolion:

> Cyfwelydd: 'Yn eich barn chi, faint o wybodaeth sydd gan ymarferwyr o drothwy AOAN?'
>
> Cyfwelai: 'Rwy'n meddwl bod pethau'n gwella. Dydw i ddim yn meddwl bod gweithwyr proffesiynol eraill yn gwerthfawrogi faint o waith mae'n ei olygu oni bai eu bod nhw'n dod ac yn eistedd i mewn. Ym mhob cyfarfod strategaeth nawr, fel rhan o'r broses, byddwn yn gwahodd gweithwyr proffesiynol eraill. Iechyd er enghraifft, Ambiwlans, Heddlu, Rheolwyr Achos, neu fe allai fod yn asiantaeth darparu, unrhyw un o'r rheini. Maen nhw'n deall y broses yn well oherwydd eu bod yn rhan ohoni o'r dechrau.'
>
> (Tîm Diogelu a Gwella Oedolion: 1)

Roedd pwyslais ar rymuso dioddefwyr. Aeth tîm AOAN ati'n fwriadol i fynd allan i'r gymuned leol gan gynnal cyfres o ddigwyddiadau cyhoeddusrwydd lleol i gryfhau'r ymwybyddiaeth o broses AOAN.

Roedd Sir Gaerfyrddin yn dangos gwybodaeth ardderchog am gam-drin domestig a deinameg y berthynas. Roeddent yn sylweddoli, o dan rai amgylchiadau, y gall unigolion fod dan orthrech yn y broses gydsynio. Roeddent yn mynd ati'n fwriadol i ystyried a oedd pobl dan bwysau ac os felly, byddent yn diystyru'r gofyniad i gael cydsyniad ac yn rhannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill pe tybid mai dyna fyddai er budd gorau'r unigolyn:

> Cyfwelydd: Os edrychwn ni ar fater cydsynio, beth sy'n digwydd os bydd y cleient yn gwrthod cydsynio ichi rannu gwybodaeth?
>
> Cyfwelai: 'Mae'n dibynnu. Os oes trosedd yn digwydd, gallwn ddiystyru hynny. Os yw'r dioddefwr dan bwysau dylanwad y camdriniwr, fe allwn ddiystyru hynny oherwydd os yw oedolion agored i niwed yn gallu cydsynio, yna, mae'n amlwg bod yn rhaid inni geisio'r cydsyniad hwnnw ganddyn nhw. Os bydd rhywun dan bwysau, yr hyn sydd gennych yw camfanteisio, rhoi pwysau ar rywun ac chodi ofn arnynt, wedyn fe allwn ni ddiystyru'r gofyniad i gael cydsyniad. Gallwn rannu gwybodaeth mewn unrhyw ffordd â thrydydd partïon a byddwn yn gwneud hynny.'
>
> (Tîm Diogelu a Gwella Oedolion: 1)

6. Argymhellion

Rheoli Data a Rhannu Gwybodaeth

1. Mae angen adnabod a chofnodi cam-drin a thrais domestig yn fwy cywir mewn achosion sy'n cynnwys pobl hŷn

Roedd yr ymchwil yn dangos, er bod y rhan fwyaf o ymarferwyr yn ymwybodol o'r diffiniadau o gam-drin a thrais domestig, nad oedd hyn bob tro'n golygu eu bod yn trosi'r wybodaeth hon yn ymarfer mewn achosion cam-drin a thrais domestig ymhlith pobl trigain oed a hŷn. Roedd yn gred gyffredinol nad oedd achosion cam-drin domestig bob tro'n cael eu dynodi'n gywir, na bod manylion perthnasol yn cael eu cofnodi ar systemau rheoli data. Mae i'r ffaith na fydd trais domestig o bosibl yn cael ei ddynodi'n gywir oblygiadau sylweddol o ran asesu risg (proses ddeinamig ar y cyfan) ar wahanol gamau yn y broses amddiffyn oedolion. Er enghraifft, gall gwybodaeth goll neu anghywir ddylanwadu ar ymgysylltu gan gleient; byddai diffyg gwybodaeth briodol yn effeithio hefyd ar y penderfyniad mewn cyd-destun amlasiantaeth ynglŷn ag a ddylid trosglwyddo'r dioddefwr unigol o broses yr AOAN i broses CAAR, a pha bryd ac yn ystod pa gam.

Byddai symud at drefn casglu data sy'n fwy seiliedig ar unigolion yn hytrach na chanolbwyntio ar setiau data cyfun o fudd mawr i'r trefniadau casglu data lleol ac yn sgil hynny i'r ffordd yr ymatebir wedyn i achosion cam-drin domestig. Mae hyn yn aml yn fater cymhleth iawn ac mae gan amlaf yn cynnwys mwy nag un math o gam-drin. Gall data cyfun roi ciplun o'r mathau o gam-drin y bydd pobl hŷn yn eu hwynebu. Serch hynny roedd rhai'n meddwl y gall y ffordd y defnyddir technegau ar hyn o bryd lurgunio neu guddio amrywiadau pwysig ym maes trais a cham-drin domestig. Mae data ar lefel unigolion yn cynnig dealltwriaeth fwy cyfoethog o brofiadau dioddefwyr o'r llwybrau atgyfeirio a darparu gwasanaethau. Er enghraifft, gall data ar lefel unigolion ateb cwestiynau fel:

- A yw natur y cam-drin domestig yn amrywio yn ôl y berthynas rhwng y dioddefwr/wyr a'r camdriniwr/wyr?
- A yw ymweliadau wyneb-yn-wyneb ynghyd â chysylltiad dros y ffôn yn fwy tebygol o wella'r ymgysylltu na dim ond dibynnu ar gysylltiad dros y ffôn?
- A yw cynnwys Eiriolwr Annibynnol Galluedd Meddyliol (EAGM) neu wasanaeth eiriolaeth annibynnol yn golygu ei bod yn fwy tebygol y caiff dioddefwyr gymorth mwy prydlon a phriodol gan asiantaethau cyfiawnder ac asiantaethau gofal cymdeithasol?

Does dim modd i ddata cyfun ateb y cwestiynau hyn, ond byddai setiau data ar lefel unigolion yn gallu gwneud hyn petaent yn cael eu defnyddio'n gywir ac yn rheolaidd fel rhan o'r ymarfer.

2. Mae angen gwella'r broses o gasglu a chwblhau data, a chryfhau'r ffordd y maent yn cael eu defnyddio wrth reoli achosion a phenderfynu.

Mewn rhai ardaloedd, roedd y systemau rheoli data'n cael eu defnyddio'n eithaf

effeithiol yn sail i'r broses benderfynu: serch hynny, mewn ardaloedd eraill teimlid y gellid cymryd nifer o gamau i wella ansawdd y casglu data a'r cofnodi data wrth reoli achosion o ddydd i ddydd, at ddibenion rhannu gwybodaeth a chyfathrebu arferion da. Roedd rhai ymarferwyr yn meddwl y bydd hyd yn oed rhai o'r systemau rheoli data sydd wedi'u cynllunio'n well, yn llai gwerthfawr wrth i'r ymarfer esblygu oni chedwir golwg ofalus ar brosesau rheoli ansawdd. Gall ansawdd y data gael ei erydu hefyd dros gyfnod oni wnaiff staff y rheng flaen neu staff rheoli data fonitro cywirdeb neu gyflawnder y wybodaeth sy'n cael ei diweddaru ar y SRhD.

Roedd yr ymchwil yn dangos y gallai llawer o awdurdodau lleol gryfhau eu trefniadau casglu gwybodaeth ar gyfer dioddefwyr/unigolion unigol drwy:

- Wella'r dull o gasglu a chadw data;
- Hyfforddi'r asiantaeth i gyd am rannu gwybodaeth;
- Creu dynodyddion unigryw, unigol ar gyfer dioddefwyr;
- Casglu data wedi'u safoni a heb eu safoni ar gyfer camdrinwyr honedig;
- Cofnodi gwybodaeth gywir am amseru digwyddiadau ac ymatebion asiantaethau.

3. Rhaid i Systemau Rheoli Data fod yn glir ac yn gyson wrth ddweud pa ddata sydd eu hangen a rhaid i systemau o'r fath fod yn hawdd eu defnyddio. Rhaid ei gwneud yn glir hefyd i ymarferwyr sut y gallant ddefnyddio'r data hynny yn y ffordd orau er budd pobl hŷn sy'n cael eu cam-drin.

Mae'n ymddangos bod nifer o ddulliau o storio data'n cael eu defnyddio ym maes amddiffyn oedolion a hefyd ar draws grwpiau eraill yn y sector statudol a'r trydydd sector. Roedd y taflenni casglu data meintiol yn dangos bod ansicrwydd cyffredinol ynghylch pa mor hir y gallai swyddogion amddiffyn oedolion gadw gwybodaeth ar eu SRhD.

Y gred gyffredinol oedd bod y math o systemau cadw data'n yn golygu gan amlaf ryw fath o gadw cofnodion ar ffurf gyfrifiadurol. Serch hynny, nid oedd ymarferwyr yn sicr pa mor ddefnyddiol oedd eu systemau rheoli data ac roedd llawer yn dweud y dylai gwasanaethau amddiffyn oedolion edrych eto ar eu systemau casglu data presennol a sicrhau bod a) rhagor o sylw'n cael ei roi i'r math o wybodaeth a oedd yn cael ei chadw a b) bod y prosesau adennill data'n llai trwsgl ac yn llai o draul ar amser.

Roedd diffyg cysondeb y casglu data, hyd yn oed o fewn asiantaethau hefyd yn destun pryder mawr i ymarferwyr. Teimlai'r ymarferwyr fod angen rhagor o ganllawiau am ba wybodaeth y dylid ei safoni a pha wybodaeth ychwanegol a allai fod o ddefnydd.

Roedd i ba raddau yr oedd systemau'n gweithio'n effeithiol yn dibynnu nid yn unig ar gynllun y system ac ansawdd monitro cywirdeb yn rheolaidd, ond hefyd ar sgiliau'r ymarferwyr yn y broses honno a'u hymwybyddiaeth o bwysigrwydd casglu data da er mwyn rheoli risg. Er enghraifft, roedd rhai ymarferwyr yn dda iawn am drin cyfrifiadur ac wedi cyfrannu'n sylweddol at wella cynllun y SRhD. Ni allai eraill

weld gwerth y broses SRhD ac roeddent yn osgoi defnyddio'r system gan ffafrio defnyddio dulliau ad hoc a'u systemau cofnodi unigol eu hunain.

4. Roedd angen rhagor o hyfforddiant ar bob asiantaeth ym maes amddiffyn oedolion am rannu gwybodaeth gan wneud y sefyllfa'n eglurach, yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

Mae rhannu gwybodaeth yn bwnc llosg o hyd, er enghraifft, dywedodd swyddogion yr heddlu fod AOAN yn gyndyn o rannu gwybodaeth â'r heddlu. At hynny, roedd amharodrwydd cyffredinol i rannu gwybodaeth am gamdrinwyr honedig. Roedd ymatebion gweithwyr proffesiynol AOAN a gwasanaethau'r heddlu'n awgrymu bod asiantaethau cyfiawnder anhroseddol yn ansicr o hyd am ofynion Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998 o ran lefelau risg, cydsynio ar sail gwybodaeth, ac i ba raddau y mae partneriaid yn gyfreithiol rydd i rannu gwybodaeth bersonol a/neu sensitif gydag asiantaethau partner. Er bod canllawiau o'r fath ar gael yn rhwydd, roedd llawer o asiantau lleol yn dal yn ansicr ynghylch pa gyfyngiadau a oedd ar waith wrth rannu ag asiantaethau partner. Felly, weithiau, byddent yn orofalus ac yn dewis peidio â rhannu data â neb. Mae gofyn darparu rhagor o hyfforddiant asiantaeth gyfan ar brotocol rhannu gwybodaeth ac ar agweddau o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 sy'n ymwneud â risg a chyfrinachedd.

5. Byddai defnyddio dynodyddion unigryw ar gyfer unigolion yn golygu bod rhannu data'n fwy effeithlon ac effeithiol oherwydd y byddai mwy o ganolbwyntio ar setiau data ar lefel unigolion a allai ddarparu data cyfoethocach o lawer.

Gall rhai systemau gynhyrchu rhifau achos unigryw'n awtomatig ond os oeddent yn seiliedig ar achos neu ar ddigwyddiad, nid oeddent bob tro'n cynnwys dynodyddion ar gyfer unigolion y gellid eu cymharu â'i gilydd.

Byddai dynodyddion ar lefel unigolion yn golygu bod rhannu data'n fwy effeithiol ac effeithlon o lawer. Mae dynodyddion unigryw ar gyfer dioddefwyr yn golygu bod llai o risg o ran diogelu data. Byddai defnyddio dulliau o'r fath yn help i ardaloedd lleol asesu eu hymarfer eu hunain oherwydd eu bod yn canolbwyntio ar setiau data seiliedig ar lefel yr unigolyn, a byddai'r broses hefyd yn golygu bod modd i ardaloedd rannu crynodebau am eu gwaith gydag ardaloedd eraill.

Gellir defnyddio sawl dull i gyflawni 'gwiriadau ansawdd data'. Mae'n bosibl cynllunio systemau TG a rheoli data i sicrhau bod agweddau allweddol ar wybodaeth yn gorfod cael eu cofnodi er mwyn cadw achos newydd neu achos sy'n ailddigwydd ar y system. Gwybodaeth arall a allai gryfhau'r broses casglu gwybodaeth i ddioddefwyr fyddai:

- Defnyddio dyddiad geni yn hytrach nag oedran rhifol
- Cofnodi ethnigrwydd, oherwydd fe all fod angen bod yn fwy sensitif i grwpiau o bobl Dduon a rhai o Leiafrifoedd Ethnig wrth ymdrin â cham-drin domestig, yn enwedig yng nghyswllt digwyddiadau o drais er anrhydedd.
- Ystyriaethau ynghylch galluedd meddyliol a manylion parhaus prosesau asesu mewn achosion lle bydd galluedd yn mynd a dod.

- Mathau o anabledd a manylion salwch cronig
- Defnyddio cymorth eiriolwr (EATD, EAGM neu fath arall)
- Cysylltiadau anffurfiol â grwpiau yn y gymuned

6. Mae angen deall yn well yr amgylchiadau a allai arwain at gam-drin a hefyd cymhlethdodau sefyllfa ddibynnol dioddefwr hŷn, bywyd y teulu a'r canlyniadau sy'n ddymunol. Rhaid cadw cofnodion trwyadl sy'n creu darlun clir o fywydau'r dioddefwr a'r camdriniwr, sut maen nhw'n rhyngweithio â'i gilydd a pha gymorth sydd wedi'i ddarparu o'r blaen.

A chofio nad yw'r amgylchiadau sy'n gallu arwain at gam-drin bob tro'n syml, mae'n bwysig cael gwybodaeth fanwl am unigolion sy'n cam-drin pobl eraill. Mae lefel o ryngddibyniaeth yn aml rhwng dioddefwyr a chamdrinwyr a'u cysylltiadau ag aelodau eraill o'r teulu. Felly, bydd unrhyw benderfyniad a wneir gan y dioddefwr ynghylch ymgysylltu â'r opsiwn cyfiawnder a'r opsiwn gofal cymdeithasol yn aml yn dibynnu ar y rheini y maent yn poeni amdanynt. Bydd dioddefwyr yn aml yn gofyn am help a chymorth i'r camdriniwr er mwyn rhoi diwedd ar y cam-drin. Weithiau, bydd angen ymateb cydlynol yn y gymuned i ddatrys y broblem gan weithio ochr yn ochr â'r camdrinwyr a'r dioddefwyr. Roedd rhai ymarferwyr ac arbenigwyr ym maes cam-drin domestig pobl hŷn yn sylweddoli bod gofyn cael llawer mwy o wybodaeth am y camdriniwr honedig nag sy'n cael ei chasglu ar hyn o bryd er mwyn asesu a rheoli'r risg barhaus yn iawn, i hyrwyddo ymgysylltu ac i sicrhau canlyniad effeithiol i'r person hŷn, yn unol a'u dymuniadau lle bynnag y bydd hynny'n bosibl.

Roedd ymarferwyr yn teimlo y byddai bwydo'r wybodaeth ganlynol i'r SRhD yn rheolaidd yn sail well ar gyfer y broses benderfynu wrth helpu dioddefwyr cam-drin domestig:

- Dogfennu'r holl wahanol fathau o gam-drin a natur y cam-drin;
- A oes elfen o gamddefnyddio sylweddau ac a oedd y camdriniwr honedig yn ceisio help ar gyfer y camddefnyddio sylweddau hwnnw;
- Anghenion iechyd meddwl y camdriniwr honedig;
- Opsiynau llety amgen;
- Penderfynu a yw'r camdriniwr ei hun yn oedolyn sy'n wynebu risg, ac, os felly, sicrhau bod y data hyn yn cael eu rhannu ar draws ffeiliau achos y dioddefwr a'r camdriniwr honedig;
- Lefel y cysylltiad rhwng y camdriniwr honedig a'r dioddefwr a'r adegau pan na fyddai'r y camdrinwyr yng nghartref y teulu;
- Nodi a yw'r cam-drin honedig yn digwydd oherwydd bod y camdriniwr yn gweithredu mewn modd mwy rhagweithiol neu adweithiol a monitro neu ddarparu cymorth ar gyfer unrhyw amgylchiadau a allai arwain at gynyddu'r risg;
- Lefel y cysylltiad, ffurfiol ac anffurfiol rhwng y dioddefwr a phobl eraill a natur y berthynas hon.

Mae gan bartneriaid asiantaethau gyfrifoldeb hefyd i roi cynlluniau amddiffyn oedolion ar waith. Mae hyn yn gysylltiedig â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) bod unrhyw gofnod o ganfyddiadau ymchwiliad 'oedolyn mewn perygl' yn cael eu rhoi ar y cynllun gofal a chymorth. Roedd ymarferwyr yn meddwl nad oedd cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith ar lawer achlysur. Mae gofyn cynnal rhagor o drafodaethau ar lefel uwch ynghylch sut i fynd i'r afael â'r sefyllfa lle na fydd asiantaethau partner yn cydymffurfio â chynlluniau gweithredu.

Mae cael gwybodaeth am lefel y cymorth ychwanegol a roddir i ddioddefwyr a chamdrinwyr gan weithwyr proffesiynol a hyd a lled y cymorth hwnnw'n bwysig er mwyn barnu effeithiolrwydd y cynllun gweithredu a phenderfynu a oes angen camau pellach neu ar gyfer yr unigolion hynny a allai ddod yn ddioddefwr eto. Gallai casglu manylion wedi'u safoni am gamau blaenorol, yn enwedig ynghylch ymateb darparwyr gwasanaethau allanol i'r cynllun gweithredu, fod yn fuddiol, er enghraifft, ' trin camddefnyddio sylweddau' neu 'lety amgen'.

7. Mae gwybodaeth am amseru'r digwyddiad ac atgyfeirio ailadroddus yn wybodaeth werthfawr er mwyn adeiladu darlun cyflawn a dylid cofnodi hynny'n gywir. Argymhellir y gellid defnyddio dull cronoleg Caerffili ym mhob awdurdod lleol, a'i deilwra'n arbennig ar gyfer anghenion penodol pob tîm AOAN ac yn unol â'r gwasanaeth allanol sydd ar gael yn yr ardal.

Er y gall fod yn eithaf anodd cofnodi union amserau'r digwyddiadau, yn enwedig lle bydd hanes hir o gam-drin domestig, dylid annog asiantaethau i neilltuo dyddiadau i ddigwyddiadau, gan nodi amser creu'r cysylltiad a chroesgyfeirio hyn â'r amserau lle mae asiantaethau eraill wedi bwydo i'r broses. Byddai hyn yn golygu bod ymarferwyr lleol yn gall cadw darlun mwy manwl o ddioddefwyr unigol a dadansoddi faint o amser a dreuliwyd ar gynlluniau amddiffyn blaenorol a chyfredol. Byddai hyn yn cynnig gwell cyfle i weld ar ba adegau y mae'r camdriniwr mewn sefyllfa i newid ei ymddygiad a pha bryd y bydd gofyn rhoi rhagor o gymorth allanol i'r dioddefwr.

Gall model cronoleg amlasiantaeth Caerffili, lle y bydd ymarferwyr yn gallu archwilio ymatebion blaenorol i atgyfeiriad ailadroddus fod yn sail i'r broses asesu risg a phenderfynu bresennol. Mae i'w weld yn ddull syml ac eto'n ddull pwerus sy'n anelu at wella'r ymgysylltu â'r cynllun gweithredu a lleihau'r tebygolrwydd o'r syndrom 'drws tro'. Er bod rhai enghreifftiau da o dechnegau tebyg yn cael eu defnyddio mewn rhai awdurdodau lleol, roedd rhai'n meddwl ar lefel leol fod angen modelau mwy deallus i fynd i'r afael ag atgyfeiriadau ailadroddus. Argymhellir y gellid defnyddio dull cronoleg Caerffili ym mhob awdurdod lleol, a'i deilwra'n arbennig ar gyfer anghenion penodol pob tîm AOAN ac yn unol â'r gwasanaethau allanol sydd ar gael yn yr ardal.

8. Mae angen sylweddoli'n well beth yw natur y cam-drin a'r berthynas gamdriniol wrth gynnig opsiynau ar gyfer darparu cymorth a mynediad at gyfiawnder.

Bydd camdrinwyr yn aml yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i danseilio hyder y dioddefwr, i ynysu'r dioddefwr yn gymdeithasol a gwadu llais iddynt mewn unrhyw broses benderfynu yn y man lle maent yn byw - naill ai yn eu cartref eu hunain neu

mewn lleoliad arall. Felly, mae angen cymorth helaeth i helpu'r dioddefwyr i deimlo'u bod wedi'u grymuso er mwyn iddynt fod mewn sefyllfa i wneud dewis go iawn. Yn yr un modd, os bydd pobl hŷn yn cael eu targedu gan droseddwyr casineb, byddant yn aml heb ddim cymorth ac fe all ofn a'r ffaith eu bod wedi'u hynysu eu hatal rhag ymgysylltu.

Lle bydd y dioddefwr yn rhiant neu'n daid neu'n nain i'r camdriniwr, rhaid hyfforddi ymarferwyr i osgoi 'theorïau' neu fythau fod y dioddefwr wedi 'gofyn am hyn' oherwydd na wnaeth fagu plant/wyrion i ddangos parch tuag ato. Mae angen helpu dioddefwyr i beidio â theimlo euogrwydd neu gyfrifoldeb di-sail am ymddygiad camdriniol eu plant/wyrion.

Mae'r ymchwil yn dangos bod rhai pobl y cyfwelwyd â hwy'n poeni bod cyfraddau erlyn achosion o drais domestig a throseddau casineb yn eithriadol o isel ar gyfer achosion amddiffyn oedolion dros drigain oed o'u cymharu â grwpiau oedran eraill. Mae'n gamargraff cyffredin na fydd pobl hŷn yn gwneud tystion da, efallai oherwydd stereoteipiau sy'n eu darlunio'n bobl 'anghofus' neu 'fregus'. Nid yw hyn fel rheol yn wir, a dylid herio rhagdybiaethau o'r fath.

9. Bydd angen hyfforddiant ar ymarferwyr mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau wrth ymdrin â gwahanol fathau o gam-drin pobl hŷn, sut y dylid ymateb i'r gwahanol fathau hyn o gam-drin a sut maen nhw'n gorgyffwrdd â'i gilydd.

Roedd data'r cyfweliadau'n awgrymu bod ceisio datgelu cam-drin domestig i weithwyr y rheng flaen, yn enwedig gan ddioddefwyr hŷn, yn eithriadol o anodd a bod angen cryn ddewrder i wneud hyn. Serch hynny, roedd yn amlwg bod cleientiaid yn llawer mwy tebygol o droi eu cefn ar y broses yn ystod y camau cychwynnol, a hynny'n aml adeg y cysylltiad cyntaf. Roedd y cymhelliant i ymgysylltu'n aml yn dibynnu ar sut y bydd yr ymarferydd y datgelwyd y cam-drin iddo yn ymateb i'r dioddefwr. Roedd ymarferwyr yn poeni nad oedd rhai o'u cydweithwyr ac asiantaethau partner yn ymateb yn briodol. Cyfaddefodd rhai ymarferwyr eu bod yn ansicr beth i'w ddweud wrth rywun hŷn sy'n wynebu cam-drin domestig, yn enwedig os bydd y camdriniwr yn digwydd bod yn rhywun sy'n blentyn i'r dioddefwr. Mae'r rhan fwyaf sy'n dioddef troseddau casineb o dan gamargraff nad yw troseddau casineb yn digwydd yn aml iawn. Teimlai ymarferwyr fod angen rhagor o wybodaeth arnynt am sut i adnabod troseddau casineb ac ymateb iddynt, gan fod hwn yn faes nad yw'r rhan fwyaf o asiantaethau'n sylweddoli eu bod wedi dod i gysylltiad ag ef.

Mae angen hyfforddiant helaeth am sut mae ymateb yn briodol i ddatgelu cam-drin ac mae gofyn cael rhagor o wybodaeth am sut mae cynghori pobl hŷn am yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i'w cadw'u hunain yn ddiogel.

Teimlai tîm AOAN y dylai'r rhan fwyaf o ymarferwyr allanol fod yn fwy rhagweithiol wrth ddilyn gweithdrefnau diogelu a datblygu mwy o ymdeimlad o berchnogaeth o'r broses. Awgrymwyd yn aml fod ymarferwyr y tu allan i'r gwasanaethau cymdeithasol, e.e. iechyd, yn cyfeirio achosion at AOAN heb geisio cael y dioddefwr unigol i gydsynio; nid oedd asiantaethau partner ychwaith ar brydiau'n cymryd y camau angenrheidiol i ddiogelu'r unigolyn ac i drosglwyddo manylion am y camau

a gymerwyd i weithwyr proffesiynol AOAN. Roedd ymarferwyr AOAN yn teimlo bod diffyg dealltwriaeth am y broses atgyfeirio ymhlith llawer o asiantaethau ac mae hyn yn rhywbeth y mae angen i dimau AOAN roi sylw iddo gan eu bod yn ei deall yn well na'r rhan fwyaf.

Mae'n amlwg hefyd y gallai meddygon teulu'n benodol gymryd rhan fwy gweithredol o lawer ym mhroses yr AOAN a dylent i gyd orfod cael eu hyfforddi ym mhrosesau'r AOAN a'r CAAR.

10. Rhaid darparu canllawiau llawer mwy eglur a chyson am drothwyon amddiffyn oedolion, asesiadau risg cywir a'r cysylltiadau rhwng amddiffyn oedolion a cham-drin domestig fel nad yw pobl hŷn yn 'disgyn rhwng y bylchau'. Dylid gwneud hyn yn y canllawiau sy'n cyd-fynd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Dylid rhoi canllawiau eglurach hefyd i asiantaethau am eu rôl a'u cyfrifoldebau yn y broses amddiffyn oedolion.

I bobl hŷn nad ydynt yn cyrraedd y trothwy, bydd llawer o achosion yn cael eu gadael 'rhwng asiantaethau a heb gymorth clir', felly awgrymir y dylid llunio canllawiau clir sy'n dweud pa asiantaeth statudol sy'n gyfrifol am reoli'r achos pan na fydd achosion yn cyrraedd gofynion y prawf trothwy. Rhaid iddi fod yn glir hefyd pwy sy'n gyfrifol am reoli'r achos pan fydd person hŷn yn dioddef cam-drin domestig a bod angen cymorth hefyd gan y gwasanaethau cymdeithasol. Mewn rhai ardaloedd, dilynir system lle y byddant yn sicrhau, os na fydd yr atgyfeiriad yn cyrraedd y trothwy ar dri achlysur gwahanol, a'i bod yn briodol gwneud hynny, bod yr atgyfeiriad yn cael ei gofnodi ar broses AOAN pan ddaw atgyfeiriad arall. Gweler yr Adran 'Arferion Da'.

Lle bydd unigolion yn cyrraedd y trothwy, mae'n bwysig bod yr atgyfeiriwr cychwynnol ac unrhyw asiantaethau partner eraill cysylltiedig yn llawer mwy rhagweithiol o ran cynorthwyo gweithwyr proffesiynol AOAN yn y broses casglu gwybodaeth. Mae'n hollbwysig bod atgyfeirwyr yn dod i'r Cyfarfodydd Strategaeth a dywedodd llawer o ymarferwyr y dylai fod yn orfodol iddynt ddod i'r cyfarfodydd hyn. Teimlai gweithwyr proffesiynol AOAN nad oeddent bob tro'n cael digon o gymorth gan asiantaethau allanol a bod hyn yn golygu bod y broses yn draul ar amser ac nad yw'n adeiladol.

11. Dylai dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn fod yn ganolog i unrhyw broses i ddiogelu neu amddiffyn pobl hŷn, a dylai'r prosesau sicrhau eu bod yn cynnal hawliau dynol pobl hŷn mewn ffordd ragweithiol.

Er mwyn hwyluso ymgysylltu â chleientiaid, mae'n bwysig bod ymarferwyr yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y cleient, yn hytrach na dull o'r brig i lawr. Mae hyn yn golygu cynnwys pobl yn ystod pob cam o'r broses, ac mae cysylltiad wyneb yn wyneb â'r cleient unigol yn well na rheoli'r achos dros y ffôn. Mae defnyddio rhagor ar eiriolwyr annibynnol yn cael ei argymell er mwyn sicrhau bod gan bobl hŷn lais. Roedd yn amlwg o'r data a gasglwyd ar gyfer yr astudiaeth hon nad oedd EATD nac EAGM yn cael eu defnyddio i'r eithaf, nac asiantaethau'r trydydd sector ychwaith.

Ac ystyried natur trais domestig, a'r lefel uwch o risg i ddioddefwyr o du camdrinwyr pan fydd asiantaethau'n dod yn ymwybodol o'r sefyllfa, bydd gofyn cynllunio'r ymgysylltu â dioddefwyr yn ofalus iawn. Lle bydd hynny'n briodol, mae'n hanfodol cynnwys yr heddlu'n gynnar yn ystod achos. Mewn sefyllfa lle byddant yn cael eu 'galw allan', gall yr heddlu chwarae rhan bwysig yn sefydlu cysylltiad wyneb yn wyneb â'r dioddefwr, yn meithrin ymddiriedaeth, cynllunio ar gyfer diogelwch a thrafod opsiynau lles a chyfiawnder â'r dioddefwr pan fydd y camdriniwr wedi'i symud o'r fan a'r lle. Bydd yr heddlu hefyd yn defnyddio'r rhestr wirio ac yn dilyn strategaeth ddilynol i geisio cynyddu cyfleoedd i ymgysylltu â dioddefwyr. Er nad yw'r dull hwn heb ei wendidau, gall y broses trais domestig ddarparu gwybodaeth fanwl am y dioddefwr a'r camdriniwr gan ei gwneud hi'n fwy tebygol y bydd yr ymateb yn fwy cywir. Mae'r broses hefyd yn darparu llwybr at ystod o arbenigwyr ym maes cam-drin domestig.

Ar hyn o bryd, nid yw gweithwyr proffesiynol AOAN mewn sefyllfa i ymyrryd, ac mae proses newydd yr APSO, yn enwedig mewn achosion trais domestig o bosibl yn broblem ac ystyried y gall y camdriniwr fod yng nghyffiniau'r dioddefwr, hyd yn oed os nad yw yn yr un ystafell, felly mae 'siarad yn rhydd' a siarad 'yn breifat' yn gryn her. Wrth adael yr eiddo, mae'n bosibl y bydd y dioddefwr yn teimlo'n agored iawn i ganlyniadau o du'r camdriniwr oni fydd strategaeth ymadael gynhwysfawr wedi'i rhoi ar waith i ddiogelu'r dioddefwr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dewis peidio â mabwysiadu model amddiffyn oedolion yr Alban, sy'n gadael i'r gwasanaethau cymdeithasol symud oedolyn o'u cartref heb iddynt gydsynio'n benodol i hynny, os byddant o dan orthrech er mwyn siarad â nhw'n breifat a rhoi camau cymorth ac amddiffyn ar waith i'w cynorthwyo.

Mae angen ystyried sut mae cysylltu'r APSOs â defnyddio gorchmynion amddiffyn rhag trais domestig lle y bydd y drwgweithredwr o bosibl yn cael ei symud o'r eiddo, fel strategaeth i amddiffyn dioddefwyr trais domestig hŷn yn well. Gallai cynyddu'r defnydd o orchmynion sifil i symud y drwgweithredwr o'r eiddo hefyd roi rhagor o gyfle i asiantaethau ymgysylltu â dioddefwyr a'u cefnogi.

12. Dylid integreiddio'r AOAN a'r CAAR yn well.

Mae'n amlwg y bydd y lefel o gymorth a'r math o gymorth y bydd ei angen ar ddioddefwyr hŷn yn amrywio ar wahanol bwyntiau yn y broses, a hynny o ran gofal cymdeithasol a chyfiawnder. Nid yw ymarferwyr AOAN ar hyn o bryd yn tueddu i ddefnyddio llwybrau'r rhestr wirio, CAAR ac EATD i ddioddefwyr hŷn pan fyddai, mewn gwirionedd, o fudd i'r dioddefwr ddefnyddio gwasanaethau sydd wedi'u bwriadu i ymateb i gam-drin domestig.

Mae'r arferion presennol yn awgrymu nad yw asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn defnyddio pecyn y rhestr wirio i'r eithaf i asesu risg trais domestig a'i gyfeirio i broses AOAN ac mae hyn yn destun rhywfaint o bryder. Mae'n hanfodol integreiddio prosesau CAAR ac AOAN er mwyn sicrhau ymateb priodol i ddioddefwyr unigol ac i fanteisio ar arbenigeddau'r naill lwybr a'r llall. Argymhellir mynd ati fesul achos gan roi cyfarwyddyd clir am rolau ymarferwyr a monitro'r canlyniadau'n ofalus. Mae'n hanfodol cyfathrebu'n rheolaidd ac yn fanwl ar draws y

llwybrau amlasiantaeth er mwyn osgoi dyblygu.

Dylai ymarferwyr geisio mabwysiadu model sy'n sicrhau mwy o integreiddio rhwng yr AOAN a CAAR mewn achosion cam-drin domestig i wella cyfleoedd lles a chyfiawnder i ddioddefwyr a chreu mwy o opsiynau i ddioddefwyr hŷn o ran cyfraniad y trydydd sector a chymorth eiriolwyr annibynnol.

13. Dylai awdurdodau tai a gwasanaethau gael rhagor o hyfforddiant ac ymwneud yn fwy brwd â diogelu pobl hŷn.

Roedd awdurdodau tai'n cynnig cyfle delfrydol i gysylltu â dioddefwyr cam-drin domestig a throseddau casineb. Mewn awdurdodau lleol, roedd llawer o ffyrdd lle y gallai'r gwasanaethau tai ddefnyddio'u pwerau cyfreithiol i sicrhau canlyniadau cadarnhaol mwy diogel. Roedd cydnabyddiaeth helaeth y dylai gwasanaethau tai fod yn ymwneud yn fwy brwd â chamau diogelu. Lle'r oedd adrannau tai wedi bod yn ymwneud a'r broses, dywedwyd bod y strategaethau a ddefnyddiwyd gan amlaf wedi bod yn effeithiol iawn.

Er bod llai o gyfle i ymyrryd mewn tai sy'n eiddo i'w preswylwyr, roedd rhai cymdeithasau tai wedi dyfeisio dulliau i'w cleientiaid riportio troseddau casineb neu gam-drin domestig sy'n llai tebygol o godi amheuaeth o du'r camdrinwyr. Byddai marchnata a hybu dulliau diogel o gael gafael ar gymorth tai a riportio cam-drin mewn ffordd gyfrinachol yn golygu ei bod yn fwy tebygol y byddai dioddefwyr yn riportio'u profiadau.

7. Llyfryddiaeth

Abrahams, H. (2007) 'Supporting Women after Domestic Violence: Loss, trauma and recovery', Llundain: Jessica Kingsley.

Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (2012) Joint CPS and ACPO Evidence Checklist http://www.acpo.police.uk/documents/crime/2012/20121127%20Joint%20CPS%20and%20ACPO%20Domestic%20Violence%20Charging%20Checklist%20Launch.pdf

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (2010) ''Arolygiad Cenedlaethol o Amddiffyn Oedolion: Trosolwg Cymru Gyfan'. http://chttp://cssiw.org.uk/our-reports/national-thematic-report/2010/national-inspection-of-adult-protection/?lang=cy [Cyrchwyd 20ain Gorffennaf 2012]

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (2013) 'Adroddiad Monitro Amddiffyn Oedolion 2010-2012'.

Clarke, A., Williams, J., Wydall, S. a Boaler, R. (2012) Gwerthusiad o Brosiect Peilot Mynediad i Gyfiawnder', Llywodraeth Cymru. http://wales.gov.uk/docs/caecd/research/121220accesstojusticecy.pdf

Clarke, A. a Wydall, S. (2013) 'Making Safe' A Coordinated Community Response to Empowering Victims and Tackling Perpetrators of Domestic Violence' Social Policy and Society, Cyfrol 12 (3), tt. 393-406. http://journals.cambridge.org/repo_A89gBFrv

Clarke, A. a Wydall, S. (2013) 'From Rights to Action': Practitioners' perceptions of the needs of children experiencing domestic violence', Child and Family Social Work. http://onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1111/cfs.12066/abstract

Deddf Trosedd ac Anrhefn (1998)

Deddf Diogelu Data (1998), Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Egwyddor 3) http://www.ico.org.uk/for_organisations/data_protection/the_guide/the_principles [Cyrchwyd 4ydd Rhagfyr 2013]

Davies, R. et al. (2011) 'Exploring the Motivations of Perpetrators Who Abuse Vulnerable Adults', Prifysgol Cymru, Casnewydd. http://udid.research.glam.ac.uk/media/files/documents/2012-10-11/Final_Report_post_peer_review_June_2012.pdf [Cyrchwyd 26ain Mawrth 2013]

Yr Adran Iechyd (2000) 'No Secrets: Guidance on Developing and Implementing Multi-Agency Policies and Procedures to Protect Vulnerable Adults from Abuse', Llundain: Y Llyfrfa.

Eadie, T. a Knight, C. (2002) 'Domestic violence programmes: reflections on the shift from independent to statutory provision', The Howard Journal, 41 (2), tt. 167-181.

Hall, N. (2013) 'Hate Crime', 2il argraffiad, Abingdon, Oxon: Routledge.

Harvie, P. a Manzi, T. (2011) 'Interpreting multi-agency partnerships: Ideology, discourse and domestic violence', Social and Legal Studies, 20 (1), tt. 79-95.

Harwin, N., Hague, G. a Malos, E. (1999) 'The Multi-Agency Approach to Domestic Violence: New Opportunities, Old Challenges?', Llundain: Whiting a Birch Ltd.

Tîm Dadansoddi Gwybodaeth ac Iechyd (2006) 'Deprivation and Health: Ceredigion', Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Hester, M. (2009) 'Who Does What to Whom? Gender and Domestic Violence Perpetrators', Prifysgol Bryste ar y cyd â'r Northern Rock Foundation, Bryste. http://www.bristol.ac.uk/sps/research/projects/reports/2009/rj4843/whodoeswhat.pdf [Cyrchwyd 9fed Ebrill 2014]

Y Swyddfa Gartref (1995) 'Inter-agency Circular: Inter-agency Co-ordination to Tackle Domestic Violence', Llundain: Y Swyddfa Gartref a Swyddfa Cymru.

Y Swyddfa Gartref (2003) 'Safety and Justice: The Government's Proposals on Domestic Violence', Llundain: Y Swyddfa Gartref

Y Swyddfa Gartref (2013) 'Domestic abuse'. http://www.homeoffice.gov.uk/crime/violence-against-women-girls/domestic-violence/ [Cyrchwyd 4ydd Rhagfyr2013]

Y Swyddfa Gartref, Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder (2013) 'An Overview of Hate Crime in England and Wales', Llundain (t. (11).

Hoyle, C. a Sanders, A. (2000) 'Police response to domestic violence', British Journal of Criminology, 40 (1), tt. 14-36.

Cynulliad Cenedlaetol Cymru (2000) 'Mewn Dwylo Diogel: Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed yng Nghymru', Caerdydd

Canolfan Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol y GIG (2013) http://www.hscic.gov.uk/

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2011) 'Amddiffyn Pobl Hŷn yng Nghymru: Canllaw i'r Gyfraith' (2014).

Richards, M. a Kaye, A. (2011) 'Adult Protection and Domestic Abuse: Strengthening the Links', Adroddiad Interim, Prosiect Peilot Powys.

Shepard, M., Falk, D. ac Elliott, B. (2002) 'Enhancing coordinated community responses to reduce recidivism in cases of domestic violence', Journal of Interpersonal Violence, 17 (5), tt. 551-569.

Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Bil arfaethedig Llywodraeth Cymru (2012) 'Ending Violence against Women and Domestic Abuse Bill': Argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/consultation/121126taskfingrouprepen.pdf [Cyrchwyd 11eg Ionawr 2013]

Polisi a Gweithdrefnau Interim Cymru i Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed rhag Camdriniaeth (2013)

Welsh, K. (2008) 'Partnership or palming off? Involvement in partnership initiatives on domestic violence', The Howard Journal, 47 (2), tt.170-188.

Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (2013) http://www.waspi.org

Williams, J. (2010) ‘Elder abuse’ Yn Brookman, F., Maguire, M., Pierpoint, H. a Bennett, T. (gol) ‘Handbook on Crime’, Dyfnaint: Willan, Cullompton, tt. 415-27.

Williams, J., Wydall, S. a Clarke, A. (2013) ‘Protecting older victims of abuse who lack capacity: the role of the Independent Mental Capacity Advocate’, Elder Law Review Issue 2 (3), tt. 167-174.

Wydall, S. a Clarke, A. (2011) ‘Making Safe’ – Re-housing perpetrators of domestic abuse: Evaluation report’, Awdurdod Lleol Gogledd Swydd Efrog.

8. Atodiadau

Atodiad A

Patrwm enghreifftiol o ymarfer: amddiffyn oedolion a cham-drin domestig

Mae'r tabl isod yn nodi'r prif gamau i'w cymryd pan fydd dioddefwr cam-drin domestig hefyd o bosibl yn oedolyn agored i niwed, yn unol â diffiniad Polisi a Gweithdrefnau Interim Cymru, a phan fydd oedolyn agored i niwed efallai'n ddioddefwr trais domestig [Richards, M. a Kaye, A. (2011) *Adult Protection and Domestic Abuse: Strengthening the Links*, Adroddiad Interim, Prosiect Peilot Powys].

Cam-drin Domestig	Amddiffyn Oedolion
Datgelu neu amau cam-drin • Os bydd dioddefwr i'w weld yn oedolyn agored i niwed, dylai pob Asiantaeth ei gyfeirio at amddiffyn oedolion (ni waeth a yw'r camdriniwr honedig yn bartner/ yn gyn-bartner neu'n berthynas perthyn mewn rhyw fodd arall i'r dioddefwr honedig neu beidio). **Cwblhau Rhestr Wirio Adnabod Risg (CAADA DASH)** • Dilyn Llwybr atgyfeirio Cam-drin Domestig i gwblhau'r Rhestr Wirio. • Ar ôl llenwi'r Rhestr Wirio, os yw'n ymddangos y gall dioddefwr honedig fod yn oedolyn agored i niwed, cyfeirio'r achos at amddiffyn oedolion (ni waeth ai uchel, canolig neu isel yw canlyniad yr asesiad risg ac ni waeth beth yw'r asesiad o'r gallu i gydsynio i'r atgyfeirio) **CAAR** • Cyn y cyfarfod bydd yr Asiantaethau'n gwirio i weld a oes unrhyw un sydd wedi'i gyfeirio atynt eisoes yn hysbys iddynt. Yn achos Gwasanaethau i Oedolion, rhoi gwybod i'r Rheolwr Tîm	**Atgyfeirio** • Dylid cynnwys gwybodaeth ynglŷn ag a yw'r camdriniwr honedig yn bartner/cyn bartner neu'n perthyn mewn rhyw fodd arall i'r dioddefwr honedig. • Dylai'r atgyfeiriad gynnwys gwybodaeth am unrhyw gam-drin domestig blaenorol ac unrhyw gamau a gymerwyd. **Gwerthusiad cychwynnol** • Os nad yw'r dioddefwr honedig yn oedolyn agored i niwed neu os nad yw'n cyrraedd y trothwy amddiffyn oedolion, rhaid i'r Rheolwr Arweiniol Dynodedig ystyried a oes cam-drin domestig a chyfeirio'r achos at yr heddlu neu at y gwasanaethau cam-drin domestig neu ddefnyddio'r Rhestr Wirio ac wedyn atgyfeirio. • Os yw'r dioddefwr yn oedolyn agored i niwed, dylid penderfynu a yw'r cam-drin honedig yn cyrraedd trothwy amddiffyn oedolion. • Os cyrhaeddir y trothwy, asesu'r risgiau. Yn ystod y cam hwn, dylid defnyddio'r pecyn asesu risg amddiffyn oedolion arferol, gan

Gwasanaethau Cymdeithasol perthnasol (y Cydlynydd Amddiffyn Oedolion sy'n gwneud hyn ar hyn o bryd).

- Mae'n bosibl y bydd cynrychiolydd o'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn dod i'r CAAR.
- Os yw'r dioddefwr neu'r camdriniwr honedig yn oedolyn agored i niwed, bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at amddiffyn oedolion gan ddefnyddio Ffurflen Atgyfeirio Amddiffyn Oedolion Cymru.
- Os bydd rhagor o drafod ar yr achos yn y CAAR, bydd y Rheolwr Arweiniol Dynodedig yn dod i'r cyfarfod (neu'n enwebu rhywun priodol i ddod iddo). Bydd gwybodaeth am yr achos amddiffyn oedolion ac unrhyw gamau a gymerir o dan Gynllun Gweithredu CAAR yn cael ei rhannu.

TAAC

- Os bydd achosion sy'n cael eu cyfeirio at y CAAR yn cynnwys camdriniwr sydd eisoes yn cael ei reoli o dan y TAAC, yna y TAAC fydd yn arwain a bydd yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei throsglwyddo i gydlynydd y TAAC i'w chynnwys yn y cynllun rheoli.
- Os yw'r dioddefwr mewn achos TAAC yn oedolyn agored i niwed ac y gwelir ei fod ef neu hi'n hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, byddai'r Cydlynydd Amddiffyn Oedolion neu'r Gweithiwr Cymdeithasol perthnasol yn cael ei wahodd i gyfarfod y TAAC i gyfrannu gwybodaeth.
- Os yw'r dioddefwr mewn achos TAAC yn oedolyn agored i ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael ar y pryd.
- Cymryd camau amddiffyn ar unwaith os oes gofyn. Os yw'n bosibl bod cam-drin domestig wedi digwydd, fe allai hyn olygu defnyddio gwasanaethau cam-drin domestig e.e. lloches.

Trafod strategaeth

- Os yw'r camdriniwr honedig yn bartner, yn gyn-bartner neu'n perthyn mewn rhyw fodd arall â'r dioddefwr, nodi mai cam-drin domestig yw'r digwyddiad.
- Nodi a yw'r camdriniwr honedig hefyd yn gofalu am y dioddefwr honedig (os ydyw, cynnal gwiriadau ynghylch asesiad a gwasanaethau gofalwyr ac ystyried cynnwys Gofalwyr Powys).
- Gwirio a oes gan y camdriniwr honedig gysylltiad ag oedolion neu blant agored i niwed eraill, e.e. drwy eu gwaith a rhannu gwybodaeth fel sy'n briodol.
- Dilyn y llwybr atgyfeirio cam-drin domestig i gwblhau'r rhestr wirio os nad yw'r atgyfeiriwr eisoes wedi'i llenwi (fe all hyn fod o fewn yr amserlen ar gyfer trafod y strategaeth neu fel cam sy'n codi o'r drafodaeth honno. Mae'n bosibl mai'r Rheolwr Arweiniol Dynodedig fydd yn gwneud hyn, gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr arall sydd wedi'i hyfforddi. Gallai hyn fod yn asiantaeth darparwr).
- Cymryd camau amddiffyn ar unwaith os oes gofyn. Os yw'n bosibl bod cam-drin domestig wedi digwydd, fe allai hyn olygu defnyddio gwasanaethau cam-drin domestig e.e. lloches.

niwed ac y gwelir ei fod ef neu hi'n hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, byddai'r Cydlynydd Amddiffyn Oedolion neu'r Gweithiwr Cymdeithasol perthnasol yn cael ei wahodd i gyfarfod y TAAC i gyfrannu gwybodaeth.	• Os gwelir bod y cam-drin domestig yn peri risg uchel, cyfeirio'r achos at CAAR. Bydd y Rheolwr Arweiniol Dynodedig yn mynd i'r cyfarfod a/neu reolwr gofal y dioddefwr honedig (os oes un wedi'i ddyrannu) • Os gwelir bod y cam-drin domestig yn risg ganolig/isel, cysylltu â'r Cydlynydd/gwasanaethau Cam-drin Domestig i gael cyngor. • Trefnu cyfarfod strategaeth o fewn yr amserlen arferol (mae'n bosibl na fydd cyfarfod CAAR yn cael ei gynnal o fewn yr amserlen). **Cyfarfod strategaeth** • Ym mhob achos o gam-drin domestig posibl, gwahodd EATD/ gwasanaethau cam-drin domestig/ Cydlynydd Cam-drin Domestig fel sy'n briodol. • Cynnwys asiantaethau cam-drin domestig yn y Cynllun Amddiffyn. **Ymchwiliad** • Gofyn am gyfraniad gan arbenigwyr cam-drin domestig yn ôl y gofyn - e.e. asesu risg y camdriniwr **Cyfarfod Strategaeth Terfynol** • Cynrychiolwyr cam-drin domestig i fod yn bresennol a chyfrannu at bennu statws yr honiad a'r canlyniadau. • Mae'n bosibl y bydd gwasanaethau cam-drin domestig yn cael eu nodi yn y canlyniadau i'r dioddefwr (cyngor, cymorth, lloches a/neu ar gyfer y camdriniwr (asesiad/rhaglen i'r camdriniwr) **Cynhadledd achos** • (Dyma lle y bydd gwybodaeth am yr ymchwiliad yn cael ei rannu â dioddefwyr honedig ac/neu â'u

	cynrychiolwyr ac y cytunir ar y Cynllun Amddiffyn. • Gweithwyr proffesiynol cam-drin domestig i gymryd rhan mewn cynhadledd achos neu i'w arwain fel sy'n briodol. **Adolygu'r Cynllun Amddiffyn.** • Gweithiwr cam-drin domestig proffesiynol i gymryd rhan os yw wedi parhau i fod yn ymwneud â'r achos neu os yw'n dod yn briodol cynnwys gwasanaethau cam-drin domestig.

Os yw'n amlwg ar unwaith bod y sawl sy'n cael ei gam-drin yn oedolyn agored i niwed, yna y cam derbyniol fydd codi'r mater gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol a bydd gan y Rheolwr Arweiniol Dynodedig gyfrifoldeb i ystyried a yw cam-drin domestig yn fater i'w ystyried hefyd. Os bydd cam-drin domestig yn rhan o amgylchiadau'r achos, yna rhaid i'r Rheolwr Arweiniol Dynodedig lenwi'r Rhestr Wirio a/neu ymgynghori â'r darparwr Cam-drin Domestig yn yr ardal honno er mwyn sicrhau bod y dioddefwr mor ddiogel byth ag sy'n bosibl.

Gallai hyn olygu bod yr achos yn cael ei gyflwyno i'r CAAR ond beth bynnag bydd deinameg y cam-drin domestig yn cael ei thrin yn llawn mewn unrhyw Gynllun Diogelwch sy'n cael ei baratoi.

Lle na fydd y sawl sy'n dioddef y cam-drin yn cael ei asesu'n oedolyn agored i niwed yn y fan a'r lle ond bod cam-drin domestig wedi codi ei ben, bydd y gweithdrefnau cam-drin domestig yn cychwyn fel mater o flaenoriaeth ac os oes pryderon am natur agored i niwed y dioddefwr, yna bydd y Gweithiwr Cymorth sy'n ymdrin â'r achos yn ymgynghori â'r Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn sicrhau bod y dioddefwr hwnnw mor ddiogel ag sy'n bosibl.

Atodiad B

Trefniadau cyfweld

Trefn Astudiaeth Amddiffyn Oedolion, Cam-drin/Trais Domestig a Throseddau Casineb 'Cymru Gyfan' - trefniadau cyfweliadau dros y ffôn

Diogelu, amddiffyn oedolion a cham-drin domestig

DECHRAU'R CYFWELIAD (CYCHWYN Y PEIRIANT)

A. CEFNDIR

Beth yw eich rôl/teitl eich swydd?

Ers faint ydych chi yn eich swydd bresennol?

Gwybodaeth am gam-drin domestig

- A allwch chi esbonio imi y gwahaniaeth rhwng diogelu ac amddiffyn oedolion?
- Yn eich geiriau eich hun, a allwch chi ddisgrifio beth yw cam-drin domestig?

B. PWYNT CYSWLLT CYNTAF

B.1 Adeg y cyswllt cychwynnol â'r gwasanaethau cymdeithasol, beth a allai achosi i gleient droi cefn ar y broses.

Awgrym:

- Safbwynt y cleient.
- Ydych chi'n meddwl y gallai ymarferwyr wneud unrhyw beth yn ystod y cam hwn i atal y cleient rhag troi cefn ar yn broses?
- Safbwynt yr asiantaeth. Sut mae'r asesiadau'n effeithio ar y broses benderfynu i fwrw ymlaen ag achos?
- Os na fydd achos yn cyrraedd y trothwy amddiffyn oedolion, beth sy'n digwydd i'r achos? At bwy mae'r achos yn cael ei gyfeirio a sut mae'r penderfyniad yn cael ei wneud i gyfeirio'r achos?

B.2 Beth efallai fyddai'n gwneud i gleientiaid droi cefn ar y broses pan fydd ganddynt gysylltiaid â'r heddlu a'u bod nhw'n cynnal ymchwiliad?

Awgrym:

- Safbwynt y cleient.
- A yw'r ffordd y mae'r heddlu'n gweithredu'n effeithio ar dynnu'n ôl? A fyddai'n bosibl gwella hyn? Os byddai, sut?
- Beth yw'r prosesau penderfynu i'r heddlu benderfynu a ddylid atgyfeirio achos neu beidio? Ydych chi'n meddwl eu bod nhw'n gwneud hyn yn effeithiol? Os nad ydych chi, sut y gallen nhw wella?

C. CYSYLLTIAD Y TRYDYDD SECTOR

C.1 I ba raddau y mae asiantaethau'r trydydd sector yn ymwneud â'ch cleientiaid?

- A fyddwch chi'n cael llawer o atgyfeiriadau ganddyn nhw?
- Beth yw ansawdd yr atgyfeiriadau y byddwch chi'n eu cael?
- Yn eich profiad chi, a fyddech chi'n dweud bod perthynas weithio dda rhwng asiantaethau'r trydydd sector a'ch asiantaeth chi? A fyddai modd ei gwella mewn unrhyw ffordd?

D. PROSES AOAN

D.1 Pa gefnogaeth y bydd AOAN yn ei rhoi i'r cleient?

- Yn eich barn chi, faint o wybodaeth sydd gan ymarferwyr o drothwy AOAN? Pa asiantaeth sy'n atgyfeirio fwyaf i'r AOAN? Pwy ddylai fod yn atgyfeirio mwy?
- Sut y byddwch chi'n penderfynu a yw achos wedi cyrraedd trothwy AOAN? (Agored i niwed? Oedran? Galluedd?)
- Os nad ydyn nhw'n cyrraedd y trothwy, beth sy'n digwydd i'r achos? Cyfrifoldeb pwy yw'r achos os nad yw'n cyrraedd y trothwy?

D.2 Pa feysydd mewn achos sy'n bwysig i asiantaethau eu nodi wrth benderfynu a ddylid cyfeirio achos at eich asiantaeth neu beidio?

- Deinameg y berthynas yn effeithio ar y math o gymorth a roddir a lefel y cymorth hwnnw? h.y. straen gŵr sy'n gofalu? Euogfarn i fab? Datgyfeillio?
- Ydy'r meysydd hyn yn tueddu i gael eu harchwilio gyda chleientiaid?

E. CYDSYNIO

E.1 Beth sy'n digwydd os bydd y cleient yn gwrthod cydsynio ichi rannu gwybodaeth?

- A oes modd diystyru hyn? Pa bryd? Sut?
- A oes unrhyw amgylchiadau lle y gallwch chi atgyfeirio achos heb gydsyniad y dioddefwr? Pa mor aml y bydd hyn yn cael ei wneud?
- Faint o wybodaeth sydd gan ymarferwyr am hyn?
- A fydd cydsyniad dan bwysau'n cael ei ystyried? Beth fydd ymarferwyr yn ei wneud i asesu a yw'r cydsyniad yn cael ei roi dan bwysau?

F. ASESIAD RISG Y RHESTR WIRIO a CAAR

F.1 A allwch chi esbonio imi, pa bryd y byddwch chi'n cwblhau asesiad risg CAADA a pha bryd y byddech chi'n cwblhau DASH?

- Pa mor aml y bydd yr asesiad risg DASK yn cael ei ddefnyddio?

F.2 Atgyfeirio i'r CAAR

- Pa bryd y byddech chi'n atgyfeirio i'r CAAR?
- A allwch chi sôn wrtha'i am eich asesiad risg a pha feini prawf sydd gennych ar gyfer proses CAAR? (DASH RIC - sgôr pwyntiau Pa bwyntiau sy'n sgorio'n uwch?)
- Faint o achosion y bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn eu cyfeirio at y CAAR? (os yw'r nifer yn isel, holwch pam a sut y gellid gwella hynny)
- Pa bwrpas sydd i CAAR?

F.3 A ydych chi wedi cael unrhyw brofiad gyda chleientiaid dros 60 oed sydd wedi bod yn rhan o'r broses CAAR?

Awgrym:

- Pa mor ddefnyddiol yw'r CAAR i ddioddefwyr hŷn?
- Sut mae'r rhain wedi ymateb i'r cymorth?
- Os nad ydyn nhw wedi cael llawer o brofiad, beth tybed yw'r rheswm dros hynny?
- Pa bryd na fyddai'r CAAR yn briodol?

F.4 Pwy sydd fel rheol yn bresennol yn eich cyfarfod AOAN a'ch cyfarfod CAAR? Pwy sydd ddim yno ond a ddylai fod yn eich barn chi?

F.5 Pan fydd achos wedi'i nodi'n achos o gam-drin domestig, pa bryd y byddech chi'n dewis cynnwys EATD?

G. GWASANAETH ERLYN Y GORON

G.1 Mae wedi'i sefydlu bod camwedd troseddol wedi digwydd a bod y cleient yn dymuno mynd ar drywydd euogfarn. Yn eich profiad chi, pa gyfran o achosion y mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dewis bwrw ymlaen â hwy a'u prosesu i'r rheini sy'n 60 oed a hŷn?

- Beth yw nodweddion yr achos?
- Beth yw canlyniadau'r achosion hyn?
- Beth yn eich barn chi yw'r gwir resymau pam na fyddai Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ysgwyddo achos?
- Sut y byddai modd gwella hyn?

G.2 Pam y byddai cleient o bosibl yn dewis tynnu eu cydsyniad/datganiad tyst yn ôl?

- A fydd unigolyn yn siarad â'r cleient i holi pam mae wedi tynnu cydsyniad/datganiad tyst yn ôl?
- Beth yw'r rhesymau? A all asiantaethau wneud unrhyw beth i wella hyn?

G.3 Os bydd cleient yn penderfynu peidio â mynd ar drywydd euogfarn droseddol, pa opsiynau eraill gaiff eu trafod â nhw?

Awgrym:

- Sifil?
- Lles?

H. TROSEDDAU CASINEB

H.1 Beth yw eich dealltwriaeth chi o droseddau casineb a sut y byddech chi'n penderfynu sut i ddelio â dioddefwyr hŷn troseddau casineb? A oes mecanwaith atgyfeirio lle y gallai athreuliad ddigwydd?

I. DATBLYGIADAU YN Y DYFODOL A SYLWADAU I GLOI

I.1 Yn gyffredinol, beth yw'r prif feysydd lle bydd pobl yn tynnu'n ôl o'r broses o'r pwynt cyswllt cychwynnol i'r cam erlyn? Beth y gall asiantaethau ei wneud i wella a lleihau cyfraddau tynnu'n ôl?

I.2 A oes unrhyw fylchau yn y broses atgyfeirio y gellid o bosibl eu cryfhau?

I.3 A fyddech chi'n hoffi cynnig unrhyw sylwadau eraill sydd heb eu trafod eisoes?

"Diolch yn fawr iawn am eich amser a'ch help."

DIWEDD Y CYFWELIAD

Trefn Astudiaeth Amddiffyn Oedolion, Cam-drin/Trais Domestig a Throseddau Casineb 'Cymru Gyfan' - trefniadau cyfweliadau dros y ffôn

Systemau Rheoli Data

DECHRAU'R CYFWELIAD (CYCHWYN Y PEIRIANT)

A. CEFNDIR

Beth yw eich rôl/teitl eich swydd?

Ers faint ydych chi yn eich swydd bresennol?

B. ADRAN AM REOLI ACHOSION YN GYFFREDINOL A RHANNU GWYBODAETH

B.1 Pa system rheoli data y byddwch yn ei defnyddio?

Awgrym:

- Cronfeydd data - a oes unrhyw newidiadau i'ch system y credwch y mae angen eu gwneud i gydweddu â'r broses rheoli achosion?
- Sut y byddwch chi'n rhannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill?
- Ydych chi'n teimlo ei bod hi'n addas at y diben (wrth gyfeirio achosion at yr heddlu, AOAN, y trydydd sector ac ati)?
- Sut y byddwch chi'n cofnodi ac yn rheoli'r wybodaeth y byddwch yn ei chael am gleient?

B.2 Diogelu Data

Beth yw eich dealltwriaeth chi o'r ffordd y mae eich cydweithwyr eraill yn gweld diogelu data? Ymarfer? Polisi yn eich sefydliadau?

Beth yw eich dealltwriaeth chi o systemau diogelu data? Sut rydych chi'n gwybod am ddiogelu data?

Awgrym:

- Beth yw'r cyfyngiadau gyda golwg ar rannu data?
- Pa wybodaeth fyddai gennych chi am y dioddefwr ac o dan ba amgylchiadau y byddech chi'n cadw'r wybodaeth honno yn ôl?

B.3 Gwybodaeth Sy'n Cael Ei Chofnodi

Pan fyddwch chi'n cael galwad sy'n riportio digwyddiad cam-drin domestig/ trosedd casineb, pa wybodaeth y byddwch yn ei chofnodi am y dioddefwr?

A yw'r wybodaeth y byddwch yn ei bwydo i'r system ynglŷn â'r dioddefwr/wyr a'r camdriniwr/wyr honedig yn wybodaeth sydd 'wedi'i safoni'?

Beth yw'r prif feysydd o ddiddordeb ichi y byddwch yn eu cofnodi wrth dderbyn galwad? Sut y bydd hyn yn cael ei gofnodi (awgrymwch SRhD, nodiadau, ffeil ac ati)?

Awgrymwch os bydd angen:

- Beth yw'r prif feysydd o ddiddordeb yng nghyswllt y dioddefwr?
- Beth yw'r prif feysydd o ddiddordeb yng nghyswllt y camdriniwr? (A yw'n cael ei gofnodi o safbwynt y dioddefwr neu o safbwynt y camdriniwr?)
- A oes dynodyddion tebyg ar gyfer y dioddefwr neu'r camdriniwr? (Rhaglen camddefnyddio sylweddau, sut maen nhw'n eu gwneud nhw'n atebol)
- A oes codau sy'n cipio hyn ar eich SRhD? Rhai o'r prif feysydd sydd o ddiddordeb?

A yw'r math o gymorth ychwanegol a lefel y cymorth hwnnw (gan y teulu, ffrindiau ac ati) sy'n cael eu rhoi i'r dioddefwr a'r camdriniwr yn cael eu monitro, ac os ydynt, ymhle mae'r wybodaeth hon yn cael ei chadw?

Pan fyddwch chi'n cadw nodiadau am gam-drin unigolion, ymhle y byddwch chi'n cadw'r wybodaeth?

C. YSTYRIWCH EICH PROSES GOFNODI A'CH ATGYFEIRIADAU.

C.1 Yn eich sefydliad chi, os bydd achos wedi cael ei nodi eisoes yn achos cam-drin domestig/trosedd casineb a'ch bod yn mynd i atgyfeirio'r achos ymlaen, pa wybodaeth y byddech chi'n ei rhannu ag asiantaethau eraill?

Awgrym:

- Os bydd y dioddefwr wedi dioddef o'r blaen a oes unrhyw ffordd y gall asiantaeth wybod ei bod wedi cael galwad am yr un dioddefwr yn y gorffennol?
- Sut y byddwch chi'n tagio trosedd a allai yn eich barn chi o bosibl gael ei hailadrodd a sut y byddwch yn tynnu sylw ato? Os nad ydych chi'n gwneud hyn, sut y gallech chi ei wneud?

C.2 Fel rhan o'ch trefniadau cadw cofnodion ar y SRhD, pan fyddwch chi'n disgrifio digwyddiad, a oes ffordd o greu defnydd cyson o gategorïau ar y SRhD, er mwyn ichi allu monitro digwyddiadau ailadroddus yn rhwydd dros gyfnod?

C.3 Cyrraedd trothwy'r AOAN

- A yw'r prosesau penderfynu'n cael eu cofnodi pan fydd penderfyniad yn cael ei wneud am AOAN? A yw'r penderfyniadau hyn yn cael eu cyfeirio'n ôl at yr asiantaeth gwreiddiol ac os felly sut?
- Beth sy'n digwydd os na fydd achos yn cyrraedd trothwy'r AOAN a sut mae hyn yn cael ei gofnodi?
- Sut y byddwch chi'n monitro'r canlyniad os bydd y CAAR yn derbyn yr atgyfeiriad?

C.4 Sut y byddwch chi'n cofnodi barn defnyddwyr y gwasanaeth a'u dymuniadau mewn achosion? Ar y SRhD? Neu ar wahân?

D. DATBLYGIADAU YN Y DYFODOL

O ran systemau rheoli data asiantaethau eraill a phroses AOAN a CAAR ydych chi'n teimlo y gellid gwella unrhyw beth wrth atgyfeirio achos?

E. SYLWADAU I GLOI

A fyddech chi'n hoffi cynnig unrhyw sylwadau eraill sydd heb eu trafod eisoes?

Diolch yn fawr iawn am eich amser a'ch help.

DIWEDD Y CYFWELIAD

Atodiad C

Galwad yn dod i Ofal Cymdeithasol / Amddiffyn Oedolion

Ffrind neu deulu

Dioddefwr

Proffesiynol

Heb gael cydsyniad y dioddefwr

Dydy'r dioddefwr ddim eisiau i'r camdriniwr fynd i drwbwl nac i unrhyw beth anffodus ddigwydd

Oedolion agored i niwed yn tueddu i beidio â galw'u hunain

Ddim yn deall eu bod yn cael eu cam-drin

'Ffordd o fyw' - mae'r cam-drin yn normal ac yn dderbyniol iddyn nhw

Ddim eisiau poeni'r gwasanaethau cymdeithasol

Stigma cynnwys asiantaeth

Ddim yn ymddiried mewn gwasanaethau

Dioddefwr yn gyndyn o ymgysylltu nes cael ei symud o'r sefyllfa

Pobl hyn ddim yn sylweddoli eu bod mewn perthynas gamdriniol ac maen nhw'n derbyn y peth, dyna'u ffordd o fyw. (Penderfynwr ar ran AOAN)

Os bydd perthnasau neu ffrindiau'n cyfeirio achos heb ei drafod a'r dioddefwr neu heb gael cydsyniad, mae'r dioddefwr yn fwy tebygol o ddatgymgysylltu. (Cydlynydd AOAN)

Yn aml ddim yn gofyn am gydsyniad y dioddefwr

Ddim yn gofyn y cwestiynau iawn i gwblhau'r atgyfeirio

Tybiaethau'n cael eu gwneud heb siarad â'r dioddefwr

'Trosglwyddo'r cyfrifoldeb' - gweithiwr proffesiynol yn rhoi'r cyfrifoldeb am ddiogelu i rywun arall

Y gweithiwr proffesiynol ddim yn gwneud dim i ddiogelu'r dioddefwr honedig.

Os bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol, byddan nhw'n ddelfrydol eisiau siarad a'r dioddefwr.

Eisiau help i'r camdriniwr

Ofn ailarfarniad

Ymdeimlad o ddyletswydd i ofalu am y camdriniwr neu'n dibynnu ar y camdriniwr fel gofalwr

Ofni'r anwybod - gwell byw gyda'r cam-drin na mentro canlyniadau ansicr

Canlyniadau a sgil-effeithiau i'r teulu

Gwell 'goddef' y cam-drin na cholli aelod o'r teulu

Eisiau help ond ddim yn gwybod beth

Ystyriaethau ynghylch dibyniaeth - ariannol (dim morgais)

Ystyriaethau ynghylch symudedd

Euogrwydd - teimlo'n gyfrifol am y cam-drin

Cywilydd y gallai aelod o'r teulu fod yn gamdriniwr

Pobl agored i niwed ddim yn ffonio'u hunain

Dibynnu sut mae'r gweithiwr proffesiynol yn ymateb iddynt Mwy o ewyllys i ymgysylltu os ydyn nhw'n dangos cydymdeimlad, dealltwriaeth ac yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnyn nhw

Ddim yn deall y broses

Neb yn eu coelio

"Rwy'n meddwl bod pob o'r oed yna'n llai tebygol o wybod ymhle i gael help"

Os yw'r dioddefwr wedi cael profiad negyddol yn y gorffennol, mae'n llai tebygol o ymgysylltu

Cyn gynted ag y byddan nhw'n codi'r ffôn, rydyn ni eisoes yn brwydro yn erbyn y ffaith y byddan nhw'n amau eu hunain yn y broses honno. Cyn gynted ag y bydd rhywun yn codi'r ffôn ar y pen arall rydym ar ddibyn o ran sut y byddan nhw'n ymateb. Os bydd y sawl sy'n codi'r ffôn dan faich trwm o achosion, a galw, os ydyn nhw'n negyddol yn eu tôn a'u llais, gallai hynny olygu bod yr unigolyn yn cau'r llenni a chawn ni ddim y datgeliad. Mae'r ffordd y mae'r unigolyn wedi ateb y ffôn wedi dylanwadu ar bethau ac efallai eu bod yn ddiwerth ac na ddylen nhw fod yn crybwyll y peth. Yn sicr, o ran cam-drin pobl hŷn, fydden nhw ddim yn creu trafferth i neb a allai fod yn bwysig yn gwneud pethau pwysicach o lawer. Dyna sut y bydden nhw'n ei gweld hi. (Detectif Arolygydd)

Rwy'n meddwl weithiau, pan fyddwn yn edrych ar achos megis cam-drin ariannol er enghraifft efallai y bydd y fam, y tad, pwy bynnag yn sylweddoli bod perthynas wedi manteisio arnyn nhw ond eu bod am i hynny stopio. Yr hyn nad ydyn nhw'i eisiau yw bod rhywun yn cael ei erlyn. Dyna'r adeg y byddan nhw efallai'n troi cefn ar y broses ac yn tynnu cydsyniad yn ôl i'r ymchwiliad hwnnw fynd rhagddo. Dydy hynny ddim yn eich rhwystro rhag edrych ar gam diogelu a symud pethau ymlaen. (Cydlynydd AOAN)

"Rwy'n meddwl bod pobl o'r oedran hwnnw'n llai tebygol o wybod o ble i gael help" (Swyddog Amddiffyn Oedolion)

Ymagwedd Weithredol

Bydd y gweithiwr proffesiynol yn cyfeirio'r dioddefwr at asiantaeth arall ar ran y dioddefwr

Ymagwedd Oddefol

Bydd y gweithiwr proffesiynol yn cyfeirio'r dioddefwr at asiantaeth arall. Cyfrifoldeb y dioddefwr yw gwneud rhagor o alwadau am help a chymorth

Anaml y byddwn ni. Mae'n mynd i mewn i'r fan honno [AOAN] ac wedyn byddwn ni bron iawn yn cymryd cam yn ôl. Eich baich chi yw hwnna. Chi sydd a'r baton yn awr ac wedyn byddwn ni'n bwrw ymlaen â beth bynnag arall (Swyddog yr Heddlu)

Rhoddir rhesymwaith ynghylch pam na wnaethon nhw gyrraedd y trothwy gan awgrymu argymhellion. Bydd hyn fel rheol yn cael ei wneud trwy lythyr neu fe all fod yn sgwrs dros y ffôn

Cynigir awgrymiadau ond ni fydd yr achos yn cael ei atgyfeirio mewn gwirionedd, cyfrifoldeb yr atgyfeiriwr cychwynnol yw hyn

Atgyfeirio amhriodol

Proses Atgyfeirio

Yr heddlu

AOAN

Mae'n bosibl y bydd rhywun yn troi cefn ar y broses oherwydd ei fod yn teimlo'n driw i'r teulu. Y cyfan maen nhw eisiau yw i chi gael gair â nhw. (Swyddog AOAN yn yr Uned Amddiffyn Cyhoeddus)

Didn't meet POVA threshold

Diffyg gwybodaeth gan asiantaethau am drothwy AOAN

Nid yw'r atgyfeiriwr yn ceisio cydsyniad yr unigolyn y maen nhw'n ei atgyfeirio.

Nid yw'n cael ei ystyried yn oedolyn agored i niwed o dan y ddeddfwriaeth "mewn Dwylo Diogel" pobl ddim yn deall

Dydy'r dioddefwr ddim am fod yn gysylltiedig â'r peth

Asiantaeth yn atgyfeirio'r achos heb gymryd camau i ddiogelu'r unigolyn (cyfrifoldeb pawb)

Rhaid iddyn nhw deimlo bod gwerth yn cael ei roi arnyn nhw a'u bod yn cael help i agor y blwch o atgofion erchyll yna sydd ganddyn nhw am eu cam-driniaeth, o ran beth sy'n mynd i ddigwydd nesaf. (Ditectif arolygydd)

Met POVA threshold

Ceisio cydsyniad y dioddefwr

Atgyfeiriadau'n brin o wybodaeth ac fe all gymryd amser hir i gael gafael ar wybodaeth gan asiantaethau

Os byddan nhw'n cyflawni meini prawf oedolyn agored i niwed, bydd ganddyn nhw ddyletswydd i ymchwilio i'r digwyddiad ni waeth pa mor fach y bydd hwnnw (traul ar amser)

Rwy'n meddwl mai'r hyn sy'n gallu digwydd yw y gallai oedolyn agored i niwed ddweud eu bod yn hapus i gydsynio i gyfeirio'r achos at AOAN a'u bod am gael yr ymchwliaid hwnnw. Lle y bydden nhw o bosibl yn ymddatgysylltu yw lle y byddwch chi'n dechrau sôn am rhyngweithio posibl â'r Heddlu, ymchwiliad troseddol... Maen nhw [y dioddefwr honedig] am i'r peth stopio dyna'i gyd. Dydyn nhw ddim am i neb gael ei erlyn. (Cydlynydd AOAN)

Bydd rhai adrannau gwasanaethau i oedolion yn cyfeirio achosion at yr heddlu'n awtomatig, ni waeth pa mor fach yw'r digwyddiad cam-drin. Bydd eraill yn cyfeirio achos at yr heddlu dim ond pan gyrhaeddir lefel benodol o risg

Efallai na fydd yr unigolyn am i'r heddlu fod yn rhan o'r peth ac felly ni fydd gweithiwr proffesiynol yn atgyfeirio'r achos.

Cyfeirio at yr heddlu i benderfynu a yw'n cyrraedd trothwy CAAR

Rhai'n gweld yr heddlu'n endid pell

Ymddiriedaeth

Ofn y broses ac ailarfarnu

Triw i'r camdriniwr

Embaras a chywilydd - ddim am weld car yr heddlu y tu allan i'w tŷ

Stigma'n gysylltiedig â chynnwys yr heddlu

Panic wrth feddwl beth allai ddigwiydd

Ddim yn deall y broses

Dibynnu ar y berthynas â swyddog yr heddlu

Nid yw'r dystiolaeth gydweithredol mor gadarn ag y dylai fod (tystiolaeth feddygol yn gefn i'r honiadau)

Ddim yn dystion credadwy o ran cofio digwyddiadau a sgiliau cyfathrebu

Ansawdd y dystiolaeth

Casglu tystiolaeth

Proses Cyfiawnder Troseddol

Datganiadau tystion

Achosion Llys

Mae pethau'n gwella, yn y dechrau y rheswm oedd bod y dystiolaeth a gasglwyd yn wael neu ei bod yn anodd caele tystiolaeth o'r cam-drin. (Penderfynwr ar ran AOAN)

Dim ond ar ba dystiolaeth bynnag a gyflwynir iddyn nhw gan yr Heddlu y gall Gwasanaeth Erlyn y Goron weithredu. Rôl ddeuol yw hon, nid dim ond Gwasanaeth Erlyn y Goron ond ansawdd yr ymchwiliad a'r hyn sy'n cael ei gyflwyno iddyn nhw. (Swyddog Amddiffyn Oedolion)

Amharu ar eu hiechyd

Prin yw'r defnydd o gamau arbennig

Dydyn nhw ddim yn deall proses fodern y Llys Cyfiawnder

Mae angen helpu a grymuso unigolion i fynd i 'r llys

Mae'r cam-drin seicolegol a ddioddefir ganddynt, yn cael ei ategu'n barhaus. "Os byddwch chi'n fy riportio i, bydda i'n dod yn droseddwr a byddwch chi'n mynd i gartref."(Detectif Arolygydd)

Er bod camau arbennig, dydy'r llysoedd ddim am i bobl eu defnyddio oherwydd nad ydyn nhw'n cael cymaint o effaith. Ond ddylai'r llysoedd ddim dibynnu ar effaith. Dylen nhw ddibynnu ar y ffeithiau. (Penderfynwr ar ran AOAN)

Mae'n bosib y byddan nhw am weld y cam-drin yn dod i ben ond dydyn nhw ddim o reidrwydd am fynd ar lwybr troseddol. Mae'n bosibl cael cyn bartner ond nid yw'n bosibl gan cyn fab neu ferch. (Cydlynydd AOAN)

Yn sicr rwy'n teimlo bod angen llawer mwy o erlyniadau a dydw i ddim yn meddwl bod y bobl fwyaf agored i niwed yn cael y cyfle i fynegi eu barn yn y Llys pan fyddant am wneud hynny. (Swyddog Amddiffyn Oedolion)

Ofn yr anwybod

Maen nhw'n caru'r camdriniwr am ei fod yn un o'r teulu

Gorthrech neu bwysau o du'r camdriniwr neu aelodau'r teulu

Ailarfarnu

Maen bosibl y byddan nhw'n teimlo'n euog ac yn eu beio'u hunain oherwydd eu bod nhw wedi magu'r camdriniwr

Ofn y bydd y llys yn eu beio nhw am y cam-drin gan ofni y bydd rhywun yn cwestiynu eu gallu i fagu plant

Ddim am greu drwgdeimlad a thrallod i'r teulu

Proses y llys yn rhy hir

Ddim eisiau'r cyhoeddusrwydd yn ystod yr achos ac wedyn

Mae'n bosibl y bydd y dioddefwr a'r camdriniwr wedi cymodi

Maen nhw'n teimlo bod eu lles emosiynol eu hunain dan ormod o straen, dydyn nhw ddim yn gallu ymdopi â mynd i'r llys a'r cyfan maen nhw eisiau'i wneud yw cerdded i ffwrdd

Problemau wedi'u datrys eisoes

Os cam-drin ariannol sydd dan sylw, maen nhw'n fwy tebygol o ymddatgysylltu oherwydd eu hagwedd yw ,"Wel, bydden nhw wedi'i gael ar ôl imi farw beth bynnag."